# Agenda - Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5 - Tŷ Hywel**

**a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 26 Tachwedd 2025

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Robert Donovan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddEconomi@senedd.cymru

## Hybrid

### Rhag-gyfarfod preifat

09.00 - 09.15

### Sesiwn gyhoeddus

09.15 - 12.20

### 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

09.15

### 2 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27: Materion Gwledig

09.15 - 10.15 (Tudalennau 1 - 56)

Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru

Gian Marco Currado, Cyfarwyddwr - Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru

Dr Richard Irvine, Prif Swyddog Milfeddygol, Llywodraeth Cymru

Jamie Powell, Dirprwy Gyfarwyddwr - Cyllid a Llywodraethu, Llywodraeth Cymru

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Dogfennau atodol:**
Briff Ymchwil
Papur tystiolaeth – Llywodraeth Cymru

## Egwyl

10.15 – 10.20

## 3 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27: Masnach a Ffiniau

10.20 – 10.50 (Tudalennau 57 - 126)

Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, Llywodraeth Cymru
Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru
Peter Ryland, Prif Weithredwr Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, Llywodraeth Cymru
Andrew Gwatkin, Cyfarwyddwr – Cysylltiadau Rhyngwladol a Masnach, Llywodraeth Cymru

**Dogfennau atodol:**
Briff Ymchwil
Papur tystiolaeth – Llywodraeth Cymru

## Egwyl

10.50 – 11.00

## 4 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27: Yr Economi a Sgiliau

11.00 – 12.20 (Tudalennau 127 - 174)

Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, Llywodraeth Cymru
Jack Sargeant AS, y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol, Llywodraeth Cymru
Duncan Hamer, Cyfarwyddwr - Gweithrediadau, Busnes a Rhanbarthau, Llywodraeth Cymru
Jo Salway, Cyfarwyddwr - Partneriaeth Gymdeithasol, Cyflogadwyedd a Gwaith Teg, Llywodraeth Cymru

**Dogfennau atodol:**
Briff Ymchwil
Papur tystiolaeth - Llywodraeth Cymru

## 5 Papurau i'w nodi

12.20

**5.1 Y Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru): cwestiynau pellach yn dilyn y sesiwn dystiolaeth - 5 Tachwedd 2025**

(Tudalennau 172 - 176)

**Dogfennau atodol:**
Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg - 18 Tachwedd 2025

**5.2 Y Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru): cwestiynau pellach yn dilyn y sesiwn dystiolaeth - 13 Tachwedd 2025**

(Tudalennau 177 - 178)

**Dogfennau atodol:**
Llythyr gan y Cadeirydd at Rhentu Doeth Cymru - 18 Tachwedd 2025

### 5.3 Ymchwiliad i brosesu bwyd: Cwestiynau dilynol o gyfarfod y Pwyllgor ar 24 Medi 2025

(Tudalennau 179 - 181)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig - 18 Tachwedd 2025

### 5.4 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol - Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol

(Tudalen 182)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad - 18 Tachwedd 2025

### 5.5 Rheoliadau Cynhyrchu Organig (Diwygio) 2025

(Tudalen 183)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig - 19 Tachwedd 2025

## Sesiwn breifat

12.20 - 12.30

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

12.20

## 7 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27: Trafod y dystiolaeth

12.20 - 12.30

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

## Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27

26/11/2025

## Cefndir i osod y gyllideb

Mae'r papur hwn yn darparu tystiolaeth i'r Pwyllgor yn ymwneud â chynigion gwario mewn perthynas â chyllidebau'r portffolio Materion Gwledig a Swyddfa'r Prif Filfeddyg yn y Prif Grŵp Gwariant Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, fel yr amlinellir yn y Gyllideb Ddrafft a gyhoeddwyd ar 14 Hydref 2025 a cham 2, 3 Tachwedd 2025.

Mae Atodiad A yn darparu dadansoddiad o ffigurau perthnasol y Gyllideb Ddrafft yn ôl Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb.

## Cynnwys

**2. Dyraniadau'r Gyllideb Materion Gwledig ........ 4**

**3. Meysydd polisi penodol ........ 14**

**4. Deddfwriaeth ........ 21**

**5. Goruchwylio polisi'r ffin ........ 23**

**6. Atodiad A Dadansoddiad manwl o'r Camau Gweithredu yn ôl gweithgaredd Llinell Wariant yn y Gyllideb ........ 24**

2816 - Strategaeth a Chysylltiadau Llywodraeth ........ 25

2860 - Polisi a Thystiolaeth, Cyflawni ac Ymgysylltu Amaethyddiaeth 26

2792 - Cymorth ar gyfer Amaethyddiaeth ........ 27

2789 - Rural Payments ICT ........ 29

2790 - RPW Administration ........ 29

2870 - Pysgodfeydd ........ 30

2970 - Hyrwyddo Datblygiad Bwyd a Diwydiant Cymru ........ 31

2270 - Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid ........ 32

2271 - Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion ........ 32

2272 - Costau a Derbyniadau Taliadau Lladd oherwydd TB ........ 34

2273 - Dileu TB ........ 34

3730 – Rheolaethau'r Ffin ........ 35

**7. Atodiad B: Dadansoddiad manwl o ddyraniadau Cyllideb Ddrafft 2026-27 ar lefel Llinell Wariant yn y Gyllideb ........ 36**

# 2. Dyraniadau’r Gyllideb Materion Gwledig

## Crynodeb o Newidiadau i Gyllideb 2026-27

1. Y Gyllideb Ddrafft yw man cychwyn proses cyllideb Llywodraeth Cymru – nid diwedd y broses. Mae Cyllideb Ddrafft 2026-27 wedi’i hadeiladu ar sylfeini cadarn cyllideb y llynedd, a oedd yn cynnwys gwerth £1.6 biliwn o ymrwymiadau gwario newydd, gan alluogi gwasanaethau cyhoeddus i ddechrau cynllunio ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27. Mae’n dyrannu gwerth £1.6 biliwn o ymrwymiadau gwario newydd, gan adael hyblygrwydd ar gyfer buddsoddiad pellach ym mlaenoriaethau Cymru erbyn y Gyllideb Derfynol ym mis Ionawr. Ein huchelgais yw sicrhau Cyllideb Derfynol sy’n defnyddio’r holl adnoddau sydd ar gael i ni ar gyfer 2026-27. Mae’r llywodraeth yn awyddus o hyd i gydweithio â phleidiau eraill y Senedd i gytuno ar gyllideb, gan bwysleisio ein cydgyfrifoldeb i basio cyllideb sydd o fudd i ddinasyddion Cymru.

2. Mae'r tablau isod yn darparu trosolwg o'r cynlluniau sydd wedi'u crynhoi ar lefel uchel yn ôl maes busnes ar gyfer y portffolio Materion Gwledig a Ffiniau a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2026-27 ar 3 Tachwedd 2025.

3. Cyhoeddwyd dyraniad ychwanegol gan Lywodraeth y DU gwerth £18m dros 12 mlynedd, yn dilyn cyhoeddi’r Gyllideb Ddrafft, o ganlyniad i setliad **cronfa Pysgodfeydd a Thwf Arfordirol** o fis Mai 2025. Bydd yr holl gynigion gwariant newydd yn cael eu hystyried wrth baratoi’r Gyllideb Derfynol, gan sicrhau bod penderfyniadau’n cael eu gwneud mor agos â phosibl i’r rhai sy’n cael eu heffeithio, gan gefnogi blaenoriaethau lleol a thwf cynaliadwy.

## Adnodd

4. Mae dyraniad y gyllideb adnoddau wedi cynyddu o gyllideb derfynol ailddatganedig 25-26 gan £7.561m i £369.180m. Mae cyfanswm y gyllideb adnoddau wedi'i grynhoi yn Nhabl 1 isod.

## Cyfalaf

5. Mae dyraniad y gyllideb gyfalaf gwerth £109.770m yn cynnwys £28.984m o gyllid wedi'i glustnodi wedi'i ddarparu gan Drysorlys Ei Fawrhydi ar gyfer Safleoedd Rheolaethau'r Ffin. Mae cymhariaeth gyfatebol nad yw'n cynnwys cyllidebau Rheolaethau'r Ffin yn dangos cynnydd o £1.584m i'r gyllideb Materion Gwledig o'i gymharu â 2025-26. Mae cyfanswm y gyllideb gyfalaf wedi'i grynhoi yn Nhabl 2 isod.

## Tabl 1 : Crynodeb o'r Gyllideb Adnoddau

| Trosolwg o'r Gyllideb Adnoddau Materion Gwledig | | | £'000 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cam Gweithredu | Rhif BEL | Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Derfynol Ailddatganedig 2026-27 | Newid | Cyllideb Ddrafft 2026-27 Hyd-25 | % Newid |
| Tystiolaeth Strategol, Monitro a Chysylltiadau Rhynglywodraethol | 2816 | Strategaeth a Chysylltiadau Llywodraeth | 2,639 | 53 | 2,692 | 2% |
| Datblygu a Chyflawni Polisi, Rhaglenni a Buddsoddiad Cyffredinol mewn Amaethyddiaeth, Bwyd a Physgodfeydd | 2829 | Strategaeth Amaethyddiaeth | 500 | (500) | 6,631 | 2% |
| | 2860 | Polisi a Thystiolaeth, Cyflawni ac Ymgysylltu Amaethyddiaeth | 6,291 | 340 | | |
| | 2792 | Cymorth Amaethyddiaeth | 0 | 295,593 | 295,593 | 2% |
| | 2787 | Cynllun y Taliad Sylfaenol | 238,000 | (238,000) | | |
| | 2833 | Cynlluniau Buddsoddi Gwledig | 50,297 | (50,297) | | |
| | 2949 | Cynllun Datblygu Gwledig 2014-20 | 1,500 | (1,500) | | |
| | 2790 | Gweinyddiaeth Taliadau Gwledig Cymru | 3,811 | 376 | 4,187 | 2% |
| | 2870 | Pysgodfeydd | 3,605 | 72 | 3,677 | 2% |
| | 2970 | Hyrwyddo Datblygiad Bwyd a Diwydiant Cymru | 5,363 | 107 | 5,470 | 2% |
| Cefnogi a Chyflwyno'r Rhaglen / Strategaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid | 2270 | Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid | 1,910 | 38 | 1,948 | 2% |
| Rheoli a Chyflwyno Rhaglenni i Ddileu TB a Chlefydau Endemig Eraill | 2271 | Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion | 20,300 | 406 | 20,706 | 2% |
| | 2272 | Taliadau Costau a Derbynebau Lladd TB | 14,312 | 286 | 14,598 | 2% |
| | 2273 | Dileu TB | 9,321 | 186 | 9,507 | 2% |
| Rheolaethau'r Ffin | 3730 | Rheolaethau'r Ffin | 3,770 | 401 | 4,171 | 11% |
| | | CYFANSWM Adnoddau - Bron yn Arian Parod | 361,619 | 7,561 | 369,180 | 2% |

## Tabl 2: Crynodeb o'r Gyllideb Gyfalaf

| Trosolwg o'r Gyllideb Gyfalaf Materion Gwledig | | | £'000 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cam Gweithredu | Rhif BEL | Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Derfynol Ailddatganedig 2026-27 | Newid | Cyllideb Ddrafft 2026-27 Hyd-25 | % Newid |
| Datblygu a Chyflawni Polisi, Rhaglenni a Buddsoddiad Cyffredinol mewn Amaethyddiaeth, Bwyd a Physgodfeydd | 2860 | Polisi a Thystiolaeth, Cyflawni ac Ymgysylltu Amaethyddiaeth | 3,050 | 61 | 3,111 | 2% |
| | 2792 | Cymorth Amaethyddiaeth | 66,952 | 1,339 | 68,291 | 2% |
| | 2833 | Cynlluniau Buddsoddi Gwledig | 0 | | | |
| | 2789 | TGCh Taliadau Gwledig | 8,200 | 164 | 8,364 | 2% |
| | 2870 | Pysgodfeydd | 1,000 | 20 | 1,020 | 2% |
| Rheolaethau'r Ffin | 3730 | Rheolaethau'r Ffin | 0 | 28,984 | 28,984 | Wedi'i glustnodi |
| | | CYFANSWM Cyfalaf | 79,202 | 30,568 | 109,770 | 2% |

*28.984m o gyllid wedi'i glustnodi gan Drysorlys Ei Fawrhydi ar gyfer Safleoedd Rheolaethau'r Ffin.

## Blaenoriaethu'r Gyllideb

6. Fy nod yw sicrhau bod ein hadnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r gyllideb yn caniatáu i mi roi camau gweithredu ar waith ar gyfer y blaenoriaethau canlynol:

- Creu dyfodol cynaliadwy ar gyfer bwyd, pysgodfeydd a ffermio Cymru.
- Mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd er mwyn creu dyfodol tecach, mwy diogel a swyddi gwyrdd diogel.
- Cymryd camau i ddiogelu ac adfer natur yng Nghymru ac i gysylltu pobl â'r byd naturiol.
- Gwella iechyd a llesiant ein cymunedau trwy leihau gwastraff a llygredd, a defnyddio prosesau rheoleiddio i sbarduno arloesedd, creu marchnadoedd a chadw pobl yn ddiogel.

- Gwella iechyd a lles anifeiliaid.

7. Yn y gyllideb hon rwyf wedi blaenoriaethu cymorth i'r sector amaethyddiaeth, er mwyn helpu i lansio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn 2026 drwy gynnal cyllideb o £238 miliwn ar gyfer yr Haenau Cyffredinol yn 2026. Y nod yw annog cynifer o ffermwyr â phosibl i gymryd rhan yn y Cynllun, er mwyn iddynt ddechrau mwynhau'r manteision cyn gynted â phosibl. Bydd Cyfnod Pontio a Chynllun y Taliad Sylfaenol ar gael i'r rhai nad ydynt yn cymryd rhan yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, er y bydd yn cael ei leihau 40% y flwyddyn nesaf. Rwyf wedi ymrwymo i barhau i ddarparu'r cymorth ariannol hwn i ffermwyr gan eu bod wrth galon cymunedau ledled Cymru ac rydym yn cydnabod bod y sector amaethyddol yn wynebu newidiadau mawr.

8. Hefyd, rwy'n darparu cyllid refeniw a chyfalaf gwerth o leiaf £102m er mwyn helpu ffermwyr i wella perfformiad amgylcheddol ac ariannol eu busnesau yn ystod y cyfnod cyn, ac yn ystod, cyflwyno haenau opsiynol a chydweithredol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'r cynlluniau Cyfnod Paratoi sy'n cael eu disgrifio yn ddiweddarach yn y papur tystiolaeth hwn.

## Y dull o osod y Gyllideb ar gyfer 2026-27 ac asesu effeithiau

9. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn parhau i fod yn gonglfaen Llywodraeth Cymru wrth gynllunio cyllidebau, gan sicrhau bod penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yng Nghyllideb Ddrafft 2026–27 yn adlewyrchu agweddau hirdymor, atal a chydweithredu ar draws sectorau.

10. Mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn dangos ymrwymiad clir i'r pum ffordd o weithio a amlinellir yn y Ddeddf—yn enwedig drwy ymgysylltiad parhaus â rhanddeiliaid, gan gynnwys Comisiynwyr Cymru, y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb, Llywodraeth Leol a'r sector gwirfoddol.

11. Mae fy ngwaith yn paratoi'r gyllideb ddrafft yn dangos sut rwyf wedi ceisio adlewyrchu fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) wrth osod ein blaenoriaethau gwariant. Rydym wedi adolygu tueddiadau presennol a rhagamcanion y dyfodol a'u heffeithiau posibl yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor. Rydym wedi gwneud hyn er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo modd, nad yw ymatebion tymor byr yn cael effeithiau niweidiol mwy hirdymor.

12. Bydd angen i'r holl gyllid ar gyfer datblygu gwledig gyd-fynd â'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy a'n blaenoriaethau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn

gynaliadwy. Mae'r blaenoriaethau hyn yn seiliedig ar sut mae adnoddau naturiol yn gallu cefnogi ein nodau llesiant a mynd i'r afael â'r risgiau i'r amgylchedd a'r manteision cymdeithasol ac economaidd sy'n deillio ohonynt.

13. Rwyf wedi cyhoeddi'r holl dystiolaeth sy'n cefnogi fy mhenderfyniad yn ymwneud â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar wefan Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y dadansoddiad economaidd. Mae'r dystiolaeth hon yn gynhwysfawr ac mae'n cwmpasu canlyniadau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol posibl y Cynllun. Mae'r dystiolaeth yn cynnwys yr Achos Busnes, Asesiad Effaith Integredig a dadansoddiad economaidd wedi'i ddiweddaru.

14. Mae'r dadansoddiad economaidd yn adroddiad annibynnol gan gonsortiwm dan arweiniad ADAS. Mae'r adroddiad yn modelu amcangyfrif o effaith y Cynllun Ffermio Cynaliadwy terfynol a lansiais ym mis Gorffennaf 2025, gan gynnwys cyfraddau'r taliadau terfynol. Nod y gwaith hwn yw modelu senarios yn hytrach na rhagfynegi beth fydd yn digwydd. Nid yw'n ddadansoddiad pendant.

## Asesiad o Gydraddoldeb, Cynaliadwyedd, y Gymraeg a Hawliau Plant

15. Mae canlyniadau'r asesiadau effaith yn dangos nad oes unrhyw effeithiau anghymesur ar y grwpiau a nodwyd oherwydd y penderfyniadau cyllidebol hyn. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: **Cynllun Ffermio Cynaliadwy: asesiad effaith integredig | LLYW. CYMRU**.

## Goblygiadau costau byw uwch

16. Mae cynnydd chwyddiannnol wedi'i gymhwyso i bob Prif Grŵp Gwariant, gan gynnwys Newid Hinsawdd a Materion Gwledig er mwyn sicrhau y bydd pob rhan o Lywodraeth Cymru yn dechrau 2026-27 gydag o leiaf yr un lefel o gyllid mewn termau real ag y dyrannwyd iddynt eleni (2025-26). Mae'r rhan fwyaf o Linellau Gwariant yn y Gyllideb sy'n destun craffu gan y pwyllgor hwn wedi gweld cynnydd o 2% yn eu cyllidebau Refeniw a Chyfalaf.

17. Wrth gyfrifo'r cynnydd mewn chwyddiant, rydym wedi adlewyrchu rhagolygon chwyddiant mis Mawrth 2025 y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer 2026-27.

18. Hefyd, rydym wedi ystyried rhagolygon twf cyflog y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Mawrth ar gyfer 2026-27, sef 2.2%.

19. Bydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn cyhoeddi rhagolygon diwygiedig ar gyfer 2026-27 ochr yn ochr â Chyllideb Hydref Llywodraeth y DU ar 26

Tachwedd. Byddwn yn ystyried effaith unrhyw newidiadau yn ofalus ac yn gwneud darpariaeth ychwanegol os oes angen.

## Pontio'r UE yn dilyn ymadawiad y DU o'r UE

20. Mae ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd yn parhau i effeithio ar Gymru, gan arwain at feysydd gwaith newydd hanfodol i Lywodraeth Cymru. Roedd rhai o'r meysydd gwaith hyn i'w disgwyl, fel paratoi ein ffiniau, ond nid yw effaith newidiadau eraill ar draws y portffolio yn hollol glir eto. Mae'r cyd-destun yn parhau i esblygu, ac mae'r cytundeb diweddar rhwng y DU a'r UE yn berthnasol yn y cyswllt hwn.

21. Mae angen i ni barhau i addasu ac ymateb i'r dulliau gweithio newydd hyn mewn perthynas â'n rôl yn y DU a'n hymgysylltiad â'r UE a gwledydd eraill sy'n masnachu. Mae angen prosesau cyfathrebu rhynglywodraethol effeithiol i wneud hyn. Er enghraifft, rwy'n aelod o grŵp rhyngweinidogol ffurfiol gyda Llywodraeth y DU (Defra), Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Mae'r grŵp hwn wedi cytuno ar egwyddorion ar gyfer gweithio ar draws y pedair gwlad gan gynnwys trafod gwahaniaethau er mwyn cytuno ar sut rydym yn gweithio gyda'n gilydd i hyrwyddo ein nodau polisi.

22. Cefnogir y gwaith hwn gan gyfres o fframweithiau cyffredin sydd wedi'u diweddaru, ac yn dilyn canlyniad adolygiad Llywodraeth y DU o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU, y fframweithiau hyn fydd y prif fforwm ar gyfer trafod cydweithredu a gwahaniaethau o ran polisi er mwyn cefnogi marchnad fewnol. Mae swyddogion wrthi'n astudio manylion ymrwymiadau Llywodraeth y DU.

23. Yn ogystal, mae'r elfennau sy'n sylfaen i Gytundeb Masnach a Chydweithredu'r UE yn parhau i ddatblygu, ac mae angen ystyriaeth ac ymdrech i sicrhau ein bod yn parhau i ymgysylltu'n effeithiol. I wneud hyn, mae angen deall yr amgylchedd masnachu sy'n esblygu ac unrhyw effeithiau posibl, nid yn unig o ran Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r UE, ond hefyd wrth ystyried cytundebau masnach newydd gyda gwledydd eraill.

24. Er bod Llywodraeth y DU yn bwriadu ceisio sicrhau cytundeb SPS mesurau iechydol a ffytoiechydol cynhwysfawr gyda'r UE fel rhan o Gytundeb Ailosod y DU/UE, y Model Gweithredu Targed y Ffin yw'r polisi cyfredol o hyd.

25. Rydym yn gweithio gyda gweinyddiaethau eraill y DU ar union natur y fargen Ailosod a'r hyn y mae'n ei olygu ar gyfer rheolaethau SPS a bioddiogelwch y DU yn y tymor byr a'r hirdymor.

## Rhaglen Lywodraethu Materion Gwledig 2021-2026:

26. Mae'r dyraniadau cyllideb ar gyfer Prif Grŵp Gwariant Newid Hinsawdd a Materion Gwledig yn sicrhau eu bod yn blaenoriaethu fy ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu, nid yn unig yn y portffolio Materion Gwledig ond ar draws y Llywodraeth. Er enghraifft, mae llawer o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu ar gyfer Newid Hinsawdd yn cael eu cefnogi gan fuddsoddiad o bob rhan o Brif Grŵp Gwariant Newid Hinsawdd a Materion Gwledig. Er enghraifft, mae'r Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau yn cefnogi buddsoddiadau sy'n gwella'r broses o reoli maethynnau ar y fferm, yn diogelu ac yn gwella ansawdd dŵr, pridd ac aer, yn gwella effeithlonrwydd adnoddau ar y fferm, perfformiad technegol, a'r defnydd o dechnoleg i wella penderfyniadau rheoli.

27. Mae gan y Strategaeth Bwyd Cymunedol y potensial i sicrhau llawer o fanteision a hyrwyddo nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Er mai 'bwyd' yw'r ffactor cyffredin, gallai'r manteision i gymdeithas fod yn eang. Bydd y Strategaeth yn galluogi ac yn annog rhanddeiliaid a phartneriaid i wneud cyfraniad llawn at wella'r pwyslais ar faterion bwyd, ac ar gynllunio a chyflenwi ledled cyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus lle mae bwyd yn berthnasol. Mae strwythurau i hyrwyddo bwyd cymunedol eisoes ar waith, ac mae Llywodraeth Cymru wedi ysgogi Partneriaethau Bwyd Lleol trwy ddarparu grant untro i'w sefydlu ledled Cymru.

28. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn ein hymrwymo i greu system newydd o gymorth i ffermydd a fydd yn manteisio'n llawn ar bŵer amddiffynnol natur drwy ddulliau ffermio sy'n seiliedig ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, a system a gwasanaeth amlrywogaeth, sy'n cael eu darparu o dan y system bresennol o symud defaid yng Nghymru, EIDCymru. Mae systemau adnabod a symud da byw yn elfennau hanfodol o'r seilwaith gan helpu i atal a rheoli clefydau, sydd yn ei dro yn cefnogi iechyd y cyhoedd a hyder y cyhoedd.

29. Yn ogystal, bydd EIDCymru yn system amlrywogaeth a fydd yn cydymffurfio â Rheoliadau Ewropeaidd, sy'n elfen bwysig o ystyried cyhoeddiad diweddar Llywodraeth y DU ei bod am geisio sicrhau cytundeb SPS sy'n gyson â rheolau'r UE.

## Gwariant Ataliol

30. Mae'r cynigion cyllideb hyn yn adlewyrchu fy ymrwymiad parhaus i ddiogelu a blaenoriaethu buddsoddiad sy'n cefnogi mesurau ataliol cyhyd â phosibl. Mae gwerth am arian ac eglurder ynglŷn â sut rydym yn defnyddio ein hadnoddau yn

effeithiol yn ganolog i gyflawni ein blaenoriaethau. Unwaith y bydd gwariant wedi'i gynllunio yn unol â blaenoriaethau, mae gennym brosesau cyflawni a monitro sefydledig ar waith i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol at y dibenion a fwriadwyd.

31. Mae safonau uchel o iechyd a lles anifeiliaid yn helpu i amddiffyn yn erbyn achosion o glefydau. Mae anifeiliaid iach yn helpu i ddiogelu lefelau cynhyrchiant a chynhyrchu ffermwyr, lleihau colledion cyfalaf, lleihau effeithiau masnach negyddol yn ogystal â lleihau llygredd ac allyriadau $CO_2$. Mae achosion o glefydau yn gallu cael effeithiau enfawr ar yr economi. Er enghraifft, amcangyfrifwyd bod yr achosion o Glwy'r Traed a'r Genau yn 2001 wedi cael effaith gwerth £3.1 biliwn ar amaethyddiaeth, y diwydiant bwyd a'r sector cyhoeddus yn y DU.

32. Mae cyllidebau sy'n gysylltiedig â TB yn gyllidebau buddsoddi i arbed. Bydd methu â buddsoddi mewn dileu TB yn arwain at gynnydd cyfatebol mewn costau iawndal o ganlyniad i anifeiliaid heintiedig. Rwyf wedi gallu buddsoddi 2% ychwanegol yn 26-27 sy'n helpu i leddfu'r pwysau a nodwyd trwy gydol y flwyddyn ariannol hon.

33. Cafodd system EIDCymru ei gwella yn 2024 i gynnwys BVDCymru, sy'n cefnogi gwaith i weithredu Gorchymyn Dolur Rhydd Feirysol Buchol (Cymru) 2024. Fel rhan o gynlluniau ar gyfer cynllun dileu BVD gorfodol i Gymru, mae system BVDCymru fyw yn dangos statws BVD yr holl fuchesi yng Nghymru sy'n cael eu sgrinio bob blwyddyn, yn ogystal â statws BVD anifeiliaid unigol. Cefnogir y system gan ddesg wasanaeth sy'n rhan o wasanaeth EIDCymru. Mae'r system a'r gwasanaeth byw yn cael eu datblygu i gefnogi rhagor o fesurau rheoli clefydau sy'n dod i rym ym mis Gorffennaf 2026. Mae'r mesurau hyn yn gyson ag argaeledd data symud a chofrestru gwartheg ar EIDCymru.

## Llunio polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth

34. Mae'r dystiolaeth a ddefnyddir yn cynnwys ymrwymiadau polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn y Rhaglen Lywodraethu sydd â'r nod o fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur.

35. Mae hefyd yn cynnwys tystiolaeth sy'n deillio o'r profiadau dros flynyddoedd lawer o gyflwyno cynlluniau cymorth Polisi Amaethyddol Cyffredin yr UE, gan gynnwys y Rhaglenni Datblygu Gwledig, a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2023.

36. Ers i ni ymadael â'r UE, rydym wedi adolygu sut rydym yn monitro, yn adrodd ac yn gwerthuso cymorth amaethyddol Llywodraeth Cymru. Mae Deddf

Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn amlinellu fframwaith ac amserlenni adrodd sy'n seiliedig ar bedwar amcan Rheoli Tir yn Gynaliadwy:

- cefnogi Cynhyrchu Bwyd a Nwyddau eraill yn Gynaliadwy
- lliniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd
- cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision y maent yn eu darparu
- gwarchod a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol a hyrwyddo mynediad y cyhoedd atynt a'u ymgysylltiad â nhw, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd.

37. Cynhelir asesiad Rheoli Tir yn Gynaliadwy er mwyn sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn arfer swyddogaethau mewn perthynas ag amaethyddiaeth, neu weithgareddau eraill ar dir a ddefnyddir at ddibenion amaethyddiaeth a gweithgareddau ategol sy'n cyfrannu at yr amcanion SLM. Nid yw'r pedwar amcan hyn yn hierarchaidd a rhaid eu hystyried gyda'i gilydd.

38. Amlinellwyd y cymorth amaethyddol cyfredol ac arfaethedig yn y cynllun Cymorth Amlflwydd (MASP) a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2024, a bydd adroddiad blynyddol yn cael ei gyhoeddi ar ôl mis Mawrth 2026 yn amlinellu data ar wariant ariannol a gweithgarwch.

39. Bydd Dangosydd SLM a datganiad targed yn cael eu cyhoeddi ym mis Rhagfyr 2025. Disgwylir i'r adroddiad SLM cyntaf yn amlinellu cynnydd gael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2026, a bydd adroddiad SLM arall yn dilyn yn 2031 ar ôl cyhoeddi'r adroddiad Effaith SLM cyntaf yn 2030, a fydd yn defnyddio dulliau gwerthuso llwyddiannus i ganfod effeithiolrwydd effaith y buddsoddiadau.

40. Rydym yn bwrw ymlaen â'r gwersi a ddysgwyd o raglenni datblygu gwledig blaenorol yr UE er mwyn sicrhau cysondeb wrth adrodd a defnyddio adnoddau yn effeithlon. Y bwriad yw sicrhau mai adroddiadau SLM yw cyfraniad y sector at lywio'n uniongyrchol adroddiadau Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR) drwy'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol.

41. Bydd yr holl adroddiadau a amlinellir yn Neddf 2023 yn cael eu cyhoeddi ac yn ychwanegu at y sylfaen dystiolaeth bresennol i benderfynu ble mae angen targedu buddsoddiadau yn y dyfodol er mwyn sicrhau'r gwerth gorau am arian wrth ddiwallu anghenion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd ar gyfer Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

42. Ym mis Mai 2024 cyhoeddais y byddwn yn creu Bwrdd Gron Gweinidogion SFS yn cynnwys ffermwyr, sefydliadau cynrychioliadol fel yr Undebau Ffermio, cyrff anllywodraethol a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb mewn sicrhau diwydiant

amaethyddol cynaliadwy yng Nghymru. Roedd y trafodaethau cynhwysfawr, cydweithredol hyn ar ddatblygu'r SFS yn cynnwys safbwyntiau ar ddyraniadau cyllideb arfaethedig.

# 3. Meysydd polisi penodol

**Pontio o gynlluniau amnewid dros dro fel Cynllun Cynefinoedd Cymru, y Taliad Cymorth Organig a'r Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy;**

43. Yn y gyllideb hon, rwy'n darparu cyllid refeniw a chyfalaf gwerth o leiaf £102m i gefnogi ffermwyr i wella perfformiad amgylcheddol ac ariannol eu busnesau yn ystod y cyfnod cyn cyflwyno haenau opsiynol a chydweithredol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a’r cyfnod cyflwyno ei hun. Mae'r cynlluniau paratoadol a'r cymorth ar gyfer 2026/2027 a chynlluniau buddsoddi gwledig ehangach yn cynnwys:

- Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau sy'n darparu cymorth ariannol i wella perfformiad amgylcheddol ac economaidd ffermydd trwy fuddsoddi mewn seilwaith fel offer a pheiriannau i fynd i'r afael ag effaith llygredd ar y fferm.
- Cynllun Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau sy'n darparu cymorth ar gyfer gwelliannau seilwaith ar y fferm ac ystod o grantiau bach sy'n rhoi cyfle i ffermwyr wahanu dŵr glân a dŵr budr.
- Mae'r Cynllun Effeithlonrwydd Grantiau Bach, y Cynllun Garddwriaeth ac Arallgyfeirio Amaethyddol, y Cynllun Troi'n Organig a Chymorth Organig yn parhau i gefnogi ffermwyr Cymru yn ystod y cyfnod interim i gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy ac yn effeithlon.
- Grantiau Bach – Yr Amgylchedd, i helpu ffermwyr i greu ac adfer gwrychoedd a phlannu mwy o goed, gan sicrhau manteision i fioamrywiaeth frodorol, gan gynnwys pryfed peillio sydd mor hanfodol i ffermio.
- Grant Creu a Chynllunio Coetir i ddarparu buddsoddiad mewn coed er mwyn cefnogi'r broses o atafaelu carbon ac ystod eang o fanteision amgylcheddol a chymdeithasol eraill.
- Cynllun Adfer Coetiroedd, i fynd i'r afael â phroblem clefydau ac arallgyfeirio coetiroedd llarwydd.
- Cronfa her Technoleg Bwyd-Amaeth newydd ledled y gadwyn gyflenwi ehangach a fydd yn cefnogi arloesi ac ymchwil er mwyn helpu i ddatblygu atebion i faterion ar draws y gadwyn gyflenwi gyfan.
- Cynllun Arloesi Strategol i gefnogi datblygiad technegol yn y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru drwy weithgareddau fel Rhaglen Helix.

- Parhau â Chynllun y Taliad Sylfaenol ar gyfer y rhai nad ydynt yn ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

44. Yn y gyllideb hon rwyf wedi blaenoriaethu cymorth i'r sector amaethyddiaeth, er mwyn helpu i lansio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn 2026 drwy gynnal cyllideb o £238 miliwn ar gyfer yr Haenau Cyffredinol yn 2026. Y nod yw annog cynifer o ffermwyr â phosibl i gymryd rhan yn y Cynllun, er mwyn iddynt ddechrau mwynhau'r manteision cyn gynted â phosibl. Bydd Cyfnod Pontio a Chynllun y Taliad Sylfaenol ar gael i'r rhai nad ydynt yn cymryd rhan yn y cynllun, er y bydd yn cael ei leihau 40% y flwyddyn nesaf. Rwyf wedi ymrwymo i barhau i ddarparu'r cymorth ariannol hwn i ffermwyr gan eu bod wrth galon cymunedau ledled Cymru, gan gydnabod bod y sector amaethyddol yn wynebu newidiadau mawr.

## Y broses o ffermwyr yn trosglwyddo i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd megis allgymorth e.e. cymorth ar gyfer Cyswllt Ffermio a threfniadau gweinyddol;

45. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi ffermwyr i drosglwyddo i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy drwy sawl ymyrraeth gan gynnwys cyngor, canllawiau, hyfforddiant a grantiau. Mae Cyswllt Ffermio yn frand uchel ei barch a chydnabyddedig, a dyma'r prif ddull o ddarparu gweithgareddau dysgu a datblygu, rhannu gwybodaeth, a darparu allgymorth.

46. Bydd ein cynnig yn y dyfodol yn cael ei gynllunio i ymateb i'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy sydd wedi'u hamlinellu yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru), gan ganolbwyntio'n benodol ar gyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy wrth i ni symud i ffwrdd o Gynllun y Taliad Sylfaenol rhwng 2025 a 2029. Mae cynnig presennol Cyswllt Ffermio wedi bod yn helpu ffermwyr i drosglwyddo i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ers peth amser. Mae sawl ymyrraeth wedi cael ei defnyddio i ddarparu cyngor a chymorth pwrpasol un i un neu i grwpiau yn rhad ac am ddim neu gymorthdaledig.

47. Mae Cyswllt Ffermio wedi bod yn gweithio ochr yn ochr â'r Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm a swyddogion polisi i gyflwyno cyfres o ddigwyddiadau Sioe Deithiol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ledled Cymru er mwyn ymgysylltu'n uniongyrchol â ffermwyr unigol. Mae'r Sioeau Teithiol wedi cael derbyniad da, ac mae ffermwyr wedi dweud bod y trafodaethau un i un wedi'u helpu i baratoi ar gyfer dechrau'r Cynllun.

**Datblygu polisi pysgodfeydd, gan gynnwys cyflwyno Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd, a chymorth ariannol parhaus ar gyfer y sectorau morol, pysgodfeydd a dyframaeth ar ôl i Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop ddod i ben;**

48. Wrth gyflwyno Dull Gweithredu Strategol ar gyfer Pysgodfeydd a Dyframaeth Cymru, mae blaenoriaethau wedi cael eu hystyried ar sail ymrwymiadau ehangach y Rhaglen Lywodraethu, ymrwymiadau'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd a Chynlluniau Rheoli Pysgodfeydd (o dan Ddeddf Pysgodfeydd 2020). Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i'r adnoddau cyllideb a staff sydd ar gael a ffactorau perthnasol eraill, gan roi pwyslais clir ar gyflawni.

49. Bydd ein cyfeiriad yn y dyfodol yn parhau i ganolbwyntio ar ddulliau rheoli cynaliadwy, gan ganolbwyntio ar gyflwyno Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd a mesurau rheoli addasol. Bydd y cyfan yn cael ei gefnogi gan wyddoniaeth a thystiolaeth ac ymgysylltiad â rhanddeiliaid.

50. Byddwn yn parhau i gyflawni yn unol â'n dyletswyddau statudol, gan gynnwys Rheoli a Gorfodi, a byddwn yn chwilio am gyfleoedd a mentrau i gefnogi'r diwydiant i ddatblygu a thyfu. Bydd ein cylchoedd cyllido rheolaidd drwy Gynllun Morol a Physgodfeydd Cymru yn sylfaen i'r holl flaenoriaethau er mwyn helpu i sicrhau'r canlyniadau dymunol.

51. Bydd cyhoeddi a gweithredu Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd yn ddull allweddol o sicrhau prosesau rheoli cynaliadwy gan arwain at fanteision mawr. Rydym yn cydnabod bod diffyg data ar gael ar gyfer rhai stociau nad oes cwotâu ar eu cyfer. Felly, ar gyfer y stociau hyn, wrth i Gynlluniau Rheoli Pysgodfeydd gael eu gweithredu, i ddechrau byddant yn ceisio mynd i'r afael â bylchau tystiolaeth er mwyn gwella ein dealltwriaeth o stociau cyn newid y prosesau rheoli. Bydd y gyllideb yn cael ei dyrannu er mwyn cyflwyno'r asesiadau a'r cyngor angenrheidiol.

**Rhaglen Dileu TB Buchol (gan gynnwys Cynllun Cyflawni, profion ac iawndal) gan gynnwys mesurau rheoli clefydau anifeiliaid eraill fel ffliw adar a'r tafod glas;**

52. Mae rhaglen y Prif Swyddog Milfeddygol yn cynnwys iechyd a lles anifeiliaid statudol ac ar sail galw, a blaenoriaethau dileu clefydau a digolledu, gan gynnwys diogelu iechyd y cyhoedd. Mae ein cyllid yn sicrhau bod modd cyflawni meysydd polisi fel:

- Parhau i ddileu TB, gan gynnwys mannau problemus lle mae'r achosion yn cynyddu. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno'r Cynllun Cyflawni Dileu TB 5 mlynedd cyfredol, sy'n amlinellu cyfres o fesurau sydd â'r nod o leihau TB yng Nghymru.

- Paratoi ar gyfer ymlediadau ac achosion o glefydau iechyd anifeiliaid, ac ymateb iddynt, e.e. ffliw adar a'r Tafod Glas, a lle bo angen, ein hangen i fodloni'r rhwymedigaeth statudol i ddigolledu am unrhyw anifeiliaid sy'n cael eu difa.

- Datblygu conglfaen iechyd a lles anifeiliaid y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, gan gynnwys y Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid.

- Cyflawni Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu yn ymwneud ag Iechyd a Lles Anifeiliaid, a Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid deng mlynedd Cymru.

- Amddiffyn yn erbyn risgiau i iechyd y cyhoedd a chymdeithas yn sgil Ymwrthedd Gwrthficrobaidd.

- Y gallu i baratoi ac ymateb i bandemigau a chlefydau yn y dyfodol sy'n dod o anifeiliaid ac sy'n bygwth iechyd pobl a'r amgylchedd.

53. Er mwyn cyflwyno'r cynllun dileu dolur rhydd feirysol buchol yng Nghymru, mae angen cyllid i ddatblygu system BVDCymru. Mae'r system hon yn dangos statws dolur rhydd feirysol buchol yr holl fuchesi yng Nghymru sy'n cael eu sgrinio bob blwyddyn, yn ogystal â statws dolur rhydd feirysol buchol anifeiliaid unigol.

## Polisïau allweddol sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Lles Anifeiliaid newydd Cymru 2021-26 gan gynnwys canlyniadau'r gwaith yn ymwneud â thrwyddedu sefydliadau lles, gweithgareddau ac arddangosfeydd anifeiliaid;

54. Mae’r Cynllun Lles Anifeiliaid yn amlinellu camau gweithredu allweddol i gyflawni pedwar o ymrwymiadau’r Rhaglen Lywodraethu a blaenoriaethau eraill. Mae adroddiadau cynnydd blynyddol ar gael yma: https://www.llyw.cymru/cynllun-lles-anifeiliaid-cymru-2021-26.

55. Ym mis Mehefin 2025, cyhoeddwyd ymateb Llywodraeth Cymru i’r ymgynghoriad ar drwyddedu sefydliadau lles, gweithgareddau ac arddangosfeydd anifeiliaid — gan gymryd cam pwysig tuag at Fodel Cenedlaethol ar gyfer rheoleiddio lles anifeiliaid.

56. Byddwn ni’n cyflwyno’r Model Cenedlaethol yn raddol, gan ganolbwyntio ar feysydd a fydd yn cael y budd mwyaf o reoleiddio, dan arweiniad adborth yr ymgynghoriad:

- Cam 1: Datblygu cynigion ar gyfer rheoleiddio sefydliadau lles anifeiliaid gan gynnwys canolfannau achub, llochesi, adsefydlu, ac ailgartrefu.
- Cam 2: Ystyried rheoleiddio gwasanaethau twtio anifeiliaid anwes, sector eang nad yw’n cael ei reoleiddio ar hyn o bryd (mae dros 500 o wasanaethau twtio anifeiliaid anwes yng Nghymru).
- Camau yn y dyfodol: Archwilio’r posibilrwydd o reoleiddio gweithgareddau eraill os oes cefnogaeth a thystiolaeth gadarn i wneud hynny.

57. Camau gorfodi yw’r allwedd i lwyddiant. Mewn ymateb i bryderon a nodwyd yn yr ymgynghoriad, dyfarnwyd estyniad cyllid gwerth £700,000 i’r prosiect gorfodi awdurdodau lleol, Trwyddedu Anifeiliaid Cymru trwy gydol 2025/2026. Byddai darparu lefel debyg o gyllid yn ystod 2026/27 yn helpu i gynnal y momentwm, yn helpu i gyflwyno’r Model Cenedlaethol, ac yn sicrhau gwelliannau parhaol i les anifeiliaid ledled Cymru.

## Polisi adnabod a symud da byw

58. Mae angen dirymu a disodli Rheoliadau Adnabod Gwartheg (Cymru) 2007, fel y'u diwygiwyd, er mwyn gweithredu newidiadau cofrestru a symud yn ogystal â chyflwyno Dyfais Adnabod Electronig Buchol yng Nghymru. Ymgynghorwyd ar y cynigion polisi cofrestru ac adrodd ar symudiadau da byw yn 2021, ac eleni rydym wedi ymgynghori ar weithredu Dyfais Adnabod Electronig Buchol yng Nghymru. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r diwydiant trwy gydol y broses o roi'r polisi ar waith.

59. Bydd diwygiadau a gyflwynir gan y newidiadau i ddeddfwriaeth yn cael eu galluogi ar EIDCymru pan fydd adrodd am wartheg wedi trosglwyddo o Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain.

## Datblygu a gweithredu polisi bwyd a diod, gan gynnwys y Strategaeth Bwyd Cymunedol

60. Mae Rhaglen Lywodraethu 2021 – 2026 yn cynnwys ymrwymiad, 'Datblygu Strategaeth Bwyd Cymunedol Cymru i annog cynhyrchu a chyflenwi bwyd lleol yng Nghymru’.

61. Ers cyhoeddi'r **Strategaeth Bwyd Cymunedol** ar 29 Ebrill 2025, mae'r pwyslais wedi symud tuag at ddarparu cymorth ariannol i **Bartneriaethau Bwyd Lleol** a sefydlu Grŵp Cynghori'r Gweinidog pwrpasol. Bydd y ddwy fenter yn cael effaith gynnar ar ddiben cyffredinol y strategaeth; manteisio'n llawn ar botensial blaenoriaethau sy'n gysylltiedig â bwyd er mwyn sicrhau manteision i gymunedau Cymru ym meysydd llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol.

62. Cymorth ariannol i **Bartneriaethau Bwyd Lleol** ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2025-26. Mae swyddogion yn yr Is-adran Bwyd a Threchu Tlodi wedi bod yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i ddatblygu set gyffredin o amcanion a dangosyddion perfformiad ar gyfer Partneriaethau Bwyd Lleol, sy'n dwyn ynghyd flaenoriaethau'r pecyn cyllido traws-bortffolio cyfunol o Gyfnod Paratoi'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'r Prif Grŵp Gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol. Mae’r Prif Grŵp Gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol yn ariannu'r rhwydwaith presennol o Bartneriaethau Bwyd Lleol tan ddiwedd mis Mawrth 2028. Mae'r cyllid ychwanegol trwy Gyfnod Paratoi'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy wedi cael ei ddefnyddio i gynyddu gallu Partneriaethau Bwyd Lleol trwy eu galluogi i gynllunio a gweithredu eu prosiectau bwyd eu hunain. Mae'r prosiectau hyn yn ymwneud â blaenoriaethau allweddol fel mynd i'r afael â thlodi bwyd, datblygu cyfleoedd newydd ar gyfer y gadwyn gyflenwi leol, a gwella prosesau rhwydweithio a chydlynu strategol ar gyfer gweithgarwch bwyd lleol.

63. Mae cyflwyno cyllid ar y cyd ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26 ar y trywydd iawn i gyflwyno prosiectau sy'n gysylltiedig â bwyd yn llwyddiannus ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Rhagwelir y bydd y prosiectau hyn, er enghraifft, yn helpu i gyflenwi bwyd lleol i ganolfannau caffael cyhoeddus a bwyd cymunedol, yn cysylltu cymunedau ac ysgolion â chynhyrchwyr cynradd lleol, ac yn datblygu sgiliau ym meysydd tyfu, coginio a bwyta'n iach.

64. Mae'r Strategaeth Bwyd Cymunedol yn ymrwymo i sefydlu Grŵp Cynghori'r Gweinidog er mwyn goruchwylio gwaith i roi'r strategaeth ar waith, trwy broses gydweithredol gyda rhanddeiliaid allweddol a phartneriaid cyflenwi sy'n gysylltiedig â bwyd lleol.

65. Ar y sail hon, mae Cylch Gorchwyl yn cael ei lunio a bydd yn cael ei ddatblygu ymhellach mewn cyfarfod cyntaf o randdeiliaid cyfetholedig, a fydd yn aelodau craidd y Grŵp. Y bwriad wedyn yw penodi'r aelodaeth ehangach trwy broses 'datganiad o ddiddordeb' agored.

**A allech chi hefyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau gyda Llywodraeth y DU am gyllid ar gyfer cymorth amaethyddol yn y dyfodol.**

66. Mae Adolygiad o Wariant y DU yn darparu setliad i Lywodraeth Cymru ar gyfer adnoddau tan 2028-29 ac ar gyfer cyfalaf tan 2029-30.

67. Fis Hydref diwethaf, fe wnaeth Cyllideb y DU ddileu'r cyllid wedi'i glustnodi blaenorol ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru gan ddarparu cyllid fferm amnewid llawn yn 2024-25 (gan gynnwys cyfraniadau Bew) gwerth £339.6m. Mae'r cyllid hwn bellach wedi'i gynnwys fel llinell sylfaen yng Nghyllideb Llywodraeth Cymru. Ni fydd fformiwla Barnett ond yn cael ei chymhwyso i unrhyw newidiadau mewn gwariant yn y dyfodol (cynnydd a gostyngiad) yn Lloegr ar gyfer rhaglenni sydd wedi'u datganoli yng Nghymru, a byddant yn cynnwys ein cynnydd anghenion 5% ychwanegol, yn yr un modd ag ar gyfer pob maes gwariant arall.

68. Mater i Weinidogion Cymru, gyda chymeradwyaeth y Senedd, yw penderfynu sut i ddyrannu cyllideb Llywodraeth Cymru er mwyn adlewyrchu amgylchiadau a blaenoriaethau Cymru.

# 4. Deddfwriaeth

## Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023

69. Mae Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn darparu pwerau i ddiwygio deddfwriaeth sy'n deillio o'r Undeb Ewropeaidd (UE) ac yn sefydlu Rheoli Tir yn Gynaliadwy fel y fframwaith ar gyfer cymorth a rheoleiddio amaethyddol yng Nghymru yn y dyfodol.

70. Hefyd, mae'r Ddeddf yn diwygio deddfwriaeth arall mewn perthynas â thenantiaethau amaethyddol, Coedwigaeth, Maglau a Thrapiau Glud. Bydd yn:

- sicrhau nad yw tenantiaid cytundebau Deddf 1986 (AHA) a Deddf 1995 (FBT) yn wynebu rhwystrau annheg rhag cael mynediad at gymorth ariannol sy'n cael ei ddarparu o dan ddarpariaethau pŵer cymorth yn y Bil.
- Diwygio Deddf Coedwigaeth 1967 er mwyn cynnwys amodau sy'n canolbwyntio ar ddiogelu a chadwraeth yr amgylchedd mewn trwyddedau cwympo, a diwygio, atal neu ddirymu trwyddedau cwympo ar ôl iddynt gael eu caniatáu.
- Gwahardd dau ddull penodol o reoli plâu, sef defnyddio maglau i ddal anifeiliaid gwyllt, a defnyddio trapiau glud i ddal fertebratau (nad ydynt yn ddynol).

## Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru)

71. Mae gan Swyddfa'r Prif Filfeddyg gyllid ar hyn o bryd i helpu i ddatblygu'r Bil hwn yn 2026/27.

## Gorchymyn Adnabod Gwartheg (Cymru) 2026

72. Mae ASDD yn y broses o ddirymu a disodli rheoliadau adnabod gwartheg CIR 2007 er mwyn galluogi diwygiadau adrodd i'r prosesau cofrestru a symud presennol ar gyfer gwartheg ynghyd â gweithredu EID Buchol yng Nghymru. Bydd unrhyw gostau mewnol sy'n cael eu hysgwyddo o ganlyniad i'r newidiadau deddfwriaethol hyn yn cael eu talu gan Linell Wariant yn y Gyllideb 2860.

## Gweithredu, gorfodi ac adolygu Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) 2021;

73. Mae'r gyllideb wedi'i neilltuo o Linell Wariant yn y Gyllideb 2860 i adolygu a gweithredu rheoliadau domestig er mwyn cyflawni rhwymedigaethau statudol a

rhyngwladol, gan gynnwys mewn perthynas â Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol; Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol; Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru; Gorchmynion Cyflogau Amaethyddol; a datblygu'r rheoliadau sylfaenol ehangach sy'n sail i gynlluniau rheoli tir.

# 5. Goruchwylio polisi'r ffin

**Manylion y cyllid sy'n gysylltiedig â goruchwylio polisi'r ffin, gan gynnwys mewn perthynas â Safleoedd Rheolaethau'r Ffin a chytundeb Iechydol a Ffytoiechydol posibl rhwng y DU a'r UE.**

74. Er bod Llywodraeth y DU yn bwriadu ceisio sicrhau cytundeb SPS mesurau iechydol a ffytoiechydol cynhwysfawr gyda'r UE fel rhan o Gytundeb Ailosod y DU/UE, mae'r Model Gweithredu Targed y Ffin yn parhau i fod yn bolisi cyfredol.

75. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau eraill y DU ar reolaethau Cynllun y Taliad Sengl a bioddiogelwch y DU yn y tymor byr ac yn fwy hirdymor. Dylai ailosod y materion hyn wella'r amgylchedd masnachu ar gyfer ein busnesau, cyfrannu at ddiogeledd bwyd, a bioddiogelwch.

76. Mae Llywodraeth Cymru yn paratoi ar gyfer y trafodaethau rhwng y DU a'r UE sydd i fod i ddechrau ym mis Hydref. Er mwyn paratoi, bydd angen datgan yn glir bod blaenoriaethau Cymru yn cael eu cynnwys yn safbwynt negodi Llywodraeth y DU. Rwy'n parhau i gyfarfod â gweinidogion cyfatebol yn rheolaidd wrth i'r trafodaethau barhau. Bydd ein cynlluniau gwariant yn cael eu hadolygu wrth i ganlyniad y gwaith hwn ddod i'r amlwg. Hyd nes y bydd y trefniadau ailosod wedi'u cwblhau, mae'n rhaid i ni gynnal Safle Rheolaethau'r Ffin yng Nghaergybi, ac mae'r gyllideb yn cynnwys y cyllid angenrheidiol i wneud hynny.

# 6. Atodiad A Dadansoddiad manwl o'r Camau Gweithredu yn ôl gweithgaredd Llinell Wariant yn y Gyllideb

Dadansoddiad o gyllideb ddrafft 2026-27, yn ôl Maes y Rhaglen Wariant, Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb, refeniw a chyfalaf.

## Cam Gweithredu: Tystiolaeth Strategol, Monitro a Chysylltiadau Rhynglywodraethol

| Disgrifiad o Linell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Refeniw £000 | Cyllideb Gyfalaf £000 |
|---|---|---|
| **2816 - Strategaeth a Chysylltiadau Llywodraeth** | 2,692 | 0 |

Mae Llinell Wariant yn y Gyllideb 2816 yn cefnogi'r Is-adran Tystiolaeth Strategol a Chysylltiadau Rhynglywodraethol (Uned Ymadael â’r UE a’r Strategaeth gynt). Sefydlwyd yr is-adran er mwyn cydlynu a chefnogi ein hymadawiad â'r UE, ac erbyn hyn mae'n helpu i gydlynu ac ymwreiddio gweithgareddau pontio i fusnes fel arfer. Yn sgil cwblhau'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE, mae'r is-adran yn cefnogi'r broses o gyflwyno’n effeithiol swyddogaethau a strwythurau trawsbynciol newydd sy'n deillio o ymadael â'r UE, prosesau cydlynu ar draws fframweithiau cyffredin a rheoli cysylltiadau rhynglywodraethol ar gyfer y portffolio. Mae datblygiadau'n parhau i esblygu, a bydd angen adnoddau ac ymdrech barhaus er mwyn sicrhau ymgysylltiad a dylanwad effeithiol mewn nifer o adrannau Llywodraeth y DU.

Mae gwaith yr is-adran yn ymwneud â phortffolios Newid Hinsawdd, Cynaliadwyedd yr Amgylchedd a Materion Gwledig er mwyn cefnogi gwaith rhynglywodraethol effeithiol ym mhob rhan o'r portffolio; a hwyluso, cydlynu a chyflwyno tystiolaeth strategol, modelu a'u cymwysiadau ymarferol er mwyn cefnogi gwaith llunio polisïau ehangach y portffolios gan gynnwys:

- rheoli contract y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a’r Amgylchedd yn yr hirdymor,
- datblygu technolegau Arsylwi'r Ddaear,
- Rhaglen Dystiolaeth Amgylcheddol â ffocws, a
- gweithgareddau ymgysylltu academaidd

mae pob un o'r rhain yn canolbwyntio ar gefnogi datblygu polisi, cyflawni a gwerthuso Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu.

## Cam Gweithredu: Datblygu a Chyflawni Polisi, Rhaglenni a Buddsoddiad Cyffredinol mewn Amaethyddiaeth, Bwyd a Physgodfeydd

| Disgrifiad o Linell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Refeniw £000 | Cyllideb Gyfalaf £000 |
|---|---|---|
| **2860 - Polisi a Thystiolaeth, Cyflawni ac Ymgysylltu Amaethyddiaeth** | 6,631 | 3,111 |

Mae'r Gwasanaethau Cyngor Technegol yn cefnogi'r gwaith o gyflawni ystod o ddyletswyddau statudol, datblygu polisïau a gwasanaethau cymorth mewn perthynas ag amaethyddiaeth a'r amgylchedd, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, brisiadau TB, Rheoliadau Amaethyddiaeth, Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, Dosbarthu Tir Amaethyddol, iechyd planhigion, Tribiwnlysoedd Tir Amaethyddol, Cyflogau Amaethyddol, Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru a'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol.

Mae cyllid gwerth £100,000 yn cael ei ddyrannu i Awdurdodau Lleol Cymru drwy'r Penaethiaid Safonau Masnach er mwyn darparu gweithgareddau gorfodi iechyd a lles anifeiliaid wedi'u targedu ac ychwanegol sy'n rhagori ar eu dyletswydd statudol, drwy Gynllun Datblygu Partneriaeth y cytunwyd arno gan awdurdod lleol.

Y gyllideb hon yw'r dull allweddol o gyfathrebu ac ymgysylltu â chwsmeriaid ffermio a'r diwydiant ehangach ar gynlluniau, polisïau a mentrau a weinyddir gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys cynhyrchu diweddariadau copi caled ar gyfer pawb sy'n hawlio Cynllun y Taliad Sylfaenol a helpu ffermwyr i gydymffurfio â'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol.

Mae'r gyllideb yn cynnwys cyllid uniongyrchol ar gyfer Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru yn ogystal â sioeau Cymdeithasau eraill ledled Cymru.

Mae'r dyraniad yn ariannu'r Prosiect Rhif Adnabod Daliadau (CPH), sy'n rhesymoli a glanhau'r dirwedd CPH yng Nghymru. EIDCymru yw'r system a gwasanaeth symud ar gyfer defaid, geifr a cheirw yng Nghymru. Mae EIDCymru yn gwella gwasanaethau olrhain, gan helpu i liniaru cost sylweddol achosion o glefyd defaid i'r llywodraeth a'r diwydiant.

Mae EIDCymru yn cael ei ddatblygu'n system a gwasanaeth olrhain da byw amlrywogaeth newydd i Gymru a fydd yn ymgorffori gwartheg yn y system adrodd bresennol ar symudiadau defaid, geifr a cheirw. Mae prosiect Amlrywogaeth Cymru yn rhan o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb hon. Dyrannwyd cyllid refeniw gwerth £1.1m a chyllid cyfalaf gwerth £3.1m yng Nghyllideb Ddrafft 2026-27. Bydd dyraniad y gyllideb yn ariannu costau

datblygu parhaus system EIDCymru er mwyn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â newidiadau deddfwriaethol ac yn galluogi diwygiadau polisi gofynnol.

Mae'r system a'r gwasanaeth olrhain gwartheg yn cael eu darparu ar hyn o bryd gan Wasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS) drwy'r System Olrhain Gwartheg (CTS). Bwriedir i brosiect MSW Cynnyrch Sylfaenol Hyfyw (MVP) ar gyfer gwartheg fynd yn fyw yn 2026/27. Gan ddibynnu ar y dyddiad pan fydd yn mynd yn fyw, dylai dyraniad presennol y gyllideb o £1.9m ar gyfer costau BCMS leihau, a bydd unrhyw gyllid dros ben yn cael ei drosglwyddo i gyllideb EIDCymru er mwyn darparu'r system a'r gwasanaeth.

Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb hon yn ariannu gweithgarwch ymchwil a gwerthuso pwysig mewn perthynas ag amaethyddiaeth Cymru, ac mae'r Arolwg o Fusnesau Ffermio yn arolwg blynyddol o fusnesau ffermio yng Nghymru. Prif nod yr arolwg yw casglu data ffisegol ac ariannol manwl ar sefyllfa economaidd busnesau fferm ledled Cymru. Yr arolwg yw'r brif ffynhonnell wybodaeth am economeg busnesau fferm. Mae'r arolwg yn darparu tystiolaeth am lefelau incwm mewn sectorau amaethyddol gwahanol yng Nghymru, perfformiad ariannol, a sefyllfa ariannol ffermydd (asedau, rhwymedigaethau, gwerth net). Er enghraifft, yr Arolwg o Fusnesau Ffermio yw ffynhonnell y ffigur a ddyfynnir yn aml: ar gyfartaledd, mae 80% o incwm ffermwyr Cymru yn deillio o'r Taliad Sylfaenol.

| Disgrifiad o Linell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Refeniw £000 | Cyllideb Gyfalaf £000 |
|---|---|---|
| **2792 - Cymorth ar gyfer Amaethyddiaeth** | 295,593 | 68,291 |

Llinell Wariant yn y Gyllideb Amaethyddiaeth y Cynllun Ffermio Cynaliadwy Newydd

Bydd y Llinellau Gwariant yn y Gyllideb presennol sy'n cael eu defnyddio ar gyfer Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS BEL 2787) a'r Cynlluniau Buddsoddi Gwledig (BEL 2833 RIS) yn cael eu huno, a thrwy hynny greu un Linell Wariant yn y Gyllideb 'Cymorth Amaethyddiaeth' o flwyddyn ariannol 2026/27. Mae setliad cyllideb ddrafft 2026/27 yn darparu £363.8M (£295.5m Cyllideb Refeniw a £68.2m Cyllideb Gyfalaf), a bydd yn ariannu:

- Cynllun y Taliad Sylfaenol
- Taliad Cyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

- Gweithredoedd Opsiynol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (gan gynnwys cymorth ar gyfer cleientiaid nad ydynt yn rhan o'r Cynllun)
- Gweithredoedd Cydweithredol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy
- Costau'r rhaglen
- Ymrwymiadau presennol y Rhaglen Datblygu Gwledig
- Blaenoriaethau polisi Materion Gwledig eraill

Mae'r system newydd o ddarparu cymorth i ffermydd yn seiliedig ar Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 sy'n sefydlu Rheoli Tir yn Gynaliadwy, ac yn gyson â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'r Amcanion SLM yn cynnwys cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill yn gynaliadwy yn ogystal â mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur a chydnabod cyfraniad allweddol ffermwyr at iechyd amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Cymru.

Mae datblygu'r cymorth newydd arfaethedig hwn, 'Cynllun Ffermio Cynaliadwy' (y Cynllun) er mwyn disodli Cynllun y Taliad Sylfaenol wedi bod drwy broses ailadroddus o ymgynghori, cyd-ddylunio a datblygu polisi gan ddechrau gyda'r ymgynghoriad 'Brexit a'n Tir' yn 2018. Mae'r ymgynghoriad diweddaraf, 'Cynllun Ffermio Cynaliadwy - yn cefnogi ffermwyr i ffermio' (2023) wedi cael ei ddilyn gan brosesau cyd-ddylunio a chydweithio pellach gydag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys Bwrdd Gron y Gweinidog ar gyfer y Cynllun a'i weithgorau.

Roedd hen Linell Wariant yn y Gyllideb 2949 - Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 yn rhaglen fuddsoddi 7 mlynedd a oedd yn cefnogi ystod eang o weithgareddau a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2023. Ers 2025 mae cyllid wedi'i gyfyngu i'r ymrwymiadau creu coetir aml-flwyddyn sy'n weddill, er mwyn talu incwm blynyddol a ildiwyd a hawliadau cynhaliaeth.

Roedd hen Linell Wariant yn y Gyllideb 2833 yn darparu cymorth pontio er mwyn paratoi'r sector i gyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy o 2026 ymlaen, trwy ddarparu cynlluniau buddsoddi gwledig a pharatoi am y Cynllun yn ôl y galw. Mae'r cynlluniau yn ategu'r cynlluniau buddsoddi gwledig pontio gwerth dros £200m a ddarparwyd i ffermwyr a rheolwyr tir rhwng 2021 a 2025 gan ddefnyddio cyllid yn lle cyllid yr UE, cyn cyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.  Mae'r prosesau monitro, adrodd a gwerthuso ar gyfer y cymorth hwn wedi'u hamlinellu yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.

Hen Linell Wariant yn y Gyllideb 2787 – Cynllun y Taliad Sylfaenol

Mae Cynllun y Taliad Sylfaenol yn Gymorth Uniongyrchol sy'n cael ei ariannu'n gyfan

gwbl ar lefel ddomestig. Mae'r cynllun wedi'i gadw o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) o dan gyfraith yr UE a ddargedwir. Mae taliadau'n cael eu gwneud yn uniongyrchol i ffermwyr sy'n defnyddio'r arian i dalu eu treuliau busnes a threuliau eraill. Mae taliadau'n cael eu gwneud ym mis Hydref (ymlaen llaw) a mis Rhagfyr (gweddill) ac maent yn cael eu dileu'n raddol erbyn 2029 ochr yn ochr â chyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

| Disgrifiad o Linell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Refeniw £000 | Cyllideb Gyfalaf £000 |
|---|---|---|
| **2789 - Rural Payments ICT** | 0 | 8,364 |
| **2790 - RPW Administration** | 4,187 | 0 |

Mae systemau Gweinyddol a TGCh Llinell Wariant yn y Gyllideb 2789 a Llinell Wariant yn y Gyllideb 2790 Taliadau Gwledig Cymru yn cynnwys tair prif elfen:

- CAPIT: System dilysu ceisiadau a thaliadau sy'n seiliedig ar reolau. Fe'i defnyddir hefyd i gefnogi gofynion a rheolaethau rheoleiddio, gan gynnwys cymorth i olrhain da byw.
- Golygydd Cynllun: System Adnabod Parseli Tir (LPIS) sy'n seiliedig ar System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) a ddefnyddir i fapio'r holl dir sy'n cael ei ffermio a'i hawlio yng Nghymru naill ai ar gyfer Cynllun y Taliad Sylfaenol etifeddol, y Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd, a chynlluniau eraill i ddarparu cymorth ar y tir e.e. Creu Coetiroedd.
- RPW Ar-lein: Porth ar-lein i ffermwyr (hawlwyr) wneud cais a hawlio cynlluniau amrywiol, gan gynnwys Cynllun y Taliad Sengl a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae'r system hon yn cefnogi gwasanaeth digidol llawn ar gyfer Taliadau Gwledig Cymru.

*Hefyd, mae'r dyraniad yn ariannu costau TGCh y Rhif Adnabod Daliadau.

Mae'r tair system yn rhan annatod o’r gwaith i gynnal darpariaeth effeithlon yr holl gynlluniau cymorth gwledig ac mae'n hanfodol eu bod yn parhau i weithredu ac yn cael eu datblygu er mwyn:

- Cynnal trywydd archwilio cadarn a chadw cofnodion ar gyfer pob taliad.
- Helpu i ddarparu a gweithredu swyddogaethau'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd yn 2026-2027, gan ddarparu swyddogaethau llawn a nodweddion

hawdd eu defnyddio, ynghyd â gwaith cynnal a chadw parhaus, gan dapro a phontio o Gynllun y Taliad Sylfaenol wedi hynny.

- Cefnogi'r prosesau dilysu a chydsynio sy'n cael eu cwblhau gan bartneriaid cyflenwi trydydd parti e.e. Cyfoeth Naturiol Cymru.

- Cefnogi'r broses o integreiddio systemau rhwng Taliadau Gwledig Cymru a Cyswllt Ffermio yn 2026 ac integreiddio â ffynonellau data eraill, gan gynnwys Amlrywogaeth Cymru, EID Cymru a'r System Olrhain Gwartheg a DEFRA yn 2027 er mwyn cefnogi'r gofynion sylfaenol ar gyfer carbon ar lefel fferm.

- Bodloni safonau Diogelwch Gwybodaeth a TG Llywodraeth Cymru a chefnogi Parhad Busnes.

Cynnal a chadw meddalwedd er mwyn sicrhau bod meddalwedd yn gyfredol ac yn cydymffurfio â'r gofynion, trwy drefn pats misol barhaus. Monitro effeithiol o'r holl systemau i gefnogi defnydd gweithredol byw. Darganfod a defnyddio cynlluniau platfform i gefnogi prosesau cyflawni a chydymffurfio Gweithredol effeithiol.

| Disgrifiad o Linell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Refeniw £000 | Cyllideb Gyfalaf £000 |
|---|---|---|
| **2870 - Pysgodfeydd** | 3,677 | 1,020 |

Mae Llinell Wariant yn y Gyllideb 2870 yn cynnwys cyllid ar gyfer y canlynol:

- Gwyddoniaeth a Thystiolaeth Pysgodfeydd – Cyflawni ystod o ymrwymiadau gwyddor pysgodfeydd statudol ac anstatudol, sy'n sylfaen i reoli pysgodfeydd a datblygu polisi.

- Cynllun Morol a Physgodfeydd Cymru – Dyma'r cynllun sy'n disodli Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop ac mae'n gyfrwng ar gyfer buddsoddi yn y sectorau pysgodfeydd a dyframaeth.

- Systemau Digidol Pysgodfeydd – Mae systemau rheoli pysgodfeydd digidol yn cynnwys ystod o systemau TG ar gyfer trwyddedu, cofnodi daliadau, monitro llongau, cofnodi arolygiadau pysgodfeydd a thrwyddedau morol, cofnodi gwerthiant pysgod a systemau iechyd a diogelwch ar gyfer swyddogion gorfodi.

- Polisi Pysgodfeydd Domestig - Byddwn yn parhau i fodloni rhwymedigaethau statudol i reoli pysgodfeydd trwyddedig a chyflwyno Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd. Bydd y gwaith hwn yn sicrhau bod ein pysgodfeydd yn

gynaliadwy drwy ddiogelu'r amgylchedd ac, ar yr un pryd, sicrhau'r manteision economaidd a chymdeithasol mwyaf i Gymru o'n pysgodfeydd.

- Masnach Forol a Physgodfeydd – Gan gynnwys cyllid craidd ar gyfer Cymdeithas Pysgotwyr Cymru

Rheoli a Gorfodi - Yn cwmpasu'r holl gostau gweithredol sy'n gysylltiedig â Rheoli a Gorfodi, gan gynnwys costau Llongau Patrolio Pysgodfeydd, megis gwaith cynnal a chadw, tanwydd ac yswiriant.

| Disgrifiad o Linell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Refeniw £000 | Cyllideb Gyfalaf £000 |
|---|---|---|
| **2970 - Hyrwyddo Datblygiad Bwyd a Diwydiant Cymru** | 5,470 | 0 |

Mae Llinell Wariant yn y Gyllideb 2970 yn cefnogi gweithgareddau i hyrwyddo diwydiant bwyd a diod Cymru a datblygu'r sector. Y nod yw creu diwydiant bwyd a diod cadarn a bywiog yng Nghymru sydd ag enw da byd-eang am ragoriaeth ac un o'r cadwyni cyflenwi mwyaf cyfrifol yn y byd o safbwynt amgylcheddol a chymdeithasol. Amlinellir yr amcanion a'r camau gweithredu cyffredinol yn **Gweledigaeth ar gyfer y diwydiant Bwyd a Diod o 2021.**

Mae'r gweithgareddau allweddol sydd wedi deillio o Linell Wariant yn y Gyllideb 2970 yn cynnwys:

- y rhaglen Datblygu Masnach sy'n cynorthwyo cynhyrchwyr i gael mynediad er mwyn cyflenwi manwerthwyr a chyfanwerthwyr lluosog ac annibynnol
- digwyddiad broceriaeth BlasCymru, a arweiniodd at werth dros £35 miliwn o gontractau yn ei iteriad diwethaf ar gyfer busnesau a gweithgareddau bwyd a diod yng Nghymru i hyrwyddo allforion a mewnfuddsoddiad yng Nghymru.

## Cam Gweithredu: Cefnogi a Chyflwyno'r rhaglen/strategaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid

| Disgrifiad o Linell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Refeniw £000 | Cyllideb Gyfalaf £000 |
|---|---|---|
| **2270 - Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid** | 1,948 | 0 |

Mae'r gyllideb hon yn cwmpasu ystod o wariant y Llywodraeth ar iechyd anifeiliaid, lles, atal a rheoli clefydau yn ogystal â gwyliadwriaeth a rheoli rhagweithiol/cynllunio wrth gefn ar gyfer clefydau egsotig.

Mae'n cynnwys cymorth parhaus ar gyfer Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru a'r Grŵp Cyflawni ar Ymwrthedd Gwrthficrobaidd mewn Anifeiliaid. Mae hyn yn ein galluogi i weithio mewn partneriaeth â'r diwydiant i godi safonau iechyd a lles anifeiliaid, hyrwyddo'r defnydd cyfrifol o wrthfiotigau a chymryd camau gweithredu effeithiol i reoli achosion o glefydau anifeiliaid.

## Cam Gweithredu: Rheoli a chyflawni Dileu TB a Chlefydau Endemig eraill

| Disgrifiad o Linell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Refeniw £000 | Cyllideb Gyfalaf £000 |
|---|---|---|
| **2271 - Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion** | 20,706 | 0 |

Mae Llinell Wariant yn y Gyllideb 2271 yn cefnogi gwasanaethau a gweithgareddau statudol. Mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau a'r gweithgareddau hyn yn cael eu darparu gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion yng Nghymru. Mae cyllid yn helpu i ddiogelu iechyd a lles anifeiliaid yn ogystal ag iechyd y cyhoedd, bywoliaethau gwledig a masnach, ac mae'n gwella diogeledd bwyd trwy waith ymchwil, gwyliadwriaeth ac arolygu.

Hefyd, mae cyllid yn cael ei ddarparu ar gyfer gwaith statudol yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac ar gyfer taliadau iawndal enseffalopathi sbyngffurf trosglwyddadwy statudol os yw'r angen yn codi.

Mae cyfran fawr o weithgarwch yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion yn gweithredu gofynion statudol a pholisi Llywodraeth Cymru yn ymwneud â'r Rhaglen Dileu TB (a BEL 2273) yn ogystal â chymhwyso rheolaethau i ddiogelu iechyd pobl a'r gadwyn fwyd pobl.

Mae cyllid yn sicrhau ein bod yn gallu ymateb i ymlediadau ac achosion o glefydau anifeiliaid gan gynnwys Ffliw Adar a'r Tafod Glas. Lle bo angen, rydym wedi cynnwys ein hangen i fodloni'r rhwymedigaeth statudol i dalu iawndal am unrhyw anifeiliaid sy'n cael eu difa. Oherwydd y nifer cynyddol o achosion o firysau HPAI H5 ymysg adar gwyllt mewn rhannau gwahanol o Brydain a dechrau'r tymor ymfudo, mae'r perygl o ymlediad HPAI ymysg adar gwyllt a dofednod wedi cynyddu. Rhagwelir y bydd lefelau risg yn cynyddu dros y gaeaf, gan danlinellu pwysigrwydd sicrhau bod pawb sy'n cadw adar yn cynnal safonau uchel o fioddiogelwch a hylendid er mwyn eu hamddiffyn. O ystyried bod y tymor ymfudo adar wedi cyrraedd, mae lefelau risg yn destun newid a byddant yn cael eu hasesu'n rheolaidd.

Mae'r gyllideb ar waith er mwyn lliniaru y risg sy'n codi o achosion posibl o glefyd anifeiliaid egsotig. Bydd y risg hon yn cael effaith ehangach o ystyried bod gan Lywodraeth Cymru atebolrwydd posibl (ariannol) am gostau heb eu cyllidebu mewn amgylchiadau o'r fath e.e. amcangyfrifir bod yr Achosion o Glwy'r Traed a'r Genau yn 2001 wedi costio tua £100 miliwn i'r Llywodraeth yng Nghymru gan nad oedd y mater hwn wedi'i ddatganoli. Yn nhermau heddiw, gallai'r gost hon fod yn uwch o lawer heb amcangyfrif effeithiau ar ddiwydiant, cymunedau, masnach a thwristiaeth yng Nghymru, lle byddai effaith niweidiol ddifrifol ar incwm. Gallai methu â dangos rheolaeth effeithiol o glefydau anifeiliaid danseilio trafodaethau yn y dyfodol rhwng y DU a'r UE ar farchnad sengl. Gallai gofynion ar gyfer cyflwyno rheolaethau clefydau anifeiliaid sydd o leiaf yn gyfwerth â rheolaethau Aelod-wladwriaethau eraill fod yn elfen bwysig o unrhyw gytundeb gyda'r Undeb Ewropeaidd.

| Disgrifiad o Linell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Refeniw £000 | Cyllideb Gyfalaf £000 |
|---|---|---|
| **2272 - Costau a Derbyniadau Taliadau Lladd oherwydd TB** | 14,598 | 0 |

Mae Llinell Wariant yn y Gyllideb 2272 yn gyllideb 'sy'n cael ei harwain gan y galw' ac mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd statudol i dalu iawndal am TB. Mae nifer yr anifeiliaid sy'n cael eu tynnu ac felly'r pwysau ar y gyllideb hon wedi'u cysylltu'n annatod â chynnydd Dileu TB a chyllideb y Rhaglen Dileu TB (BEL 2273).

Gall unrhyw darfu ar bolisïau dileu arwain at ledaeniad y clefyd, sydd yn ei dro yn debygol o arwain at fwy o wariant ar iawndal oherwydd TB.  Byddai unrhyw orwario yn cael effaith ar gyllidebau ehangach OCVO a Llywodraeth Cymru, oherwydd mae'n bosibl y bydd angen eu defnyddio i wrthbwyso unrhyw orwariant fel y gwelwyd mewn blynyddoedd blaenorol.

| Disgrifiad o Linell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Refeniw £000 | Cyllideb Gyfalaf £000 |
|---|---|---|
| **2273 - Dileu TB** | 9,507 | 0 |

Mae BEL 2273 yn cwmpasu ymrwymiad statudol i Gynllun Dileu TB y DU. Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb hon yn ategu gweithgarwch ein partner cyflawni, yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, i roi polisïau TB ar waith, gan gynnwys profion blynyddol, a mentrau a phrosiectau fel Cymorth TB a gwaith epidemiolegol er mwyn helpu i ategu'r dystiolaeth a'r dull o ymdrin â'r Rhaglen Dileu TB. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ariannu'n rhannol gan y Llinell Wariant yn y Gyllideb hon a gan Linell Wariant yn y Gyllideb 2271 (Cyflenwi a Thaliadau Iechyd a Lles Anifeiliaid).

## Cam Gweithredu: Rheolaethau'r Ffin

| Disgrifiad o Linell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Refeniw £000 | Cyllideb Gyfalaf £000 |
|---|---|---|
| **3730 – Rheolaethau'r Ffin** | 4,171 | 28,984 |

Mae'r Is-adran yn arwain ar y gwaith o gydlynu cyngor polisi ar gyfer Model Gweithredu Targed y Ffin fel y mae'n berthnasol yng Nghymru. Hefyd, mae'r is-adran yn goruchwylio agweddau adeiladu a gweithredol ar adeilad Safle Rheoli'r Ffin yng Nghaergybi, a sut y bydd Llywodraeth Cymru yn ei reoli a'i gynnal ar ôl i'r adeilad gael ei gwblhau a'i drosglwyddo gan y contractwyr.

# 7. Atodiad B: Dadansoddiad manwl o ddyraniadau Cyllideb Ddrafft 2026-27 ar lefel Llinell Wariant yn y Gyllideb

Mae'r tabl yn crynhoi'r addasiadau a wnaed i linellau sylfaen Cyllideb Derfynol 2025-26. Ar gyfer Adnoddau Cyllidol (refeniw) mae'r addasiadau yn ymwneud â dyraniadau cylchol a wnaed yn ystod 2025-26 mewn perthynas â dyfarniad cyflog y sector cyhoeddus a newidiadau i yswiriant gwladol. Mae'r cyllid un tro a oedd wedi'i glustnodi yn 2025-26 yn cael ei wrthdroi

| ADNODDAU | | | £'000 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu** | **Rhif BEL.** | **Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **Cyllideb Derfynol 2025-26 Chwefror 2025** | **Addasiadau i'r Llinell Sylfaen** | **Llinell Sylfaen Ddiwygiedig** | **Newidiadau 2026-27** | **Cyllideb Ddrafft 2026-27 Hydref 2025** | **% Newid** |
| Tystiolaeth Strategol, Monitro a Chysylltiadau Rhynglywodraethol | 2816 | Strategaeth a Chysylltiadau Llywodraeth | 2,639 | 0 | 2,639 | 53 | 2,692 | 2% |
| **Tystiolaeth Strategol, Monitro a Chysylltiadau Rhynglywodraethol** | | | **2,639** | **0** | **2,639** | **53** | **2,692** | **2%** |
| Datblygu a Chyflawni Polisi, Rhaglenni a Buddsoddiad Cyffredinol mewn Amaethyddiaeth, Bwyd a Physgodfeydd | 2829 | Strategaeth Amaethyddiaeth | 500 | 0 | 500 | (500) | 0 | N/A |
| | 2860 | Polisi a Thystiolaeth, Cyflawni ac Ymgysylltu Amaethyddiaeth | 6,240 | 51 | 6,291 | 340 | 6,631 | (2%) |
| | 2790 | Gweinyddiaeth Taliadau Gwledig Cymru | 3,794 | 17 | 3,811 | 376 | 4,187 | 10% |
| | 2792 | Cymorth Amaethyddiaeth | 0 | 0 | 0 | 295,593 | 295,593 | 2% |
| | 2787 | Cynllun y Taliad Sylfaenol | 238,000 | 0 | 238,000 | (238,000) | 0 | N/A |
| | 2833 | Cynlluniau Buddsoddi Gwledig | 60,220 | (9,923) | 50,297 | (50,297) | 0 | N/A |
| | 2949 | Cynllun Datblygu Gwledig 2014-20 | 1,500 | 0 | 1,500 | (1,500) | 0 | N/A |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2870 | Pysgodfeydd | 3,605 | 0 | 3,605 | 72 | 3,677 | 2% |
| | 2970 | Hyrwyddo Datblygiad Bwyd a Diwydiant Cymru | 5,360 | 3 | 5,363 | 107 | 5,470 | 2% |
| **Datblygu a Chyflawni Polisi, Rhaglenni a Buddsoddiad Cyffredinol mewn Amaethyddiaeth, Bwyd a Physgodfeydd** | | | **319,219** | **(9,852)** | **309,367** | **6,191** | **315,558** | **2%** |
| Cefnogi a Chyflwyno'r Rhaglen / Strategaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid | 2270 | Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid | 1,910 | 0 | 1,910 | 38 | 1,948 | 2% |
| **Cefnogi a Chyflwyno'r Rhaglen / Strategaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid** | | | **1,910** | **0** | **1,910** | **38** | **1,948** | **2%** |
| Rheoli a Chyflwyno Rhaglenni i Ddileu TB a Chlefydau Endemig Eraill | 2271 | Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion | 20,300 | 0 | 20,300 | 406 | 20,706 | 2% |
| | 2272 | Taliadau Costau a Derbynebau Lladd TB | 14,312 | 0 | 14,312 | 286 | 14,598 | 2% |
| | 2273 | Dileu TB | 9,310 | 11 | 9,321 | 186 | 9,507 | 2% |
| **Rheoli a Chyflwyno Rhaglenni i Ddileu TB a Chlefydau Endemig Eraill** | | | **43,922** | **11** | **43,933** | **878** | **44,811** | **2%** |
| Rheolaethau'r Ffin | 3730 | Rheolaethau'r Ffin | 4,100 | (330) | 3,770 | 401 | 4,171 | 11% |
| **Rheolaethau'r Ffin** | | | **4,100** | **(330)** | **3,770** | **401** | **4,171** | **11%** |
| **CYFANSWM Adnoddau - Bron yn Arian Parod** | | | **371,790** | (10,171) | **361,619** | **7,561** | **369,180** | **19%** |

| **CYFALAF** | | | **£'000** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu** | **Rhif BEL.** | **Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **Cyllideb Derfynol 2025-26 Chwefror 2025** | **Addasiadau i'r Llinell Sylfaen** | **Llinell Sylfaen Ddiwygiedig** | **Newidiadau 2026-27** | **Cyllideb Ddrafft 2026-27 Hydref 2025** | **% Newid** |
| Datblygu a Chyflawni Polisi, Rhaglenni a Buddsoddiad Cyffredinol mewn Amaethyddiaeth, Bwyd a Physgodfeydd | 2860 | Polisi a Thystiolaeth, Cyflawni ac Ymgysylltu Amaethyddiaeth | 3,050 | 0 | 3,050 | 61 | 3,111 | 2% |
| | 2789 | TGCh Taliadau Gwledig | 8,200 | 0 | 8,200 | 164 | 8,364 | 2% |
| | 2792 | Cymorth Amaethyddiaeth | 0 | 0 | 0 | 68,291 | 68,291 | 2% |
| | 2833 | Cynlluniau Buddsoddi Gwledig | 66,952 | 0 | 66,952 | (66,952) | 0 | N/A |
| | 2870 | Pysgodfeydd | 1,000 | 0 | 1,000 | 20 | 1,020 | 2% |
| **Datblygu a Chyflawni Polisi, Rhaglenni a Buddsoddiad Cyffredinol mewn Amaethyddiaeth, Bwyd a Physgodfeydd** | | | **79,202** | **0** | **79,202** | **1,584** | **80,786** | **2%** |
| Rheolaethau'r Ffin | 3730 | Rheolaethau'r Ffin | 28,955 | (28,955) | 0 | 28,984 | 28,984 | 100% |
| **Rheolaethau'r Ffin** | | | **28,955** | **(28,955)** | **0** | **28,984** | **28,984** | **100%** |
| **CYFANSWM Cyfalaf** | | | **108,157** | **(28,955)** | **79,202** | **30,568** | **109,770** | **39%** |

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Rebecca Evans AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**
**Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref MA/RE/2553/25

Andrew RT Davies MS
Cadeirydd - Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

4 Tachwedd 2025

Annwyl Andrew,

Diolch am eich llythyr ynghylch y craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27. Cyhoeddwyd y Gyllideb Ddrafft mewn dwy gam. Cyhoeddwyd crynodeb y Gyllideb Ddrafft 2026-27 (Cam 1) ar 14 Hydref 2025, a manylion y Gyllideb Ddrafft 2026-27 (Cam 2) ar 3 Tachwedd 2025.

Mae'r papur amgaeedig yn rhoi manylion am y cynlluniau ar gyfer yr Economi, Ynni a Chynllunio a nodir yn y Gyllideb Ddrafft, a gwybodaeth ar yr hyn mae'r Pwyllgor wedi gofyn amdani ar feysydd penodol.

Edrychwn ymlaen at roi diweddariad i'r Pwyllgor yn ein sesiwn dystiolaeth lafar ar 26 Tachwedd 2025.

Yn gywir

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru

# Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

## Papur Tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2026-27 – Prif Grŵp Gwariant yr Economi, Ynni a Chynllunio

26/11/2025

Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth am gynigion cyllideb Prif Grŵp Gwariant (MEG) yr Economi, Ynni a Chynllunio, sy'n berthnasol i'r Pwyllgor hwn, fel yr amlinellir yng Nghyllideb Ddrafft 2026-27 a gyhoeddwyd ar 3 Tachwedd. Mae hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am feysydd sydd o ddiddordeb penodol i'r Pwyllgor. Bydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol yn craffu ar y gweithgarwch Diwylliant, Celfyddydau a Chwaraeon ar 19 Tachwedd. Yn ogystal, mae'r cyllidebau ar gyfer Prentisiaethau, Cyflogaeth, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol wedi'u cynnwys yn y dystiolaeth a ddarparwyd i'r Pwyllgor hwn gan y Gweinidog dros Ddiwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol, felly nid yw'r dystiolaeth hon yn cynnwys y cyllidebau hyn i osgoi dyblygu.

## Cynnwys

**Cyflwyno'r Gyllideb .......... 4**
Dadansoddiad o Gyllideb Ddrafft 2026-27 .......... 4
Sylfaen Dystiolaeth ar gyfer Penderfyniadau ynghylch y Gyllideb .......... 6
Disgrifiad o Bolisïau a Rhaglenni yn ôl Llinell Wariant yn y Gyllideb .......... 6
Y Broses ar gyfer Monitro Cyllidebau .......... 6
Adroddiadau Gwerthuso .......... 7
Blaenoriaeth y Prif Weinidog a'r Pedair Blaenoriaeth mewn Cenhadaeth Economaidd .......... 8
Effaith Cynnydd mewn Costau Byw a Chostau Gwneud Busnes .......... 10
Goblygiadau sy'n ymwneud â'r Cyfnod Pontio o'r UE .......... 11
Rhoi'r Ddeddfwriaeth ar Waith .......... 12
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 .......... 12
Cydraddoldeb, Cynaliadwyedd a'r Gymraeg – Asesiadau Effaith ar y Gymraeg .......... 13
Effaith Amddifadedd a Thlodi .......... 15
Newidiadau Demograffig – Poblogaeth sy'n Heneiddio .......... 17
**Gwariant Ataliol a Gwerth am Arian .......... 17**
**Llinellau Gwariant Unigol yn y Gyllideb .......... 19**
**Meysydd Penodol .......... 19**
Yr Economi .......... 19
Ymchwil, Datblygu ac Arloesi .......... 33
Masnach .......... 34
**Atodiadau .......... 36**
Atodiad A – Llinellau Gwariant y Gyllideb – Prif Grŵp Gwariant yr Economi, Ynni a Chynllunio .......... 36
Atodiad B – Sylwadau ar Gamau Gweithredu – MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio .......... 43

# Cyflwyno'r Gyllideb

## Dadansoddiad o Gyllideb Ddrafft 2026-27

Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o gynlluniau MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio a gyhoeddwyd fel rhan o gam 2 y Gyllideb Ddrafft 2026-27 ar 3 Tachwedd. Mae hyn yn cadarnhau cynnydd o £9.8m mewn adnoddau cyllidol (gan gynnwys adnoddau nad ydynt yn arian parod) a chyfalaf o £118m o'i gymharu â llinell sylfaen ddiwygiedig 2026-27.

| **Yr Economi, Ynni a Chynllunio Crynodeb** | **Cynlluniau yn unol â 2025-26 Cyllideb Derfynol Wedi ailddatgan Chwefror 2025** | **Addasiadau i'r Llinell Sylfaen ar gyfer 2026-27** | **2026-27 Llinell Sylfaen Ddiwygiedig** | **Newidiadau** | **2026-27 Cyllideb Ddrafft Hydref 2025** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** |
| | | | | | |
| ADNODDAU | 498,250 | 14,712 | 512,962 | 9,830 | 522,792 |
| CYFALAF | 344,154 | -122,807 | 221,347 | 118,286 | 339,633 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau a'r Cyfalaf** | **842,204** | **-108,095** | **734,309** | **128,116** | **862,425** |
| | | | | | |
| **Cyfanswm AME** | **66,252** | **0** | **66,525** | **0** | **66,525** |
| | | | | | |
| **YR ECONOMI, YNNI A CHYNLLUNIO** | **908,929** | **-108,095** | **800,834** | **128,116** | **928,950** |

Y llinell sylfaen a ddefnyddir ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2026-27 yw Cyllideb Derfynol 2025-26 wedi'i hailddatgan (Chwefror 2025). Mae'r llinell sylfaen hon wedyn wedi cael ei haddasu i dynnu unrhyw gyllid nad yw'n gyllid Barnett wedi'i glustnodi gan Drysorlys Ei Fawrhydi a dyraniadau untro a wnaed fel rhan o'r cytundeb gwleidyddol gyda Jane Dodds nad ydynt yn rheolaidd. Mae rhagor o ddyraniadau wedi cael eu gwneud fel rhan o'r addasiadau llinell sylfaen i gefnogi dyfarniad cyflog y sector cyhoeddus 2025-26 a chynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol, yn ogystal ag addasiadau ar gyfer cyllid rheolaidd o 2025-26 ymlaen ac addasiadau cyfrifyddu technegol.

Yna, mae cynnydd chwyddiannol wedi'i gymhwyso i refeniw a chyfalaf i adlewyrchu rhagolygon twf diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol.

Darperir dadansoddiad o addasiadau llinell sylfaen a dyraniadau ychwanegol yn y crynodeb o linellau gwariant cyllideb yr Economi, Ynni a Chynllunio yn **Atodiad A**.

***Adnoddau cyllidol (refeniw gan gynnwys refeniw nad yw'n arian parod)***

Caiff cyllid refeniw rheolaidd ychwanegol o £9.8m ei ddyrannu i MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio yn 2026-27 o'i gymharu â'r llinell sylfaen a ailddatganwyd ar gyfer 2026-27. Mae'r dyraniadau ychwanegol yn cefnogi cynnydd mewn cyflogau yn y sector cyhoeddus er mwyn adlewyrchu rhagolwg twf cyflog y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o 2.2% ar gyfer 2026-27, ar gyfer staff Llywodraeth Cymru a'n cyrff hyd braich, a fydd yn ddarostyngedig i'r trafodaethau a'r prosesau cyflog arferol ac i gefnogi ymhellach y cynnydd mewn costau cyfraniadau yswiriant gwladol. Mae £2.378m ychwanegol wedi cael ei ddyrannu yn y gyllideb hon i gefnogi ein hymrwymiad i'n rhaglen brentisiaethau, ac mae £2m arall wedi cael ei ddyrannu i Twf Swyddi Cymru a Mwy i adlewyrchu'r galw diweddaraf am y rhaglen. Mae £1.7m arall ar gael yn y gyllideb hon i gefnogi'r costau sy'n gysylltiedig â'n digwyddiadau allweddol, fel Tour De France ac Ewro 2028. Mae hyn yn adeiladu ar y cyllid a ddyrannwyd eisoes fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb ddiwethaf. Dyrannwyd £1.4m ychwanegol i raglen Cymru Greadigol ar gyfer parhad Cronfa Ardrethi Annomestig Stiwdios Cymru Greadigol.

***Cyfalaf***

Bu cynnydd net o £118m yn y cyfalaf i MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio yn 2026-27 o'i gymharu â'r llinell sylfaen wedi'i hailddatgan ar gyfer 2026-27, a bydd £76.375m o hyn yn parhau i gefnogi ein gweithgarwch bargeinion dinesig a thwf. Mae £10m arall wedi'i ddyrannu i gefnogi prosiect Morglawdd Caergybi. Mae dyraniadau ychwanegol wedi cael eu darparu yn y gyllideb hon i gefnogi costau ein prydlesi a'n Cyrff Hyd Braich, gan gynnwys y sector creadigol.

Mae dyraniadau cyfalaf llawn amser o £30.1m yn y gyllideb hon i gefnogi prosiect Morglawdd Caergybi (£20.4m) a Banc Datblygu Cymru (£9.690m). Mae gostyngiad o £2.6m i'n trafodiadau ariannol cyfalaf sy'n adlewyrchu'r proffiliau ad-dalu y cytunwyd arnynt mewn perthynas â benthyciadau a roddwyd mewn blynyddoedd blaenorol.

***Gwariant a Reolir yn Flynyddol - AME***

Nid oes unrhyw newid wedi bod i'r gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol o'i gymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig ar gyfer 2026-27. Mae'r gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol yn talu am gostau sydd y tu hwnt i reolaeth y portffolio, fel amhariadau yn y portffolio eiddo, amrywiadau ym mhrisiadau pensiynau ar gyfer Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Chwaraeon Cymru a Gyrfa Cymru. Cytunir ar y gyllideb hon gyda'r Trysorlys bob blwyddyn ac fe'i cyllidir yn llawn. Mae ffigurau'r Gyllideb ddrafft Gwariant a Reolir yn Flynyddol yn adlewyrchu'r rhagolygon a gyflwynwyd i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Ionawr 2025.

Ar gais y Pwyllgor, darperir dadansoddiad o Gyllideb Ddrafft 2026-27 yn ôl Maes Rhaglen Wariant, Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb, gan gynnwys cymhariaeth 2025-26 yn Atodiad A.

## Sylfaen Dystiolaeth ar gyfer Penderfyniadau ynghylch y Gyllideb

Rydym wedi dyrannu ein hadnoddau o fewn y gyllideb hon i sicrhau ein bod yn cyflawni yn erbyn blaenoriaethau'r Prif Weinidog i gefnogi swyddi a thwf gwyrdd, gan gynnwys gwella'r system gynllunio.

Ym mis Tachwedd 2023, fe wnaethom lansio ein Cenhadaeth Economaidd ar ei newydd wedd. Mae angen i ni ymateb i heriau tarfu byd-eang, chwyddiant, cyfraddau llog a chostau ynni, ac mae ein Cenhadaeth Economaidd newydd yn nodi pedair blaenoriaeth a fydd yn siapio sut gall Cymru ymateb i ansicrwydd a manteisio ar gyfleoedd newydd. Mae rhagor o fanylion am ein dull gweithredu mewn perthynas â'r genhadaeth Economaidd yn cael eu trafod yn nes ymlaen yn y papur hwn.

## Disgrifiad o Bolisïau a Rhaglenni yn ôl Llinell Wariant yn y Gyllideb

Darparwyd sylwebaeth sy'n egluro'r newidiadau i bob Cam Gweithredu a llinell wariant yn y gyllideb o fewn MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio, sy'n berthnasol i'r Pwyllgor hwn, yn **Atodiad B** hefyd. Darparwyd esboniad naratif tryloyw i egluro'r cynnydd a'r gostyngiadau, lle nad ydynt wedi cael sylw yn y papur tystiolaeth. Dim ond i'r cyllidebau sy'n cael eu craffu arnynt fel rhan o'r pwyllgor hwn y mae hyn yn berthnasol. Nid yw cyllidebau Prentisiaethau, Cyflogadwyedd, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol wedi cael eu cynnwys gan fod y meysydd hyn wedi cael eu cyflwyno yn y dystiolaeth a ddarparwyd gan y Gweinidog dros Ddiwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol ar gyfer y Pwyllgor hwn. Yn yr un modd, mae cyllidebau Creadigol, y Celfyddydau, Treftadaeth a Chwaraeon wedi cael eu heithrio gan fod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol yn craffu arnynt.

## Y Broses ar gyfer Monitro Cyllidebau

Bydd pob cyllideb yn dal i gael ei monitro a'i herio'n fisol yn ystod blwyddyn ariannol 2025-26, er mwyn ystyried y rhagolygon diweddaraf a symudiadau cyllideb yn ôl yr angen. Rwyf yn cael y newyddion ariannol diweddaraf yn rheolaidd ynghylch y rhagolygon ar gyfer fy mhortffolio i sicrhau bod cyllidebau'n aros ar y trywydd iawn i gyflawni fy mlaenoriaethau. Rwy'n parhau i fonitro'n agos iawn i sicrhau bod cyllid yn cael ei fuddsoddi lle mae mwyaf ei angen, gan gefnogi blaenoriaethau'r Llywodraeth.

## Adroddiadau Gwerthuso

Mae tystiolaeth o amrywiaeth eang o ffynonellau yn sail i'n penderfyniadau ariannol, fel ymchwil a gyhoeddwyd, gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid, ystadegau a gwerthusiadau polisi blaenorol. Mae hyn yn rhan annatod o'n penderfyniadau, er enghraifft:

Cynhelir amrywiaeth o werthusiadau **cyflogadwyedd**:

- Cyhoeddwyd gwerthusiad o'r Warant i Bobl Ifanc ar 30 Medi 2025. Roedd yr adroddiad terfynol yn nodi bod cynnydd da wedi'i wneud tuag at gefnogi pobl ifanc ond roedd hefyd yn cydnabod y gellid gwneud mwy i gefnogi'r rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ac sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur.

- Cyhoeddwyd gwerthusiad TSC+Mwy ym mis Mehefin 2025. Roedd yr adroddiad terfynol yn nodi bod y contractwyr yn croesawu hyblygrwydd Llywodraeth Cymru o ran addasu'r rhaglen i gyd-fynd ag amgylchiadau sy'n newid a thystiolaeth sy'n dod i'r amlwg. Roedd hefyd yn nodi bod y rhaglen a'i chymorth cysylltiedig yn cael eu hystyried yn eang fel rhai hygyrch ac effeithiol, yn enwedig mewn perthynas â mynd i'r afael ag iechyd meddwl a llesiant ac wrth gefnogi pobl ifanc i ddatblygu 'sgiliau meddal'. Fel rhan o'r gyllideb hon, rwyf wedi dyrannu £2m o refeniw ychwanegol yn 2026-27 i gefnogi ein rhaglen Twf Swyddi Cymru a Mwy.

- Ar hyn o bryd rydym wrthi'n cwblhau'r fanyleb ar gyfer rhaglen ReAct+ i werthuso effeithiolrwydd y rhaglen o fis Mehefin 2022 hyd yma. Bydd y gwerthusiad hefyd yn edrych ar gymorth diswyddo ehangach yng Nghymru, a bydd y canfyddiadau'n cael eu defnyddio i lywio'r gwaith o ddatblygu cymorth cyflogadwyedd yn y dyfodol. Cyhoeddwyd gwerthusiad o raglen ReAct 3 ym mis Gorffennaf 2021, ac ymgorfforwyd rhai o argymhellion y gwerthusiad hwnnw yn nyluniad y rhaglen ReAct+. Roedd yr adroddiad yn argymell nad oedd cymhorthdal cyflog y cyflogwr yn cynrychioli 'gwerth ychwanegol' a bod y cymorth yn cael ei dynnu'n ôl na'i dargedu at weithwyr difreintiedig; ers mis Ebrill 2024, dim ond i gyflogwyr sy'n recriwtio person anabl y mae cymorth i gyflogwyr ReAct+ wedi bod ar gael.

Mewn perthynas â'r Cynllun Gweithredu Allforio, rydym wedi comisiynu gwerthusiad allanol i asesu effeithiolrwydd y Cynllun o safbwynt ei nodau, ei weithrediad, a'i effaith ar ddyheadau allforio Cymru. Disgwylir i'r adroddiad gael ei gyhoeddi yn ystod tymor yr hydref 2025. Cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu Allforio ym mis Rhagfyr 2020 a, rhwng dechrau'r flwyddyn ariannol ganlynol ym mis Ebrill 2021 a diwedd mis Awst

2025, o ganlyniad uniongyrchol i ymyriadau'r rhaglen, mae Llywodraeth Cymru wedi adrodd ar yr allbynnau canlynol:

- 5,422 o gyfarfodydd un-i-un rhwng Cynghorwyr Masnach Ryngwladol arbenigol Llywodraeth Cymru a busnesau yng Nghymru.
- Sicrhawyd £397m o werthiant allforio o ganlyniad uniongyrchol i gymorth allforio Llywodraeth Cymru.
- Cyflwynwyd 80 o deithiau masnach tramor, gan gefnogi 718 o gynadleddwyr.
- Cyflwynwyd 403 o brosiectau rhaglenni allforio, a oedd yn cwmpasu'r rhaglenni ymchwil i'r farchnad allforio Datblygu Masnach Ryngwladol, Cyfleoedd Masnach Ryngwladol a Gwasanaeth Cyflwyno Cyflym.
- Darparwyd 599 o grantiau Ymweliadau Tramor i Ddatblygu Busnes i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru er mwyn iddynt ymweld â marchnadoedd rhyngwladol a sioeau masnach a'u harchwilio.
- 70 o ddigwyddiadau allforio yng Nghymru a oedd yn darparu cymorth i fusnesau ac wedi cefnogi 5,525 o gynrychiolwyr i feithrin eu gallu i allforio. Mae hyn yn cynnwys 7 Cynhadledd Archwilio Allforio Cymru yng Ngogledd a De Cymru, gan weithio'n agos gyda phartneriaid ar draws Ecosystem Allforio Cymru.
- Darparwyd 5 carfan o'r Rhaglen Allforwyr Newydd, gan gefnogi 68 o fusnesau drwy'r rhaglen.
- Darparwyd 5 Clwstwr Allforio gyda 251 o gwmnïau'n aelodau ohonynt ar draws sectorau blaenoriaethau allforio yng Nghymru.

## Blaenoriaeth y Prif Weinidog a'r Pedair Blaenoriaeth mewn Cenhadaeth Economaidd

Mae'r Gyllideb Ddrafft hon wedi cael ei dyrannu'n strategol i gyflawni yn erbyn y pedair blaenoriaeth genedlaethol a nodir yn y Genhadaeth Economaidd ac agenda'r Prif Weinidog, gyda ffocws cryf ar gefnogi swyddi, sbarduno twf gwyrdd, a meithrin economi gadarn a chynhwysol.

### Pontio Teg a Ffyniant Gwyrdd

Drwy Trydan Gwyrdd Cymru ac Ynni Cymru, rydym yn buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy ac yn datblygu cynlluniau ar lefel awdurdodau lleol i ddarparu system ynni yn yr unfed ganrif ar hugain sy'n cefnogi newid teg a gwyrdd. Mae Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd Banc Datblygu Cymru wedi helpu i gefnogi mentrau i sicrhau Pontio Teg. Cafodd y cynllun ei lansio i ddechrau yn 2023 ac ers hynny mae wedi cael hwb ariannol, gyda Llywodraeth Cymru yn dyblu'r gronfa i £20 miliwn. Mae'r estyniad hwn yn sicrhau bod cymorth ar gael hyd at 2028.

### Llwyfan ar gyfer Pobl Ifanc, Gwaith Teg, Sgiliau a Llwyddiant

Rydym yn blaenoriaethu datblygu cyflogaeth a sgiliau yn y gyllideb hon drwy barhau i fuddsoddi yn ein rhaglen prentisiaethau flaenllaw. Mae ein Gwarant i Bobl Ifanc wedi

helpu 60,000 o bobl ifanc. Rydym yn gwreiddio egwyddorion gwaith teg ar draws cynllunio'r sector cyhoeddus ac yn annog cyflogwyr i wella ansawdd swyddi a thegwch. Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i alluogi mynediad at swyddi o ansawdd uchel a rhoi'r sgiliau sydd eu hangen ar bobl i ffynnu mewn economi fodern.

Cydnabyddir hefyd y bydd cyflawni'r Cynllun Cyflenwi Eiddo yn llawn yn darparu capasiti i ddarparu ar gyfer mwy na 15,000 o swyddi.

**Partneriaethau Cryfach ar gyfer Rhanbarthau Cryfach a'r Economi Bob Dydd**

Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn bargeinion dinesig a thwf a seilwaith hanfodol fel Morglawdd Caergybi a phrosiect ynni'r llanw Morlais, gan ddiogelu swyddi o safon yn rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru a chryfhau economïau rhanbarthol. Mae Parthau Buddsoddi a Phorthladdoedd Rhydd yn cael eu datblygu i gyd-fynd â chryfderau rhanbarthol mewn sectorau fel dur, gweithgynhyrchu uwch ac ynni glân.

**Buddsoddi ar gyfer Twf**

Gan gydnabod pwysigrwydd allforion a mewnfuddsoddi, rydym yn cyflawni Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Allforio ac yn datblygu ein Strategaeth Ryngwladol. Ers cyhoeddi'r Strategaeth (ym mis Ebrill 2020), mae 280 o fuddsoddiadau wedi bod gan gwmnïau tramor sydd wedi creu a diogelu dros 24,000 o swyddi. Bydd ein hymdrechion i ddenu buddsoddiad newydd yn cael hwb gan Uwchgynhadledd Fuddsoddi Cymru sydd ar y gweill.

Mae rhagor o fuddsoddiad ar gyfer cymorth twf yn cynnwys:

- **Seilwaith ar gyfer Twf Economaidd**
  Bydd cyflawni'r Cynllun Cyflenwi Eiddo yn llawn yn sicrhau capasiti i ddarparu ar gyfer dros 15,000 o swyddi, gan gyfrannu'n uniongyrchol at ein cenhadaeth i greu'r amodau ar gyfer twf economaidd cynaliadwy.
- **Cefnogi Busnesau Cymru**
  Rydym yn cynnal ein cefnogaeth i fusnesau Cymru drwy Busnes Cymru ac yn ehangu mynediad at gyllid drwy Fanc Datblygu Cymru, Cronfa Cyd-fuddsoddi Angylion Cymru, a Chronfa Micro Fenthyciadau Cymru, gan sicrhau cyfranogiad economaidd amrywiol a chynhwysol.
- **Trawsnewid Digidol a Diwygio Cynllunio**
  Bydd buddsoddi mewn cysylltedd digidol a thechnolegau newydd, gan gynnwys deallusrwydd artiffisial, yn gwella canlyniadau i ddinasyddion ac yn gwella cynhyrchiant economaidd. Rydym hefyd yn mynd i'r afael â chapasiti ac oedi yn y system gynllunio i gyflymu datblygiad.
- **Diogelu a Chreu Swyddi**
  Rhagwelir y bydd buddsoddiadau dyled ac ecwiti Banc Datblygu Cymru yn cefnogi dros 4,000 o swyddi yn 2025-26, gydag effaith barhaus tan 2026-27, gan atgyfnerthu ein hymrwymiad i greu swyddi a chydnerthedd economaidd.

## Effaith Cynnydd mewn Costau Byw a Chostau Gwneud Busnes

Yn ystod y misoedd diwethaf, mae cost darparu **cymorth busnes** wedi cynyddu'n sylweddol, yn bennaf oherwydd pwysau economaidd ehangach a newidiadau polisi penodol fel y cynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr a gyflwynwyd ym mis Ebrill. Mae'r costau ychwanegol hyn wedi cael effaith uniongyrchol ar gyfraddau contractwyr a chostau danfon cysylltiedig.

Nid yw bellach yn ymarferol cynnal yr un lefel o allbynnau a gweithgarwch ag a ddarparwyd yn flaenorol o fewn y gyllideb bresennol. O safbwynt Busnes Cymru, rydym hyd yma wedi llwyddo i gynnal y ddarpariaeth a bodloni disgwyliadau allbwn. Fodd bynnag, os bydd dyraniadau cyllideb yn aros yr un fath wrth symud ymlaen, bydd angen i ni asesu a rheoli'n ofalus oblygiadau costau cynyddol ar ein gallu i barhau i gyflawni ar yr un raddfa ac effeithiolrwydd.

Pan ddatblygodd gwasanaeth Busnes Cymru ychydig flynyddoedd yn ôl, cafodd penderfyniad strategol ei wneud i ddefnyddio llwyfannau digidol er mwyn gwella'r capasiti cyflawni. Roedd y dull hwn yn golygu bod modd cynnal lefel yr allbwn er gwaethaf cyfyngiadau ariannol, er ei fod wedi arwain at ostyngiad mewn ymgysylltu wyneb yn wyneb. Er bod y model 'digidol yn gyntaf' hwn wedi profi'n effeithiol o ran cynnal lefelau gwasanaeth, mae'n werth ystyried a yw'r dull hwn yn dal yn briodol yn y cyd-destun presennol, yn enwedig wrth i fusnesau wynebu heriau sy'n dod yn fwy cymhleth a allai elwa o gymorth mwy uniongyrchol a phersonol.

O ystyried y pwysau hyn, mae cymorth uniongyrchol i fusnesau i helpu i liniaru effaith y cynnydd mewn costau byw yn cynnwys:

- **Adran costau gwneud busnes** ar wefan Busnes Cymru, er mwyn dod â chynnwys ac adnoddau at ei gilydd i helpu busnesau i leihau eu defnydd o adnoddau a chostau. Mae'r adran hon yn ganolbwynt ar gyfer unrhyw gyngor a chefnogaeth i fusnesau yn y dyfodol.

- Mae Ymgynghorwyr **Datgarboneiddio** ar gael i helpu busnesau i fabwysiadu neu wella strategaethau amgylcheddol, ac i weithio gyda busnesau i greu busnes cadarn sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon. Mae cynghorwyr yn darparu cyngor amrywiol megis defnyddio llai o ddeunyddiau crai i leihau'r risg o brinder deunyddiau, sbarduno arloesedd a chadernid, a helpu busnesau i gyrraedd marchnadoedd newydd.

- Mae ymgyrch gweledigaeth werdd Busnes Cymru yn helpu busnesau i wella eu gwybodaeth am ddefnyddio adnoddau'n effeithlon a'u dealltwriaeth o hynny. Mae'r ymgyrch yn annog busnesau i gymryd camau i leihau eu heffaith ar newid hinsawdd, ac mae'n cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru yng nghyswllt economi sero net. Mae'r **ymgyrch** yn darparu cynnwys digidol hawdd

ei ddefnyddio a digwyddiadau rhyngweithiol ar-lein gan gynnwys cyfres o sesiynau arbenigol.

- Mae'r **Addewid Twf Gwyrdd** yn rhan o'r cymorth arbenigol ar gynaliadwyedd sydd ar gael drwy Busnes Cymru, ac mae'n agored i bob busnes bach a chanolig yng Nghymru ym mha bynnag sector o ddiwydiant. Mae'n ffordd ymarferol i fusnesau ddangos yr effaith gadarnhaol maen nhw'n ei chael ar y bobl a'r lleoedd o'u cwmpas, ac i ymuno â chymuned sy'n prysur gynyddu o sefydliadau blaengar. Drwy ymrwymo i'r Addewid Twf Gwyrdd, mae pob busnes yn ymrwymo i un neu fwy o gamau gweithredu i'w helpu i leihau effaith neu i sicrhau perfformiad cynaliadwy. Mae busnesau hefyd yn cael pecyn cymorth ar gyfer marchnata sydd wedi'i ddylunio'n benodol i ddarparu gwybodaeth ymarferol, canllawiau a logos i helpu i hyrwyddo'r camau maen nhw wedi'u cymryd i ddatgarboneiddio a bod yn fwy cynaliadwy.

- Mae **Banc Datblygu Cymru** yn helpu busnesau yng Nghymru i gael y cyllid sydd ei angen arnynt i ddechrau, i gryfhau ac i ddatblygu. Mae'n darparu benthyciadau o £1k hyd at £10m o amrywiaeth o gronfeydd sy'n cefnogi gweithgareddau datgarboneiddio. Maent hefyd yn helpu busnesau i ddod o hyd i'r partner cyllid gorau er mwyn denu cyllid preifat gyda'i fwlch cyllid ei hun pan fo angen.

- Mae **Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd Banc Datblygu Cymru** yn cynnig cyfraddau llog gostyngol a chyfalaf tymor estynedig i gefnogi busnesau sy'n ymgymryd â phrosiectau effeithlonrwydd ynni a datgarboneiddio. Mae'n cynnig cyllid o £1,000 hyd at £1.5m. Mae'r Cynllun hefyd yn darparu mynediad at gymorth ymgynghori wedi'i ariannu'n llawn ac yn rhannol i gynnal archwiliadau ynni sy'n benodol i fusnes.

## Goblygiadau sy'n ymwneud â'r Cyfnod Pontio o'r UE

Darparodd Cronfa Gymdeithasol Ewrop gyllid gwerth £206m i'r rhaglen brentisiaethau rhwng 2015 a 2023. Roedd colli mynediad at gyllid ar ôl gadael yr UE ar gyfer prosiectau cenedlaethol drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin 2021-2025, a ddarparwyd yn uniongyrchol rhwng Llywodraeth y DU ac awdurdodau lleol, wedi effeithio'n sylweddol ar gyflawni prentisiaethau o flwyddyn gontract 2024/25 ymlaen gyda llai o brentisiaid.

Roedd hefyd wedi effeithio ar y ddarpariaeth cyflogadwyedd arall gan gynnwys Cymunedau am Waith a Mwy, Twf Swyddi Cymru+ a ReAct+, o ystyried bod y rhain wedi elwa'n sylweddol o gyllid yr UE yn ystod rownd 2014-20 rhaglenni'r cronfeydd strwythurol, gan greu heriau sylweddol o ran cymorth cyflogadwyedd a sgiliau o 2024/25 ymlaen.

Mae colli cyllid yr UE wedi cael effaith niweidiol sylweddol ar ein gallu i ddarparu safleoedd ac eiddo. Cyn i gyllid o'r fath gael ei dynnu'n ôl, roedd hyd at 60% o gostau cyfalaf datblygu safleoedd ac eiddo yn cael ei sicrhau drwy gyllid ERDF.

Gyda phenderfyniadau o ran cyllido ar ôl gadael yr UE yn dychwelyd i Lywodraeth Cymru, bydd £547m yn cael ei ddefnyddio i ddarparu 'Cronfa Twf Lleol' tair blynedd i Gymru o fis Ebrill 2026 ymlaen. Yr hydref hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynigion buddsoddi i gefnogi twf cynhyrchiant a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau economaidd ledled Cymru fel rhan o ddull gweithredu cydgysylltiedig ar gyfer datblygu economaidd rhanbarthol yng Nghymru, sy'n gallu gweithio ochr yn ochr â buddsoddiadau rhanbarthol eraill ar gyfer twf, gan gynnwys Bargeinion Dinesig a Thwf a Pharthau Buddsoddi.

## Rhoi'r Ddeddfwriaeth ar Waith

Bydd y Senedd yn ystyried trwyddedu llety ymwelwyr ar ôl cyflwyno Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru). Bydd cyllid yn cael ei ddyrannu i weithredu'r cynllun trwyddedu ar ôl i'r Bil fynd drwy'r Senedd.

Gan y bydd y cynllun cofrestru yn sail i drwyddedu llety ymwelwyr a'r ardoll ymwelwyr, bydd y cyllid a ddarperir ym MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio, sef £0.200m o refeniw a £0.700m o gyfalaf, sydd wedi'i glustnodi ar gyfer datblygu'r cynllun cofrestru, yn cael ei gyfeirio at Awdurdod Cyllid Cymru i'w gyfuno â chyllid arall sydd wedi'i glustnodi ar gyfer systemau cofrestru ac ardoll ymwelwyr. Mae cyllid ar gyfer Awdurdod Cyllid Cymru yn rhan o'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Gall costau cymdeithasol ac economaidd diweithdra ac anweithgarwch economaidd fod yn sylweddol i unigolion a hefyd i'r gymuned ehangach. Felly, mae dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â'n rhaglenni cyflogadwyedd (TSC+Mwy, Cymunedau am Waith a Mwy, ReAct+, a'r Cynllun Arloesol i fynd i'r afael ag Anweithgarwch Economaidd) yn adlewyrchu'r egwyddor datblygu cynaliadwy ganolog sydd wedi'i hymgorffori yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac mae'n gweithio i gyflawni gweledigaeth o Gymru lewyrchus drwy ddatblygu economi sy'n cynnig cyfleoedd i bawb ac sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yng Nghymru. Lle mae'r ddarpariaeth wedi'i chontractio, rydym hefyd yn sicrhau bod contractwyr yn amlinellu sut maent yn cyfrannu at y saith nod llesiant yn eu Strategaeth ar gyfer Dyfodol Llesiant, gan gynnwys 'Cymru gydnerth' a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang'.

Mae Busnes Cymru yn cefnogi amcanion llesiant Cymru fwy lewyrchus, cydnerth a chyfartal sy'n ymateb yn fyd-eang drwy helpu i adeiladu economi sy'n seiliedig ar

egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau’r dyfodol; yn ogystal â helpu i adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth i ni wneud y cynnydd mwyaf posibl tuag at ddatgarboneiddio.

Mae Busnes Cymru yn cyflawni ein Cenhadaeth Economaidd ac yn darparu cymorth busnes i entrepreneuriaid, mentrau cymdeithasol, microfusnesau a busnesau bach a chanolig ledled Cymru i ddechrau, datblygu a thyfu. Mae'r ystod eang o weithgarwch yn cynnwys datgarboneiddio, twf gwyrdd, cynaliadwyedd, gwaith teg, cadwyni cyflenwi a helpu busnesau i weithio ar y cyd, yn ogystal â chynnig digidol.

Mae Busnes Cymru hefyd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau ac yn arwain y camau gweithredu i gefnogi pobl ifanc i hunangyflogaeth fel rhan o'r Warant i Bobl Ifanc. Mae'r gwasanaeth yn hwyluso gwasanaethau rheng flaen Recriwtio a Hyfforddi Busnes Cymru er mwyn i fusnesau gael gafael ar wybodaeth a chyngor ar gymorth priodol gan gyflogadwyedd a sgiliau a thrwy'r ddarpariaeth well, helpu cyflogwyr i gael mynediad at y prentisiaethau priodol.

Mae Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl yn cael eu cefnogi gan Gynghorwyr Cyflogaeth Pobl Anabl Busnes Cymru i ddarparu cyngor, gwybodaeth a chymorth i gyflogwyr ledled Cymru. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cefnogi'r gwaith o ddarparu Cronfa Cefnogi Cwmnïau Lleol yr economi sylfaenol ac mae'n darparu amrywiaeth o wybodaeth, cyngor a chymorth i helpu busnesau i gydweithio i gefnogi cadwyni cyflenwi lleol.

## Cydraddoldeb, Cynaliadwyedd a'r Gymraeg – Asesiadau Effaith ar y Gymraeg

Nod ein rhaglenni cyflogadwyedd yw sicrhau cydraddoldeb a hygyrchedd i bawb. Mae’n bwysig sicrhau bod y rheini sydd â nifer o rwystrau a/neu’r rheini sy’n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol yn cael mynediad cyfartal at ein rhaglenni cyflagodwyedd y rhaglen ond hefyd yn cael canlyniadau cyfartal yn sgil cymryd rhan yn y Rhaglen. Mae ein rhaglenni’n cael eu cyflwyno’n ddwyieithog. Mae contractwyr Twf Swyddi Cymru a Mwy hefyd yn cynhyrchu Polisi Iaith Gymraeg sy’n amlinellu sut maen nhw’n cyfrannu at hyrwyddo datblygiad y Gymraeg fel sgil yn y gweithle a’r defnydd o hyfforddiant Cymraeg a dwyieithog.

Mae **Cymunedau am Waith a mwy** wedi gwneud nifer o ddarpariaethau i sicrhau cydraddoldeb i bawb megis cyllid rhwystrau a fydd yn cyfrannu at gostau sy’n gysylltiedig â mynychu hyfforddiant, cyfraniadau tuag at ofal, gan gynnwys costau gofal plant a chyfraniad tuag at offer arbennig i’r rhai sy’n anabl neu sydd â chyflwr

iechyd sy’n cyfyngu ar eu gallu i weithio er mwyn eu galluogi i gymryd rhan yn y rhaglen.

Caiff atgyfeiriadau **Twf Swyddi Cymru a Mwy** eu monitro yn ôl oedran, rhyw, ethnigrwydd a statws anabledd, gan gynnwys data a dadansoddiadau gan asiantaethau cyfeirio sy’n ein galluogi i feincnodi cyfraddau cyfranogi yn erbyn cyfartaleddau lleol a chenedlaethol a chymryd camau cadarnhaol i wella cyfranogiad a chyrhaeddiad grwpiau a dangynrychiolir.

Mae’r rhaglen **ReAct+** yn darparu cymorth ychwanegol i gael gwared ar rwystrau rhag hyfforddiant. Mae’r rheini sy’n cymryd rhan yn ReAct+ yn gallu cael hyd at £200 i helpu gyda chostau sy’n gysylltiedig â hyfforddiant, fel costau teithio a llety. Mae yna grant costau gofal o hyd at £2100 i dalu costau gofal sy’n codi yn ystod hyfforddiant. Mae’r rhaglen hefyd yn cynnig cymorth o hyd at £4000 tuag at gyflogau i gyflogwyr sy’n recriwtio person anabl cymwys. Mae'r rhaglen yn monitro nodweddion cyfranogwyr y rhaglen e.e. oedran, rhyw, ethnigrwydd ac anabledd ac rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid i nodi ffyrdd o wella mynediad at gymorth gan unigolion o grwpiau heb eu cynrychioli’n ddigonol.

Cyhoeddwyd Asesiad Effaith Integredig **Busnes Cymru** yn 2022. https://www.llyw.cymru/darpariaeth-busnes-cymru-ir-dyfodol-asesiad-effaith-html. Roedd yr Asesiad Effaith Integredig yn ystyried effeithiau gwasanaeth Busnes Cymru ar draws amrywiaeth o feysydd gan gynnwys cydraddoldeb, cynaliadwyedd a'r Gymraeg ac mae’n rhan annatod o’i ddarpariaeth gwasanaeth.

Mae **entrepreneuriaeth** yn sbardun allweddol yn economi Cymru. Mae darparu cymorth i fusnesau yn elfen hanfodol o ddechrau neu dyfu busnes, gan sicrhau bod y cyngor cywir yn cael ei roi a bod busnesau'n dechrau ac yn ffynnu yng nghymunedau Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu drwy'r Asesiad Effaith Integredig i hyrwyddo canlyniadau cyfartal a'r defnydd o'r Gymraeg. Mae hyn yn cael ei wneud mewn amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys gweithgareddau allgymorth yn ogystal â hyrwyddo'r Gymraeg drwy'r gwasanaeth. Mae cymorth busnes ar gael yn ddwyieithog a darperir gweithdai Cymraeg eu hiaith hefyd. Mae deunyddiau marchnata a chynnwys y wefan yn ddwyieithog. Mae dewis iaith y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn cael ei gofnodi ac mae cynghorydd sy'n siarad Cymraeg yn cael ei neilltuo i'r rhai sy'n dymuno defnyddio'r gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae gwasanaeth Busnes Cymru drwy’r Asesiad Effaith Integredig yn darparu cymorth i unigolion sy’n awyddus i ddechrau busnes ac i fusnesau bach a chanolig sefydledig sy’n awyddus i fabwysiadu neu wella polisïau ac arferion effeithlonrwydd adnoddau. Mae'r gwasanaeth hwn yn cyfrannu at y nodau llesiant canlynol:

- Cymru lewyrchus: cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, garbon isel sy’n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid

yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.

- Cymru sy'n fwy cyfartal: cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol).

Yn draddodiadol, mae cyfraddau cyflogaeth yn sylweddol is ar gyfer pobl anabl na phobl nad ydynt yn anabl. Mae Busnes Cymru yn cefnogi'r Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl ac yn gweithio'n agos gyda'i gilydd gan ddefnyddio'r mynediad sydd gan Busnes Cymru at fusnesau a'u cysylltu nhw â'r Hyrwyddwyr hyn i hybu cyflogaeth pobl anabl a hefyd i ddechrau'r sgwrs gyda busnesau ynghylch manteision gweithlu amrywiol.

## Effaith Amddifadedd a Thlodi

Mae'r rhaglenni cyflogadwyedd yn rhoi'r sgiliau a'r profiad sydd eu hangen ar bobl i gael gwaith, i ddychwelyd i waith, ac i aros mewn gwaith mewn marchnad lafur sy'n newid o hyd. Mae cyflogaeth sicr, gynaliadwy, ac sy'n talu'n dda yn cynnig llwybr allan o dlodi a gwarchodaeth yn ei erbyn i unigolion, eu dibynyddion, ac i'r gymuned ehangach. Mae mynediad at wasanaethau cymorth cyflogaeth yn cael ei gydnabod yn eang am ei fanteision o ran symudedd cymdeithasol, helpu pobl allan o dlodi, gwella canlyniadau iechyd meddwl ac iechyd corfforol yn ogystal â bod yn allweddol wrth helpu pobl i gael swyddi gwyrdd i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a hyrwyddo twf cynaliadwy.

Cydnabyddir y gallai entrepreneuriaeth a rhedeg busnes fod yn llwybr allan o dlodi neu dlodi mewn gwaith i lawer o bobl, a gall gael effeithiau cadarnhaol sylweddol ar lesiant. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cydnabod, os yw rhieni mewn cyflogaeth sefydlog neu'n hunangyflogedig, y bydd hyn yn ei dro yn cael effeithiau cadarnhaol ar blant sy'n byw mewn tlodi ar hyn o bryd, gan arwain at lefelau uwch o gyrhaeddiad drwy gydol eu bywydau.

Mae Busnes Cymru yn cefnogi unigolion di-waith ac economaidd anweithgar sy'n dymuno dechrau a rhedeg busnes yng Nghymru. Mae cymorth dechrau busnes a hunangyflogaeth Busnes Cymru yn cynnwys gweithdai a chyngor un-i-un gan gynghorydd busnes.  Cafodd 26% o'r swyddi y mae Busnes Cymru wedi helpu i'w creu eu llenwi gan y rheini a oedd yn ddi-waith yn flaenorol.

Mae Cronfa Cyfranogiad Busnes Cymru ar gael i ddarparu cymorth ariannol i helpu i gael gwared ar rwystrau rhag cael gafael ar wasanaethau, fel talu am ddarparwr gofal

plant er mwyn i riant sengl allu mynd i weithdy Busnes Cymru neu dalu am gyfieithydd er mwyn i unigolyn allu deall cynghorydd busnes os oes rhwystrau o ran iaith.

Drwy hyrwyddo gwaith teg, mae Busnes Cymru yn darparu cymorth arbenigol i alluogi busnesau i gymryd camau cadarnhaol drwy'r Contract Economaidd ar draws cadernid economaidd, carbon isel, gwaith teg a llesiant. Mae Busnes Cymru yn darparu cymorth i fusnesau gyda chynllunio Adnoddau Dynol a recriwtio a chadw staff er mwyn mynd ati i annog busnesau bach a chanolig i ddatblygu arferion cynhwysiant cadarnhaol. Bydd hyn yn sicrhau bod cyrhaeddiad Busnes Cymru nid yn unig yn canolbwyntio ar gefnogi'r rheini sy'n dechrau neu'n tyfu eu busnes, ond bydd hefyd yn sicrhau bod busnesau sy'n cyflogi yn ymwybodol o fod yn fusnes cyfrifol drwy greu gweithle cynhwysol a chefnogol. Bydd hyn hefyd yn cael effaith uniongyrchol ar rieni.

Mae mentrau cymdeithasol yn cael eu gyrru gan genhadaeth gymdeithasol/amgylcheddol ac yn ailfuddsoddi elw i greu newid cymdeithasol cadarnhaol, ac mae'r gwerthoedd hyn yn elfen allweddol o dorri'r cylch tlodi a chreu newid cadarnhaol yng nghymunedau Cymru. Drwy barhau i ariannu cymorth i fentrau cymdeithasol, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod mentrau cymdeithasol yn aml yn gweithredu yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, gyda'r rhan fwyaf o'r gweithlu mentrau cymdeithasol yn byw o fewn 10 milltir i'w swyddfeydd. Mae Busnes Cymdeithasol Cymru yn ategu'r gwasanaethau a ddarperir gan Busnes Cymru ac yn darparu cyngor ac arweiniad arbenigol i gefnogi datblygiad busnesau cymdeithasol presennol a newydd.

I gefnogi'r Warant i Bobl Ifanc, mae Syniadau Mawr Cymru, fel rhan o deulu Busnes Cymru, yn darparu cyngor a chymorth i bobl ifanc sy'n awyddus i fod yn hunangyflogedig. Mae Syniadau Mawr Cymru yn cynnig rhaglen bwrpasol o ddigwyddiadau, gweithdai a chyngor un-i-un i helpu pobl ifanc i fagu hyder mewn busnes, datblygu eu syniadau a'u cefnogi i ddechrau busnes.

Mae Grant Dechrau Busnes i Bobl Ifanc ar gael i gefnogi pobl ifanc o dan 25 oed i ddechrau busnes. Mae'r grant hwn yn targedu'n benodol pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ddechrau eu busnes eu hunain, creu menter gymdeithasol, bod yn hunan-gyflogedig, yn weithiwr llawrydd neu'n entrepreneur cymdeithasol yng Nghymru.

Yn unol â'r Warant i Bobl Ifanc, mae Busnes Cymru wedi datblygu a hyrwyddo cyfres o adnoddau digidol i helpu i ymgysylltu â phobl ifanc, eu recriwtio a'u cadw mewn cyflogaeth, gan dargedu busnesau micro a busnesau bach a chanolig. Mae'r adnoddau'n codi ymwybyddiaeth o'r rhwystrau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu ac yn helpu cyflogwyr i ystyried gwelliannau mewn arferion cyflogaeth, y broses recriwtio a chynefino, gyda chanllawiau a chyngor ymarferol gan sefydliadau eraill. **Cyflogaeth Ieuenctid | Porth Sgiliau Busnes Cymru (llyw.cymru)**

## Newidiadau Demograffig – Poblogaeth sy'n Heneiddio

Nid oes terfyn oedran uchaf ar lawer o'r rhaglenni yn y maes Cyflogadwyedd a Sgiliau. Maen nhw'n parhau i brofi 50 a mwy o ymyriadau i alluogi'r garfan hon i aros yn y farchnad lafur neu i ailgysylltu â hi.

Yn yr un modd, rydym yn gweithredu rhaglen brentisiaethau i bobl o bob oed sy'n creu cyfleoedd i bobl ym mhob cwr o Gymru, o bob oed a chefndir, ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy sy'n werthfawr yn y gweithle ac yn gwella eu bywydau. Ein nod yw cynnal o leiaf nifer y cyfleoedd i ddechrau prentisiaeth i bob oed a dargedwyd yn ystod tymor blaenorol y Senedd (100,000).

# Gwariant Ataliol a Gwerth am Arian

Mae cynnig y gyllideb yn adlewyrchu fy ymrwymiad parhaus i warchod a blaenoriaethu buddsoddiadau sy'n cefnogi mesurau ataliol cyn belled a bo modd. Mae ein penderfyniadau gwario, lle bo hynny'n bosibl, wedi canolbwyntio ar gyllido'r galw yn ein rhaglenni, a hefyd wedi buddsoddi adnoddau fel rhan o'r gyllideb hon i geisio lliniaru ac atal problemau rhag digwydd. Rydym wedi adeiladu ar y broses ddiwethaf o bennu'r gyllideb i sicrhau bod cyllid yn cael ei ddyrannu i feysydd sydd eu hangen.

Nod ein **rhaglenni cyflogadwyedd** yw atal anweithgarwch economaidd a diweithdra tymor hir:

- Cydnabyddir yn eang y gall cyfnod o ddiweithdra parhaus gael effaith andwyol hirdymor ar ragolygon cyflogaeth ac enillion person ifanc. Gall yr ymyrraeth gywir helpu i liniaru'r effeithiau hyn, a nod Twf Swyddi Cymru+ yw mynd i'r afael â'r broblem hon drwy dargedu pobl ifanc NEET gyda chymorth wedi'i deilwra a fydd yn y pen draw'n gwella eu siawns o ddod o hyd i waith cynaliadwy ac yn lleihau tlodi plant ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

- Mae gan Cymunedau am Waith a Mwy fesurau ataliol cadarn ac mae'n helpu i dorri cylchoedd negyddol sy'n ymwneud â thlodi, anghydraddoldeb a diffyg cyfleoedd. Gall diweithdra ac anweithgarwch economaidd gael effaith niweidiol ar iechyd corfforol a meddyliol pobl. Mae'r rhaglen hefyd yn helpu i atal problemau sy'n ymwneud ag unigrwydd ac iechyd a llesiant gwael drwy ddefnyddio'r model mentora.

- Mae'r rhaglen ReAct+ yn ceisio rhoi cymorth cyn gynted â phosibl i'r rheini y mae dileu swyddi wedi effeithio arnynt er mwyn eu hatal rhag mynd ymlaen i fod yn ddi-waith yn y tymor hir. Gall ReAct+ hefyd gefnogi cyn-droseddwyr a

throseddwyr sy'n bwrw dedfrydau cymunedol i ennill y sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddod o hyd i waith a lleihau aildroseddu.

Mae'r rhaglenni Cyflogadwyedd yn cael eu gwerthuso'n rheolaidd ac mae hyblygrwydd wrth gyflwyno'r rhaglenni yn ein galluogi i sicrhau ein bod yn adolygu gwerth am arian yn rheolaidd ac yn gwneud newidiadau yn ôl yr angen.

Mae'r **Contract Economaidd** yn mynnu bod busnesau sy'n gofyn am fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru yn dangos pob un o'r canlynol fel gofyniad sylfaenol:

- Potensial i ddatblygu (sy'n cael ei fesur, er enghraifft, yn ôl cyfraniad at gyflogaeth, cynhyrchiant, neu effeithiau lluosydd drwy'r gadwyn gyflenwi).
- Gwaith teg (fel y mae'n cael ei ddiffinio gan y Bwrdd Gwaith Teg).
- Hybu iechyd, gan gynnwys pwyslais arbennig ar iechyd meddwl, sgiliau a dysgu yn y gweithle.
- Cynnydd o ran lleihau ôl troed carbon.

**Effaith Busnes Cymru**

Comisiynwyd Ysgol Busnes Caerdydd yn ystod gwanwyn 2024 i ddarparu asesiad o'r canlyniadau economaidd sy'n gysylltiedig â gweithgarwch Busnes Cymru rhwng mis Mehefin 2021 a diwedd mis Mawrth 2024.

Edrychwyd ar ddwy brif elfen gwasanaethau Busnes Cymru. Yn gyntaf, y gwasanaeth cymorth twf, craidd a newydd ac yn ail, y Rhaglen Cyflymu Twf. Mae'r adroddiad yn datgelu bod yr ymyriadau wedi digwydd yn ystod cyfnod economaidd heriol i Gymru. Mae'r sylwebaeth lefel uchel yn datgelu nad oedd y cyfnod 2021-2024 yn un hawdd i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru. Mae'r cyfnod wedi arwain at ganlyniadau pandemig Covid-19 a'r arafu economaidd a ddeilliodd o hynny. Er bod yr economi wedi adfer yn 2021, cafodd ei tharo wedyn gan gyfnod o chwyddiant cymharol uchel a gafodd effaith ar hyder busnesau. Yn hollbwysig, roedd ymyrraeth Llywodraeth y DU i ddod â chwyddiant yn agosach at 2.0% wedi lleihau gweithgarwch yn economi'r DU.

Roedd ymyriadau Busnes Cymru yn ystod 2021-2024 wedi digwydd mewn cyfnod lle'r oedd busnesau bach a chanolig yng Nghymru yn wynebu ansicrwydd ac roedd eu hyder yn isel, a than amodau macroeconomaidd nad oeddent yn darparu'r hinsawdd orau ar gyfer buddsoddiad busnes a thwf gwerthiant.

## Llinellau Gwariant Unigol yn y Gyllideb

Rhoddir crynodeb o linellau cyllideb sy’n berthnasol i’r pwyllgor hwn yn **Atodiad A** ac **Atodiad B**. Mae hyn yn cynnwys costau cyflawni’r polisïau hyn.

## Meysydd Penodol

### Yr Economi

Mae’r adran hon yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf am feysydd penodol, yn unol â chais y Pwyllgor.

***Dyraniadau i gefnogi busnesau, gan gynnwys manylion am sut mae’r rhain yn helpu busnesau bach a chanolig a busnesau mwy;***

Y dyraniad ariannol i gefnogi busnesau yn 2026-27 yw £98.545m. £61.945m o’r BEL Busnes a Datblygiad Economaidd Rhanbarthol 3751, £22.5m o’r BEL Busnes Cymru 3901, £10.3m o’r BEL Arloesi ar gyfer Busnes 3742 a £3.8m o’r BEL Allforio a Masnach 3754.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi busnesau bach a chanolig a busnesau mwy drwy amrywiaeth o raglenni a gwasanaethau cymorth busnes, gan gynnwys:

- Gwybodaeth, arweiniad a chyngor ar feysydd fel cynllunio busnes, Adnoddau Dynol a gwaith teg, datgarboneiddio, allforio, gweithgarwch y gadwyn gyflenwi ac arferion gorau drwy Busnes Cymru. Cymorth i helpu busnesau bach a chanolig i sicrhau contractau a lleihau costau drwy GwerthwchiGymru.
- Mynediad at gyllid drwy Fanc Datblygu Cymru sy’n pontio bylchau cyllid drwy benthyciadau ac ecwiti, yn enwedig i fusnesau bach a chanolig a microfusnesau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol gan fenthycwyr prif ffrwd. Mae gan Lywodraeth Cymru hefyd gronfa benodol, sef Cronfa Dyfodol yr Economi.
- Cymorth technoleg ac arloesi ar gyfer digidoleiddio, ymchwil a datblygu a mabwysiadu technolegau newydd.
- Gwasanaethau cymorth Allforio a Rhyngwladoli sy’n cysylltu busnesau â chyfleoedd byd-eang, gan gynnig arweiniad wedi'i deilwra ac offer ymarferol i helpu cwmnïau Cymru i ehangu’n rhyngwladol.
- Fforymau sector, annog rhannu gwybodaeth, meithrin partneriaethau rhwng busnesau, y byd academaidd a’r sector cyhoeddus.
- Cyfeirio busnesau at Busnes Cymru, sy’n darparu un pwynt cyswllt iddynt gan sicrhau y gallant gael gafael ar y cymorth fwyaf perthnasol yn gyflym heb unrhyw ddyblygu na dryswch diangen.
- Rhaglenni penodol i sectorau fel bwyd, creadigol, twristiaeth, adeiladu, yr economi sylfaenol.

- Cymorth sgiliau ac arloesi gan gynnwys y Rhaglen Sgiliau Hyblyg, SMART Cymru, Cronfa’r Economi Gylchol. Mae’r Rhaglen Sgiliau Hyblyg yn darparu 50 y cant o gyllid grant i gefnogi cyflogwyr i uwchsgilio ac mae cyllid ar gael i fusnesau o unrhyw faint.
- Twf sy’n seiliedig ar leoedd drwy dimau rhanbarthol, buddsoddi mewn eiddo a mentrau’r economi sylfaenol.
- Ymyriadau penodol sy'n seiliedig ar brosiectau o Arfor i GCRE.

Ar ben hynny, yn 2026-27 bydd £7.531m o’r BEL Cyflogadwyedd gan gynnwys y Warant i Bobl Ifanc yn cael ei ddyrannu i’r Rhaglen Sgiliau Hyblyg sy’n darparu 50 y cant o gyllid grant i helpu cyflogwyr gyda chostau uwchsgilio, ac mae cyllid ar gael i fusnesau o unrhyw faint.

***Dyraniadau i gefnogi seilwaith eiddo a datblygu safleoedd cyflogaeth***

Bydd y dyraniad cyfalaf o £34.459m a’r dyraniad adnoddau o £2.268m yn y Gyllideb Ddrafft 2026-27 yn ein galluogi i barhau i fuddsoddi mewn eiddo masnachol, lle mae tystiolaeth o ddiffyg yn y farchnad. Bydd yn ein galluogi i ddenu a chadw buddsoddiad na fyddai’n dod i Gymru nac yn cael ei ailfuddsoddi yng Nghymru fel arall, gan ddylanwadu ar benderfyniadau masnachol er mwyn cyflawni amcanion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach. Ar y cyd â phartneriaid cyhoeddus a phreifat, ein nod yw darparu 150,000 troedfedd sgwâr y flwyddyn o arwynebedd llawr masnachol newydd, ynghyd â safleoedd cyflogaeth sy’n barod ar gyfer buddsoddiad, yn unol â'r cyllid sydd ar gael ar gyfer y Cynllun Cyflenwi Eiddo.

***Manylion dyraniadau i gefnogi datblygiad economaidd rhanbarthol, gan gynnwys y Gronfa Twf Lleol, y Cymoedd Technoleg, Porthladdoedd Rhydd a Pharthau Buddsoddi***

**Y Cymoedd Technoleg**

Dyraniad y gyllideb i’r Cymoedd Technoleg yw gwerth £5m o gyfalaf a £1.76m o refeniw. Bydd rhaglen y Cymoedd Technoleg yn cefnogi datblygiad economaidd rhanbarthol drwy ei holl weithgareddau – amrywiaeth o brosiectau unigol sy’n cwmpasu seilwaith, twf busnes a sgiliau. Dyma enghreifftiau o weithio’n uniongyrchol gyda busnesau:

- y Prosiect Gwella Cynhyrchiant Busnes (BPEP) – ymrwymiad o £2.2 miliwn o gyfalaf dros dair blynedd hyd at fis Mawrth 2028;
- Canolfan Hartree – Cynllun Braenaru’r Cymoedd Technoleg – refeniw £95,000 dros ddwy flynedd hyd at fis Awst 2026;

- Mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, cyd-ariannu cynghorydd busnes yng nghanolfan fenter Goldworks (a adeiladwyd gyda chyllid y Cymoedd Technoleg) £79,578 dros ddwy flynedd ariannol hyd at fis Mawrth 2028;

Mae rhaglen y Cymoedd Technoleg hefyd yn gweithio i baratoi a marchnata gweddill y parseli tir ar safle Rhyd-y-Blew, a lleoliadau eraill ar safle'r Gwaith yng Nglynebwy. Mae'r buddsoddiadau mawr hyd yma yn cynnwys unedau Lime Avenue, Regain 1 a 2, a'r hen adeilad Techboard sydd bellach yn cael ei alw'n Tech Valleys House. Mae'r maes buddsoddi hwn wedi sicrhau dros 298,000 troedfedd sgwâr o ofod llawr – hen a newydd – i fusnesau. Ar hyn o bryd, mae rhaglen y Cymoedd Technoleg yn gweithio gyda Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd a Menter y Cymoedd Gogleddol i nodi a helpu i gyflwyno prosiectau safleoedd ac adeiladau cydweithredol.

Trydedd elfen rhaglen y Cymoedd Technoleg yw buddsoddi mewn datblygu sgiliau. Mae'r rhaglen yn ariannu amrywiaeth eang o brosiectau sy'n ymwneud â sgiliau sy'n seiliedig ar leoedd sydd wedi'u cynllunio i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd gyrfa sydd ar gael i bobl ifanc sy'n astudio pynciau STEM, ac i helpu i greu llif cadarn o weithwyr talentog ar gyfer swyddi sy'n edrych tua'r dyfodol. Mae enghreifftiau o'r gwaith hwn yn cynnwys:

- Prosiect Hwyluso STEM - ymrwymiad refeniw o £95,000 dros bedair blynedd hyd at fis Mawrth 2028;
- WVEP a TiW:WV – Ymrwymiad (refeniw a chyfalaf) dros oes rhaglen y Cymoedd Technoleg o £349,697 (2021 i 2024) a £397,000 (2024 i 2028). Mae'r Panasonic Trust wedi darparu arian cyfatebol ar gyfer y swm hwn.
- Canolfannau HiVE a HiVE – Hyd yma, mae £1.5 miliwn wedi'i fuddsoddi mewn canolfannau HiVE mewn ysgolion ar draws ardal y Cymoedd Technoleg. Mae HiVE yn gyfleuster gwerth miliynau o bunnoedd ar gyfer darpar beirianwyr a fydd yn rhoi'r sgiliau a'r profiad sydd eu hangen ar bobl ifanc ar gyfer gyrfaoedd yn niwydiannau'r dyfodol. Buddsoddodd rhaglen y Cymoedd Technoleg bron i £5 miliwn er mwyn gallu datblygu a chyflawni'r dyluniad, gan helpu i sicrhau £10.8 miliwn o gyllid ffyniant bro gan Lywodraeth y DU. Mae'r lansiad swyddogol wedi'i drefnu ar gyfer 3 Tachwedd 2025.

Mae rhaglen y Cymoedd Technoleg yn helpu i greu amgylchedd lle gall busnesau newydd fod â hyder i symud i ogledd Cymoedd De Cymru a lle bydd busnesau presennol yn gallu tyfu.

**Porthladdoedd Rhydd**

Mae Rhaglen Porthladdoedd Rhydd Cymru yn fenter ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU sydd â'r nod o ddatgloi potensial economaidd Cymru drwy ddatblygu Porthladdoedd Rhydd dynodedig Porthladd Rhydd Celtaidd ac Ynys Môn yn strategol.

Bwriad y rhaglen yw:

1. Hyrwyddo adfywio a chreu swyddi o ansawdd uchel
- Cefnogi datblygu economaidd mewn ardaloedd arfordirol a difreintiedig.
- Creu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy sy’n talu’n dda.

2. Sefydlu Porthladdoedd Rhydd fel canolfannau cenedlaethol ar gyfer masnach a buddsoddiad byd-eang
- Gwella safle Cymru mewn masnach ryngwladol.
- Denu buddsoddiad tramor a domestig i sectorau allweddol.

3. Meithrin amgylchedd arloesol
- Annog ymchwil, datblygu a chydweithio.
- Cefnogi twf gwyrdd a symud tuag at economi carbon isel.

Gall busnesau mewn parthau Porthladd Rhydd elwa o’r canlynol:

- Gweithdrefnau tollau symlach
- Cynnig rhyddhad ar dollau tramor
- Cymhellion treth

Rhaid i Borthladdoedd Rhydd alinio â’r canlynol:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015
- Ymrwymiadau sero net
- Egwyddorion gwaith teg a phartneriaeth gymdeithasol, gan sicrhau bod gweithwyr yn cael eu trin a’u cynrychioli’n deg.

Yn ogystal â’r cymhellion treth, mae'r Rhaglen Porthladdoedd Rhydd yn cynnwys £50m o gyfalaf sbarduno gan Lywodraeth y DU i gefnogi’r gwaith o gyflawni’r ddau Borthladd Rhydd yng Nghymru. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-2027, mae Llywodraeth y DU wedi nodi y bydd £18m yn cael ei ddyrannu ar gyfer y ddau Borthladd Rhydd. Nid yw'r broses ar gyfer trosglwyddo'r cyllid hwn wedi'i chadarnhau eto.

Bydd Porthladd Rhydd Ynys Môn yn canolbwyntio ar nifer o brosiectau allweddol yn 2026-27. Bydd hyn yn cynnwys:

- Gweithgarwch datgarboneiddio.
- Gwella seilwaith a galluogi/adfer safleoedd tir llwyd.
- Buddsoddiad cyfalaf mewn adeiladu o'r newydd ar gyfer arloesi a gweithgareddau ymchwil a datblygu;
- Gwelliannau hollbwysig i briffyrdd safleoedd allweddol.

Bydd prosiectau'r Porthladd Rhydd Celtaidd yn cynnwys canolbwyntio ar waith galluogi a gwella seilwaith, a chefnogi twf mewn ynni adnewyddadwy a gweithgynhyrchu uwch.

**Parthau Buddsoddi**

Mae'r Rhaglen Parthau Buddsoddi wedi'i chynllunio i gefnogi'r cryfderau cynyddol yn sectorau blaenoriaeth Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, cynyddu cynhyrchiant, sbarduno arloesedd, a helpu i fynd i'r afael â gwahaniaethau economaidd sy'n bodoli rhwng rhanbarthau ac o fewn rhanbarthau.

Mae'r Rhaglen yn cael ei chyflwyno ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, gydag un Parth Buddsoddi yn ardal teithio i'r gwaith Caerdydd a Chasnewydd, a'r llall yn ardal teithio i'r gwaith Wrecsam a Sir y Fflint. Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn nodi sut bydd y ddwy lywodraeth yn gweithio gyda'i gilydd ac yn rhoi manylion y trefniadau cyllido i ddarparu Parthau Buddsoddi yng Nghymru.

Bydd Llywodraeth y DU yn darparu £320m o gyllid i ddau Barth Buddsoddi Cymru (£160m yr un) rhwng blynyddoedd ariannol 2025-2026 a 2034-2035 (cyfnod o 10 mlynedd). Gellir defnyddio cyllid yn hyblyg rhwng gwariant ac un pecyn cymell treth – y gellir ei ehangu yn seiliedig ar nifer a maint y safleoedd.

Bydd pob Parth Buddsoddi yn cael hyd at £160 miliwn o wariant hyblyg (wedi'i rannu 40:60 rhwng gwariant adnoddau (RDEL) a gwariant cyfalaf (CDEL). Bydd costau unrhyw gynlluniau treth y mae'r Parth Buddsoddi yn dewis manteisio arnynt yn cael eu tynnu o'r £160m hwn dros gyfnod 10 mlynedd y rhaglen.

Mae Llywodraeth y DU wrthi'n cwblhau'r dyraniadau ar gyfer y ddau Barth Buddsoddi ar gyfer 2026-27. Bydd dyraniadau dangosol yn golygu y bydd Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam yn cael tua £14m a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cael tua £13m.

Mae'r ddau Barth Buddsoddi ar wahanol gamau o ran cymeradwyo achosion busnes a byddant yn cyflwyno rhagor o fanylion am weithgarwch y flwyddyn nesaf mewn Cynlluniau Cyflawni Blynyddol yn ystod 2025/26. Byddant yn canolbwyntio ar bedwar prif faes gweithgarwch:

- Seilwaith
- Sgiliau
- Arloesi/Ymchwil a Datblygu
- Cymorth Busnes

Mae Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam yn adeiladu ar ei glwstwr cenedlaethol bwysig o weithgynhyrchu uwch, gan dyfu a thrawsnewid y sector i ddiwallu anghenion

y dyfodol a chynyddu ei fanteision economaidd drwy gyflogaeth a chynyddu cynhyrchiant a thâl. Bydd y Parth Buddsoddi hefyd yn canolbwyntio'n ofodol ar nifer o safleoedd strategol allweddol gan gynnwys Ystadau Diwydiannol Glannau Dyfrdwy a Wrecsam, Warren Hall a thir o amgylch Maes Awyr Penarlâg.

Bydd Parth Buddsoddi Caerdydd a Chasnewydd yn sbarduno arloesedd a thwf ar draws y sectorau gweithgynhyrchu uwch a digidol a thechnoleg, gan ganolbwyntio ar glwstwr lled-ddargludyddion cyfansawdd y rhanbarth.

Mae gan y ddwy raglen brosesau achos busnes cadarn a threfniadau monitro a gwerthuso i asesu ystyriaethau Gwerth am Arian critigol.

**Y Gronfa Twf Lleol**

Bydd Cronfa Twf Lleol newydd i Gymru yn cyflawni Cenhadaeth Economaidd Llywodraeth Cymru ac agenda Llywodraeth y DU ar gyfer twf. Mae'r Gronfa werth £547m a bydd yn para am dair blynedd gan ddechrau o fis Ebrill 2026 ymlaen. Bydd Cynllun Buddsoddi yn cael ei ddatblygu a'i gyflawni gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth gyda llywodraeth leol a'r sector preifat, addysg uwch ac addysg bellach, a'r trydydd sector.

Yn ddiweddarach y mis hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar y ffordd orau o ddefnyddio'r cyllid hwn. Bydd yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar y ffordd orau o wneud y canlynol:

- creu a thyfu busnesau Cymru mewn sectorau allweddol a hybu buddsoddiad mewn ymchwil ac arloesi, mewn meysydd fel iechyd a biodechnoleg, technoleg ariannol, ynni carbon isel a Deallusrwydd Artiffisial;
- cefnogi pobl i gael gwaith a helpu pobl i ennill sgiliau a chymwysterau newydd i symud ymlaen i swyddi sy'n talu'n well fel bod cyfran fwy o'n poblogaeth mewn gwaith;
- mynd i'r afael â'r materion sy'n llesteirio twf, fel yr angen am safleoedd ac adeiladau allweddol, cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel, effeithlonrwydd ynni, cysylltedd digidol, a thrafnidiaeth carbon isel.

***Dyraniadau i gefnogi'r unigolion a'r cymunedau yr effeithiwyd arnynt gan benderfyniad Tata i atal y gwaith o gynhyrchu dur sylfaenol ym Mhort Talbot i ategu'r cyllid a ddarperir gan Lywodraeth y DU***

Nid oes darpariaeth gyllidebol benodol ar gyfer yr unigolion a'r cymunedau y mae prosiect datgarboneiddio Tata Steel yn effeithio arnynt. Fodd bynnag, mae gweithgareddau cymorth 'busnes fel arfer' Llywodraeth Cymru, fel cyllideb ReACT+ gwerth £7.095m, yn darparu digon o gyllideb i reoli unrhyw alw sy'n cael ei drosglwyddo gan y rheini y mae diswyddiadau Tata Steel UK a'r gadwyn gyflenwi yn

2026-27 yn effeithio arnynt. Mae cyllideb arfaethedig £16.834m Cymunedau am Waith a Mwy, sy’n cael ei darparu drwy gyllid grant ar draws 22 awdurdod lleol Cymru ar gyfer 2026-27, yn darparu cymorth cyflogadwyedd dwys i’r bobl fwyaf difreintiedig yn y farchnad lafur o amrywiaeth o leoliadau cymunedol.

***Dyraniadau ariannol i gefnogi’r economi sylfaenol***

Mae dyraniad blynyddol o £1m ar gyfer hyrwyddo a chefnogi amcanion datganiad cenhadaeth yr Economi Sylfaenol a gafodd ei gyhoeddi ym mis Ebrill;

Mae £0.500m o’r gyllideb wedi yn mynd i BEL Busnes Cymru 3901 i brif ffrydio egwyddorion yr Economi Sylfaenol i gymorth busnes. Drwy’r gwaith hwn eleni, mae’r gweithgareddau canlynol wedi cael eu cyflawni:

- Dau Expo yn cysylltu busnesau’r economi sylfaenol â sefydliadau prynu mawr yn y sector preifat a chyhoeddus. Denodd y cyntaf a gynhaliwyd yn Abertawe bron i 900 o bobl cofrestredig a 65 o arddangoswyr, a oedd yn gynnydd o’r digwyddiad cyntaf o’i fath a gynhaliwyd y llynedd. Cynhelir Expo gogledd Cymru ar 16 Hydref.
- Pedwar digwyddiad rhanbarthol i ddatblygu gallu busnesau lleol i ymgysylltu â’r ddeddfwriaeth gaffael newydd, gan ddenu 549 o bobl.

Drwy weithgarwch prosiectau’r economi sylfaenol, rydym wedi gweithio gyda rhanddeiliaid yn y sectorau bwyd, tai a thrafnidiaeth. Mae’r ymyriadau hyn yn helpu i feithrin cadwyni cyflenwi lleol a chynnal a chreu gwaith yn lleol. Mae’r prosiectau hyn yn cynnwys:

- Parhau i ddarparu cefnogaeth i achredu contractwyr yn y sector tai;
- Ehangu prosiect Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion;
- Treialu opsiynau bar salad mewn detholiad o ysgolion uwchradd. Mae’r model hwn yn cael ei ddefnyddio ym Malmo, Sweden, ac mae’n sicrhau bod disgyblion yn bwyta'n iach ac yn cynyddu’r cynnyrch lleol a thymhorol a ddefnyddir;
- Drwy Adeiladu Arbenigrwydd Cymru, bwrw ymlaen ag amrywiaeth o fentrau i gefnogi’r economi sylfaenol, gan gynnwys hyrwyddo’r defnydd o Gyfrifon Banc Prosiectau i sicrhau bod cyflenwyr bach yn cael eu talu’n brydlon, cefnogi’r sector adeiladu i wella ei allu digidol, a darparu gwybodaeth allweddol i lywio cynlluniau gwaith yn y dyfodol;
- Adeiladu ar y prosiect llwyddiannus Cymunedau Ymarfer Bwyd a sefydlu rhwydweithiau newydd mewn sectorau allweddol eraill yr economi sylfaenol i annog arloesi ac i rannu’r hyn a ddysgwyd.

***Banc Datblygu Cymru – gan gynnwys dyraniadau i'r Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd, Cynllun Cartrefi Gwyrdd Cymru, a chymorth i fusnesau sy'n eiddo i weithwyr***

Bydd Banc Datblygu Cymru yn parhau i gynnig cyllid i fusnesau ddechrau arni a thyfu, yn unol â'n haddewid yn y Rhaglen Lywodraethu i ehangu'r defnydd o gyfalaf tymor estynedig ar ffurf buddsoddiad dyled ac ecwiti.

Mae Banc Datblygu Cymru yn cefnogi'r newidiadau sydd eu hangen i ymddygiad busnesau er mwyn cyflawni nodau sero net, gwreiddio rhinweddau sero net mewn cronfeydd presennol a gweithio gyda thrydydd partïon i ystyried atebion newydd o ran cyllid. Mae'r banc wedi treialu cynllun Cartrefi Gwyrdd Cymru gan ddefnyddio cyfalaf a ddyrannwyd drwy'r MEG Llywodraeth Leol a Thai. Mae'r cynllun yn cynnig cyllid di-log i berchen-feddianwyr sy'n gallu buddsoddi mewn systemau gwresogi carbon isel ac effeithlonrwydd ynni, ond nad oes ganddynt y cyfalaf ymlaen llaw. Mae'r cynllun yn cyflawni'r ymrwymiadau sydd wedi'u nodi yn Cymru Sero Net: Cyllideb Garbon 2 a'r camau gweithredu a nodir yn y Strategaeth Gwres i Gymru.

Mae'r banc wedi sefydlu Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd, a rhwng 2023 a Mehefin 2025 mae'r cynllun hwn wedi darparu dros £7.9 miliwn o gyllid ad-daladwy i fusnesau bach a chanolig i fuddsoddi mewn technolegau arbed ynni. Mae'r Cynllun wedi cael ei ymestyn yn ddiweddar, gan roi cyngor a chymorth i fusnesau yn ogystal â chyllid i wneud gwelliannau effeithlonrwydd ynni, gan leihau eu hallyriadau carbon.

Mae'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2026-27 yn dyrannu cyfalaf Trafodiadau Ariannol o MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio i Fanc Datblygu Cymru er mwyn i Fanc Datblygu Cymru allu parhau i wneud y canlynol:

- cynnig micro fenthyciadau i fusnesau bach, masnachwyr unigol a mentrau cymdeithasol yng Nghymru neu sy'n barod i symud i Gymru drwy Gronfa Micro Fenthyciadau Cymru
- ymestyn y Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd
- buddsoddi ym musnesau'r dyfodol drwy weithgarwch Angylion Buddsoddi busnesau, denu rhagor o fuddsoddiad gan fuddsoddwyr preifat a syndicadau, ac atal busnesau proffidiol rhag gadael Cymru drwy alluogi pryniant gan reolwyr drwy Gronfa Olyniaeth Busnes Cymru, sy'n cefnogi perchnogaeth gweithwyr o fusnesau ac sy'n cael ei hariannu ar y cyd gan Gronfa Bensiwn Clwyd

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i drafod â Thrysorlys Ei Fawrhydi ynghylch delio â'r goblygiadau cyllidebol sy'n deillio o ailddosbarthu'r banc. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn rheoli'r goblygiadau hyn o'r adnoddau presennol.

***Dyraniad ariannol i Busnes Cymru***

Dyrannwyd £22.5m yn y gyllideb hon ar gyfer gwasanaeth Busnes Cymru rhwng mis Ebrill 2026 a mis Mawrth 2027 i ddarparu gwasanaeth entrepreneuriaeth rhagweithiol a chymorth busnes i fusnesau bach a chanolig.

Nod Busnes Cymru yw ei gwneud yn haws i ficrofusnesau a busnesau bach a chanolig yng Nghymru, gan gynnwys mentrau cymdeithasol a darpar entrepreneuriaid o bob oed, gael gafael ar yr wybodaeth, y cyngor a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i ddechrau, i gynnal ac i ddatblygu eu busnesau. Mae'r gwasanaeth yn helpu entrepreneuriaid newydd, microfusnesau presennol a busnesau bach a chanolig i adeiladu busnesau mwy cydnerth a datblygu eu harferion busnes yn ogystal â gwella cynhyrchiant ac ysgogi twf busnes mewn ffordd gynhwysol a chynaliadwy, drwy fuddsoddi'n well, allforio, a chreu swyddi o ansawdd da.

Mae Busnes Cymru yn darparu un pwynt cyswllt i fusnesau ac entrepreneuriaid ar gyfer gwybodaeth fusnes, cyngor a chefnogaeth gan y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, a gellir cael mynediad ati'n ddigidol drwy http://busnescymru.llyw.cymru a sianeli cyfryngau cymdeithasol; a llinell gymorth 03000 6 03000. Mae'r gwasanaeth yn cynnig cyfuniad o gymorth ar-lein, dros y ffôn, un i lawer ac un i un i fusnesau, sydd wedi'i deilwra yn ôl anghenion y cleient a gwahanol ranbarthau Cymru, gan ddibynnu ar ofynion lleol. Mae Busnes Cymru yn chwarae rhan allweddol o ran sicrhau bod entrepreneuriaid a busnesau yn gallu llywio'r dirwedd cymorth busnes yng Nghymru i gael gafael ar y cymorth mwyaf priodol iddyn nhw.

Mae Busnes Cymru yn rhoi mynediad i entrepreneuriaid a busnesau at ystod eang o wybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd i'w helpu i ddechrau a thyfu. Mae'r cymorth yn cynnwys cyngor busnes cyffredinol; cydraddoldeb a gwaith teg; effeithlonrwydd adnoddau; masnach ryngwladol; mentora ac ecsbloetio digidol. Darperir cymorth pwrpasol hefyd i helpu busnesau i gael gafael ar fwy o gyfleoedd caffael; gwella marchnata a gwerthu; cael gafael ar gyllid; a chyngor ym maes cyflogaeth, adnoddau dynol a sgiliau.

Mae Busnes Cymru yn darparu cymorth i fusnesau drwy bum thema waith allweddol:

- Mae gwasanaethau llinell gymorth a digidol yn **Busnes Cymru** bwynt cyswllt cwbl ddwyieithog, hygyrch, sy'n cynnig ystod lawn o wybodaeth ac arweiniad i entrepreneuriaid a busnesau. Mae'n darparu gwybodaeth ac adnoddau diduedd wedi'u teilwra'n arbennig i helpu i ganfod cymorth busnes. Mae porth caffael GwerthwchiGymru yn hyrwyddo cyfleoedd i fusnesau gael gafael ar gontractau sector cyhoeddus a'u hennill.
- Mae cynllun **cefnogi entrepreneuriaid a dechrau busnes Busnes Cymru** yn ysbrydoli ac yn datblygu gallu entrepreneuriaid drwy hyrwyddo diwylliant o entrepreneuriaeth a dechrau busnes yng Nghymru. Mae'n estyn allan at bobl ifanc mewn addysg a'r rheini o dan 25 oed, oedolion sy'n ystyried dechrau eu

busnes eu hunain, ac allgymorth wedi'i dargedu ar gyfer unigolion sy'n cael eu tangynrychioli mewn busnesau newydd a chymdeithas.

- Mae **cymorth datblygu a chynghori Busnes Cymru** yn meithrin hyder a gwydnwch entrepreneuriaid a'r gymuned fusnes bresennol yng Nghymru drwy ddarparu cyngor a chymorth bwrpasol a rheoli cysylltiadau. Mae'r gwasanaeth yn darparu cyngor busnes a chymorth arbenigol i helpu busnesau i greu cyfleoedd cyflogaeth, cael gafael ar gyllid, chwilio am farchnadoedd newydd a gwella eu harferion busnes a'u cynhyrchiant. Mae cymorth arbenigol yn canolbwyntio ar wella arferion busnesau bach a chanolig o ran datgarboneiddio, cadwyni cyflenwi ac arferion cyflogaeth a gwaith teg, gan ddarparu cysylltiad â chymorth sgiliau a phrentisiaethau.
- Mae **Rhaglen Cyflymu Twf Busnes Cymru** yn darparu gwasanaethau cymorth busnes wedi'i deilwra, rheoli cysylltiadau a hyfforddiant arbenigol ar gyfer busnesau dethol cyn-refeniw a busnesau sefydledig sy'n gallu dangos y dyhead a'r potensial i sicrhau twf mawr. Mae'r cymorth yn canolbwyntio ar gyfleoedd i allforio, arloesi, gwella cynhyrchiant, cynyddu cyflogaeth, a mynediad at gyllid ac mae'n cael ei ddarparu gan hyfforddwyr a mentoriaid medrus ar y cyd â chyfres o adnoddau twf uchel deinamig ar-lein.
- Mae **Busnes Cymdeithasol Cymru** yn darparu gwasanaeth arbenigol pwrpasol a chydweithredol ar gyfer mentrau cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar gyflawni'r canlyniadau fel y'u hamlinellir yn y Weledigaeth a'r Cynllun Gweithredu deng mlynedd, "Trawsnewid Cymru drwy fentrau cymdeithasol". Mae hyn yn cynnwys cymorth busnes un i un i fusnesau cymdeithasol newydd a busnesau twf cymwys, cymorth pwrpasol ar gyfer perchnogaeth gan y gweithwyr a chymorth mentora cymheiriaid.

***Cymorth i sectorau gweithgynhyrchu allweddol fel y sector awyrofod, y sector modurol a'r sector dur***

Yn dilyn y penderfyniad i beidio ag adnewyddu llythyr cylch gwaith tymor Llywodraeth Diwydiant Cymru, a chau'r sefydliad ddiwedd fis Mawrth 26, bydd angen ystyried y costau sy'n gysylltiedig â dirwyn y sefydliad i ben a threfniadau amgen a allai gael eu rhoi ar waith i ddarparu gwasanaethau i Lywodraeth Cymru yn ôl yr angen.

Mae Bargen Twf Amddiffyn Cymru, a gyhoeddwyd yn y Strategaeth Ddiwydiannol Amddiffyn, yn rhoi mynediad at gronfa £250M i gefnogi'r sector amddiffyn presennol, yn enwedig busnesau bach a chanolig, ac i annog rhai newydd i'r gadwyn gyflenwi amddiffyn. Mae gofynion Cymru'n cael eu diffinio – efallai y bydd hyn yn gofyn am gyfraniad ymarferol neu uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru yn enwedig lle mae manteision yn cael eu teimlo y tu hwnt i'r gadwyn gyflenwi amddiffyn fel awyrofod sifil, gofod sifil a chymwysiadau modurol. Bydd angen adnoddau ychwanegol i sefydlu a rheoli Bargen Twf Amddiffyn Cymru, ac nid yw'n hysbys eto a fydd modd defnyddio cyllid rhaglenni'r Fargen i dalu'r costau hyn. Roedd y Strategaeth Ddiwydiannol

Amddiffyn hefyd yn cynnwys cyhoeddiadau ar glystyrau amddiffyn a diogelwch rhanbarthol, a chyllid ychwanegol ar gyfer colegau technegol sgiliau ac amddiffyn sy'n cael eu hystyried gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn.

Mae angen cyllid ar gyfer rhaglen digwyddiadau busnes-i-fusnes er mwyn sicrhau presenoldeb mewn digwyddiadau byd-eang allweddol, proffil uchel mewn sectorau fel ynni, modurol, awyrofod, amddiffyn, diogelwch, a'r gofod. Mae'r digwyddiadau hyn yn helpu i godi proffil Cymru yn rhyngwladol yn ogystal â darparu mecanwaith cost-effeithiol i gwmnïau unigol gynyddu eu gwerthiant domestig a rhyngwladol.

Mae bygythiadau allanol i Sector Dur y DU fel prisiau ynni, gorgapasiti byd-eang, rhwystrau masnach, a thariffau. Rydym yn cefnogi'r sector drwy weithio gyda Llywodraeth y DU, cwmnïau dur, undebau llafur a'r Cyngor Dur i sefydlu Strategaeth Dur a fydd yn ystyried y gwahanol faterion polisi a'r materion allanol sy'n wynebu'r sector yn ogystal â nodi meysydd ar gyfer buddsoddi.

Ar hyn o bryd mae Tata Steel UK (TSUK) yn symud oddi wrth gynhyrchu dur ffwrnais chwyth i gynhyrchu dur ffwrnais arc trydan glanach a gwyrddach. Dyma un o'r prosiectau trawsnewid diwydiannol mwyaf yn y DU a'r buddsoddiad mwyaf yn y diwydiant dur ers degawdau. Ei nod yw diogelu sofraniaeth dur y DU. Bydd y prosiect yn lleihau allyriadau carbon diwydiannol cyfan y Deyrnas Unedig 8% (a Phort Talbot 90%), gan osod meincnod mewn cylcholdeb drwy ddefnyddio metel sgrap y Deyrnas Unedig.

Mae'r cyfnod pontio yn dod â heriau, ond hefyd cyfleoedd i gyflenwyr lleol helpu i sicrhau'r newidiadau sydd eu hangen i sefydlu technoleg newydd. Ar ôl cwblhau'r newid, bydd y ddau gynhyrchydd dur o Gymru – sef 7 Steel UK a TSUK – yn darparu dur drwy ffwrneisi arc trydan a fydd yn cael eu bwydo â metel sgrap.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Bwrdd Pontio TSUK i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i'r gweithwyr, y teuluoedd a'r cymunedau hynny y mae'r newid yn effeithio arnynt.

***Y dyraniadau i gyflawni Croeso i Gymru: blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr 2020-25, gan gynnwys 'Cronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth Cymru' a 'Chronfa'r Pethau Pwysig'***

Mae Cronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth Cymru, sy'n werth £50m, yn gyfuniad o grantiau a benthyciadau, a reolir gan Fanc Datblygu Cymru, a fydd yn parhau i helpu i ariannu buddsoddiad cyfalaf mewn prosiectau sy'n tyfu'r sector ac sy'n cael effaith gadarnhaol ar economi Cymru.

Mae'r gronfa'n dod â chyllid masnachol a grantiau ynghyd mewn un pecyn o gymorth ariannol i ddarparu buddsoddiad cyfalaf i'r sector a bydd yn helpu i ariannu

buddsoddiad cyfalaf mewn prosiectau twristiaeth a all greu effaith gadarnhaol ar dyfu'r sector ac economi Cymru. Bydd Cronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth Cymru yn parhau i gefnogi prosiectau cyfalaf cymwys yn ystod 2026-27 a fydd yn gwella'r hyn sy'n cael ei gynnig i dwristiaid yng Nghymru drwy gefnogi ein strategaeth newydd ar gyfer y sector.

Mae cronfa'r Pethau Pwysig yn rhedeg dros ddwy flynedd, a dechreuodd y rownd bresennol yn 2025, felly bydd yn parhau ar gyfer 2026-27. Pwrpas y gronfa yw darparu gwelliannau mewn seilwaith sylfaenol ond hanfodol i ymwelwyr mewn cyrchfannau twristiaeth strategol ledled Cymru i sicrhau bod pob ymwelydd yn cael profiad cadarnhaol a chofiadwy drwy gydol pob agwedd ar eu harhosiad. Mae'r gronfa'n agored i awdurdodau lleol ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol.

Byddwn yn ystyried defnyddio ymyriadau grant bach i gynorthwyo busnesau twristiaeth preifat ledled Cymru.

Byddwn yn cyflwyno cynllun i ddatblygu seilwaith twristiaeth beicio yn 2026-27. Bydd hyn yn ein galluogi i fanteisio ar y cyfle “blwyddyn beicio” a ddaw i Gymru yn sgil y Tour de France.

### *Unrhyw ddyraniadau mewn perthynas â chynigion deddfwriaethol y rheoliadau llety ymwelwyr*

Dyrannwyd gwerth £0.2m o refeniw a gwerth £0.7m o gyfalaf fel rhan o'r gyllideb hon i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r system gofrestru, sy'n cael ei harwain gan Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) fel rhan o gynllunio'r gwaith o weithredu'r Bil Ardoll Ymwelwyr o dan Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestru ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025. Mae'r cyllid hwn yn ategu'r cyllid a ddyrannwyd i ACC yn y Prif Grŵp Gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu. Mae hyn yn parhau â'r dull a sefydlwyd fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb ddiwethaf.

Bydd y cynllun cofrestru yn sail i'r ardoll ymwelwyr a thrwyddedu llety ymwelwyr, a fydd yn cael eu hystyried gan y Senedd ar ôl cyflwyno'r Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru). Bydd cyllid yn cael ei ddyrannu i weithredu'r cynllun trwyddedu ar ôl i'r Bil fynd drwy'r Senedd.

### *Dyraniadau i bob un o'r pedair bargen ddinesig a thwf*

Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn cefnogi bargeinion dinesig a thwf. Mae'r cymorth hwn yn arwydd o'r buddsoddiad trawsnewidiol parhaus ledled Cymru i ddarparu swyddi crefftus, cynaliadwy a seilwaith, ac i gymunedau ar hyd a lled y wlad. Mae Cyllideb Ddrafft 2026-27 wedi dyrannu £22 miliwn ar gyfer y pedwar cytundeb. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi darparu £76.4 miliwn arall, gan ddod â chyfanswm y buddsoddiad arfaethedig yn 2026-27 i £98.4 miliwn ar draws y pedwar cytundeb. Mae'r cyfraniad hwn yn cynorthwyo pwyllgorau rhanbarthol i gyflawni'r

canlyniadau a'r allbynnau a nodir yng nghytundebau'r bargeinion, a'r achosion busnes portffolio perthnasol.

***Cymorth i gyflawni 'Cydweithio er budd manwerthu: cynllun gweithredu Fforwm Manwerthu Cymru'***

Nid oes unrhyw gymorth ariannol wedi'i ddyrannu yn y gyllideb hon i gyflawni'r Cynllun Gweithredu Manwerthu yn ychwanegol at amser staff Llywodraeth Cymru sy'n cael ei ddyrannu i bolisi manwerthu.

***Dyraniadau i gefnogi busnesau a gweithwyr wrth drosglwyddo i weithredu'n Sero Net, fel dyraniadau i gefnogi'r dasg o greu swyddi gwyrdd cynaliadwy, a dyraniadau a fydd yn sicrhau y bydd gan weithwyr y sgiliau angenrheidiol ar gyfer y swyddi hyn***

Mae'r **Rhaglen Sgiliau Hyblyg** yn parhau i ddarparu cyfleoedd i fusnesau fuddsoddi ynddynt eu hunain drwy uwchsgilio ac ailsgilio eu gweithwyr i gefnogi eu gallu i dyfu a ffynnu. Mae'r Rhaglen Sgiliau Hyblyg yn cynnig cymorth o 50% o gostau hyfforddi i gyflogwyr, gyda llinyn sero net penodol. Drwy'r Rhaglen Sgiliau Hyblyg, rydym yn cefnogi sgiliau mewn peirianneg, gweithgynhyrchu a chynaliadwyedd. Rydym wedi dyrannu £7.531m i'r Rhaglen Sgiliau Hyblyg ar gyfer 2026-27.

Mae **prentisiaethau**'n parhau i fod yn gonglfaen i strategaeth sgiliau Llywodraeth Cymru. Mae'r rhaglen brentisiaethau yn canolbwyntio ar y canlynol:

- sectorau sero net a STEM
- Llwybrau technegol lefel uwch
- Gradd-brentisiaethau mewn adeiladu, rheilffyrdd, digidol, a pheirianneg.

Mae dyraniad ychwanegol o £2.386m wedi cael ei ddarparu yn y gyllideb hon i gefnogi ein rhaglen brentisiaethau.

Mae **Busnes Cymru** yn darparu amrywiaeth o gyngor busnes cyffredinol, gwybodaeth a chyfeiriadau yn ogystal â meysydd arbenigol o gyngor fel effeithlonrwydd adnoddau i gefnogi busnesau. Mae Busnes Cymru yn cynnig cyngor a chefnogaeth amrywiol ar effeithlonrwydd adnoddau, rheoli cyllid, polisïau ac arferion gwyrdd, yn ogystal â gweithdai.

Mae Ymgynghorwyr Datgarboneiddio yn helpu busnesau i fabwysiadu neu wella strategaethau amgylcheddol, ac i weithio gyda busnesau i greu busnes cadarn sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon. Mae ymgynghorwyr yn darparu cyngor amrywiol fel defnyddio llai o ddeunyddiau crai i leihau'r risg o brinder deunyddiau, sbarduno arloesedd a chadernid, a helpu busnesau i gyrraedd marchnadoedd newydd.

Mae ymgyrch gweledigaeth werdd Busnes Cymru yn helpu busnesau i wella eu gwybodaeth am ddefnyddio adnoddau'n effeithlon a'u dealltwriaeth o hynny. Mae'r ymgyrch yn annog busnesau i gymryd camau i leihau eu heffaith ar newid hinsawdd, ac mae'n cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru yng nghyswllt economi sero net. Mae'r ymgyrch yn darparu cynnwys digidol hawdd ei ddefnyddio a digwyddiadau rhyngweithiol ar-lein gan gynnwys cyfres o sesiynau arbenigol.

Mae'r Addewid Twf Gwyrdd yn rhan o'r cymorth arbenigol ar gynaliadwyedd sydd ar gael drwy Busnes Cymru, ac mae'n agored i bob busnes bach a chanolig yng Nghymru ym mha bynnag sector o ddiwydiant. Mae'n ffordd ymarferol i fusnesau ddangos yr effaith gadarnhaol maen nhw'n ei chael ar y bobl a'r lleoedd o'u cwmpas, ac i ymuno â chymuned sy'n prysur gynyddu o sefydliadau blaengar. Drwy ymrwymo i'r Addewid Twf Gwyrdd, mae pob busnes yn ymrwymo i un neu fwy o gamau gweithredu i'w helpu i leihau effaith neu i sicrhau perfformiad cynaliadwy. Mae busnesau hefyd yn cael pecyn cymorth ar gyfer marchnata sydd wedi'i ddylunio'n benodol i ddarparu gwybodaeth ymarferol, canllawiau a logos i helpu i hyrwyddo'r camau maen nhw wedi'u cymryd i ddatgarboneiddio a bod yn fwy cynaliadwy.

Adran costau gwneud busnes ar wefan Busnes Cymru, er mwyn dod â chynnwys ac adnoddau at ei gilydd i helpu busnesau i leihau eu defnydd o adnoddau a chostau. Mae'r adran hon yn ganolbwynt ar gyfer unrhyw gyngor a chefnogaeth i fusnesau yn y dyfodol.

Mae **Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd Banc Datblygu Cymru** yn cynnig cyfraddau llog gostyngol a chyfalaf tymor estynedig i gefnogi busnesau sy'n ymgymryd â phrosiectau effeithlonrwydd ynni a datgarboneiddio. Mae'n cynnig cyllid o £1,000 hyd at £1.5m. Mae'r Cynllun hefyd yn darparu mynediad at gymorth ymgynghori wedi'i ariannu'n llawn ac yn rhannol i gynnal archwiliadau ynni sy'n benodol i fusnes.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu canllawiau datgarboneiddio busnes sy'n rhoi trosolwg o'r strategaeth, y polisi a'r cyllid ar gyfer datgarboneiddio busnes yng Nghymru. Mae adnoddau sy'n ymwneud â Thechnoleg Dal Carbon a Dulliau Rheoli Tir ar gyfer Sero Net ar gael ar wefan Cyswllt Ffermio.

Mae rhaglenni SMART Cymru yn darparu cyllid a chyngor arbenigol i fusnesau er mwyn iddynt ddatblygu cynnyrch a phrosesau newydd sy'n arwain at ddatgarboneiddio. Mae gan y rhaglenni fynediad at amrywiaeth eang o fecanweithiau cyllid ar gyfer Ymchwil a Datblygu a gwella prosesau, ac maent yn cyflogi tîm o ymgynghorwyr dylunio a gweithgynhyrchu. Dylai unrhyw fusnes sy'n chwilio am gymorth ar gyfer Ymchwil a Datblygu sy'n ymwneud â datgarboneiddio yng Nghymru ddechrau drwy gysylltu â'u Harbenigwr Arloesi lleol.

Mae'r Contract Economaidd yn mynnu bod busnesau sy'n gofyn am fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru yn dangos pob un o'r canlynol fel gofyniad sylfaenol:

- Potensial i ddatblygu (sy’n cael ei fesur, er enghraifft, yn ôl cyfraniad at gyflogaeth, cynhyrchiant, neu effeithiau lluosydd drwy’r gadwyn gyflenwi).
- Gwaith teg (fel y mae’n cael ei ddiffinio gan y Bwrdd Gwaith Teg).
- Hybu iechyd, gan gynnwys pwyslais arbennig ar iechyd meddwl, sgiliau a dysgu yn y gweithle.
- Cynnydd o ran lleihau ôl troed carbon.

## Ymchwil, Datblygu ac Arloesi

***Manylion unrhyw gyllid yn ystod 2026-27 a fwriedir i ariannu pum blaenoriaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ymchwil, datblygu ac arloesi yng Nghymru; gan gynnwys unrhyw gyllid sy’n ceisio sicrhau bod gan Gymru gyfran deg o’r cyllid ymchwil, datblygu ac arloesi sydd ar gael, gan gynnwys unrhyw gyllid yn lle cyllid yr UE***

Mae’r pum blaenoriaeth yn dyddio’n ôl i 2021 ac maent wedi cael eu disodli gan Cymru’n Arloesi, sef ein strategaeth arloesi. Er nad oes cyllideb wedi'i neilltuo ar gyfer cynyddu cyfran Cymru o'r ymchwil, datblygu ac arloesi sydd ar gael ar lefel y DU ac Ewrop, bydd pob ymyriad yn ystyried y mesur hwn. Mae'r Strategaeth sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Cyflenwi yn nodi targedau a cherrig milltir ar gyfer y gweithgarwch hwn.

***Manylion unrhyw gyllid yn ystod 2026-27 y bwriedir iddo ariannu Strategaeth Arloesi Cymru***

Fel uchod, bydd yr holl ymyriadau cyllido Arloesi yn cael eu hystyried ar sail eu perthnasedd a’u heffeithiolrwydd o ran cyfrannu at y pedair Cenhadaeth a amlygwyd yn y Strategaeth.

***Manylion y cyllid ar gyfer ymchwil ac arloesi ar draws Llywodraeth Cymru.***

Dyrannwyd £10m o gyfalaf ar gyfer ymchwil ac arloesi yn BEL Arloesi ar gyfer Busnes 3742. Mae adrannau eraill yn Llywodraeth Cymru hefyd yn dyrannu cyllid ar gyfer ymchwil, datblygu ac arloesi naill ai fel rhan o gyllidebau wedi’u neilltuo neu ar sail ad hoc. Yn 2024, nododd Arolwg Ymchwil a Datblygu’r Llywodraeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol mai ffigurau diweddaraf ar gyfer gwariant Llywodraeth Cymru ar ymchwil a datblygu yn 2022 oedd £44m, i fyny o £36m yn 2021.

## Masnach

***Manylion gweithredu trefniadau a rhwymedigaethau newydd o dan Gytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU-UE***

Mae fy swyddogion yn y tîm Polisi Masnach yn arwain y gwaith sy'n ymwneud â Chytundeb Masnach a Chydweithredu y DU a'r UE yn Llywodraeth Cymru. Arweiniodd Uwchgynhadledd y DU-UE ym mis Mai 2025 at gytuno ar y 'Dealltwriaeth Gyffredin' a chyfres o elfennau negodi sylweddol newydd i wella ein perthynas â'r UE. Mae'r tîm yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar weithredu'r cytundeb presennol, fel ein presenoldeb ym mhwyllgorau'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu a chydlynu'r gwaith ymgysylltu ar gyfer y trafodaethau newydd mewn meysydd fel polisi Iechydol a Ffytoiechydol. Mae cyngor hefyd yn cael ei ddarparu ar draws y sefydliad i sicrhau ein bod yn cyflawni ein rhwymedigaethau o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Mae Tîm Allforio Llywodraeth Cymru yn cefnogi busnesau sy'n allforio i'r UE ar hyn o bryd neu sy'n bwriadu allforio i'r UE. Mae'r tîm Polisi Masnach yn rhoi cyngor i gydweithwyr ar allforio o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu pan fo angen. Mae'r gwaith hwn yn cael ei gyflawni gan adnoddau staff presennol.

***Manylion gweithredu cytundebau masnach y DU ar ôl Brexit, gan gynnwys deddfwriaeth berthnasol***

Mae fy swyddogion yn arwain y gwaith o ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar negodi Cytundebau Masnach Rydd newydd ac yn cydlynu'r gwaith o roi'r cytundebau hyn ar waith yng Nghymru. Hyd yma, mae Llywodraeth y DU wedi defnyddio deddfwriaeth sylfaenol i roi'r cytundebau newydd ar waith, ar ffurf Deddf Masnach (2021), Deddf Masnach (Awstralia a Seland Newydd) (2023) a Deddf Masnach (Cytundeb Partneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel) (2024). Roedd y ddwy ddeddf gyntaf yn creu pwerau cydredol i wneud y newidiadau sydd eu hangen i roi'r bargeinion hyn ar waith mewn meysydd datganoledig, roedd y darpariaethau olaf yn cynnwys darpariaethau i wneud y newidiadau hyn yn uniongyrchol (cydsyniodd y Senedd yn rhannol i'r rhain).

Nid ydym yn credu y bydd angen deddfwriaeth sylfaenol i weithredu'r Cytundebau Masnach Rydd a lofnodwyd yn fwyaf diweddar (UK India), gydag is-ddeddfwriaeth yn cael ei defnyddio yn lle hynny i wneud newidiadau perthnasol. Yn yr un modd â gwaith ar y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, mae fy swyddogion hefyd yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar weithredu'r cytundebau a'n presenoldeb mewn pwyllgorau ac yn gweithio gyda thimau sy'n ymwneud â busnesau i sicrhau y gall busnesau sy'n allforio i'r marchnadoedd hyn elwa o'r bargeinion hyn os ydynt yn dymuno. Yr adnodd staff presennol yn y tîm sy'n rheoli hyn.

***Y dyraniadau ariannol i gyflawni 'Cynllun Gweithredu Allforio i Gymru' sef Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru, i gynnwys goblygiadau a fydd yn dod i'r amlwg ar ôl cyhoeddi'r Cynllun Cyflawni Rhyngwladol ym mis Ebrill 2025***

Rydym wedi dyrannu £3.752m fel rhan o'r gyllideb hon ar gyfer Allforio, Masnach a Mewnfuddsoddi. Mae'r gyllideb hon yn cynnwys £3.572m i gyflawni Cynllun Gweithredu Allforio Cymru a £0.180m i gefnogi ein hymdrechion i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan ar gyfer mewnfuddsoddi.

Mae'r Cynllun Cyflawni Rhyngwladol yn ailadrodd yr ymrwymiadau yn y Strategaeth Ryngwladol a'r Cynllun Gweithredu Allforio i dyfu'r economi drwy gynyddu allforion a denu mewnfuddsoddiad. Nid yw'n gosod unrhyw oblygiadau uniongyrchol ar gyllidebau presennol.

***Manylion dyraniadau i ddenu mewnfuddsoddiad i Gymru***

Bydd yr £3.572m o gyllid a ddyrannwyd i gyflawni'r Cynllun Gweithredu Allforio yn 2026-27 yn sicrhau bod gennym amrywiaeth o raglenni allforio i helpu busnesau ar eu taith allforio – o ysbrydoli busnesau i allforio; meithrin y gallu i allforio; dod o hyd i gwsmeriaid tramor; a chyrraedd marchnadoedd tramor. Mae'r dirwedd fasnachu fyd-eang a materion geowleidyddol ehangach yn dal i effeithio ar fasnach ryngwladol. Mae'r ystadegau allforio dros dro diweddaraf yn dangos mai gwerth allforion nwyddau Cymru yw £17.1bn yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2025, £1.5bn (8.2%) yn is na'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2024. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd darparu cymorth cynhwysfawr i fusnesau Cymru i ddatblygu er mwyn sbarduno twf yn allforion Cymru.

Mae'r £0.180m o gyllid a ddyrannwyd i gyflawni gweithgarwch i hyrwyddo Cymru fel lleoliad ar gyfer mewnfuddsoddi yn sicrhau y gallwn barhau i hyrwyddo sectorau lle mae gan Gymru alluoedd cydnabyddedig a photensial twf ar y llwyfan byd-eang.

# Atodiadau

## Atodiad A – Llinellau Gwariant y Gyllideb – Prif Grŵp Gwariant yr Economi, Ynni a Chynllunio

| Llinell Wariant yn y Gyllideb (Refeniw) | | Cynlluniau yn unol â 2025-26 Cyllideb Derfynol Wedi ailddatgan Chwefror 2025 | Addasiadau i'r Llinell Sylfaen ar gyfer 2026-27 | 2026-27 Llinell Sylfaen Ddiwygiedig | Newidiadau | 2026-27 Cyllideb Ddrafft Hydref 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Datblygiad Economaidd Rhanbarthol a Busnes | | 5,394 | 28 | 5,422 | 9 | 5,431 |
| Datblygu Economaidd Rhanbarthol a Busnes – Nad yw'n arian parod | | 700 | 0 | 700 | 0 | 700 |
| Busnes Cymru | | 22437 | 36 | 22,473 | 40 | 22,513 |
| Y Cymoedd Technoleg | | 1,760 | 2 | 1,762 | 0 | 1,762 |
| Tasglu'r Cymoedd | | 102 | 2 | 104 | 0 | 104 |
| Allforio, Masnach a Mewnfuddsoddi | | 3,752 | 1 | 3,753 | 0 | 3,753 |
| **Cam Gweithredu:** | **Busnes Cymru / Entrepreneuriaeth ac Economi Ranbarthol** | **34,145** | **69** | **34,214** | **49** | **34,263** |
| Cronfeydd Cyllid Busnes | | 0 | 312 | 312 | 51 | 363 |
| Cronfeydd Cyllid Busnes - nad yw'n arian parod | | 1,500 | 0 | 1,500 | 0 | 1,500 |
| **Cam Gweithredu:** | **Cyfanswm Banc Datblygu Cymru** | **1,500** | **312** | **1,812** | **51** | **1,863** |
| Seilwaith Eiddo | | 2,268 | 0 | 2,268 | 0 | 2,268 |
| Seilwaith Eiddo – nad yw'n arian parod | | 13,600 | 0 | 13,600 | 0 | 13,600 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus | 12,506 | 11 | 12,517 | 1 | 12,518 |
| Gweithrediadau Seilwaith TGCh | 868 | 0 | 868 | 0 | 868 |
| Gweithrediadau Seilwaith TGCh - Nad yw'n arian parod | 2,324 | 0 | 2,324 | 0 | 2,324 |
| **Cam Gweithredu: Datblygu Seilwaith Economaidd** | **31,566** | **11** | **31,577** | **1** | **31,578** |
| Strategaeth Ddigidol i Gymru | 4,436 | 2,556 | 6,992 | 83 | 7,075 |
| **Cam Gweithredu: Cyfanswm Cyflawni'r Strategaeth Ddigidol** | **4,436** | **2,556** | **6,992** | **83** | **7,075** |
| Cymru Iach ar Waith | 100 | 0 | 100 | 0 | 100 |
| Gwasanaethau a Rhaglenni Corfforaethol | 513 | 1 | 514 | 1 | 515 |
| Digwyddiadau Busnes Strategol a Chyfathrebu | 65 | 0 | 65 | 0 | 65 |
| **Cam Gweithredu: Rhaglenni Corfforaethol** | **678** | **1** | **679** | 1 | **680** |
| Prentisiaethau | 143902 | 4 | 143,906 | 2,386 | 146,292 |
| **Cam Gweithredu: Prentisiaethau** | **143902** | **4** | **143,906** | **2,386** | **146,292** |
| Cyflogadwyedd – Gan gynnwys y Warant i Bobl Ifanc | 109,857 | 800 | 110,657 | 2,683 | 113,340 |
| Cyflogadwyedd Gan gynnwys y Warant i Bobl Ifanc - Nad yw'n arian parod | 2,330 | 0 | 2,330 | 0 | 2,330 |
| **Cam Gweithredu: Cyflogadwyedd – Gan gynnwys y Warant i Bobl Ifanc** | **112,187** | **800** | **112,987** | **2,683** | **115,670** |
| Arloesi ym myd Busnes | 309 | 48 | 357 | 5 | 362 |
| **Cam Gweithredu: Arloesi** | **309** | **48** | **357** | **5** | **362** |
| Gwyddoniaeth | 938 | 4 | 942 | 1 | 943 |
| **Cam Gweithredu: Gwyddoniaeth** | **938** | **4** | **942** | **1** | **943** |
| Twristiaeth | 9,141 | 19 | 9,160 | 2 | 9,162 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Twristiaeth – Nad yw'n arian parod | | 20 | 0 | 20 | 0 | 20 |
| Digwyddiadau Cymru | | 5,169 | 5 | 5,174 | 1,708 | 6,882 |
| Cymru Greadigol | | 7,008 | 1 | 7,009 | 1,400 | 8,409 |
| Cymru Greadigol – Nad yw'n arian parod | | 10 | 0 | 10 | 0 | 10 |
| **Cam Gweithredu:** | **Hyrwyddo a Diogelu Lle Cymru yn y Byd** | **21,348** | **25** | **21,373** | **3,110** | **24,483** |
| Cymorth i Raglenni | | 1,761 | 17 | 1,778 | 2 | 1,780 |
| **Cam Gweithredu:** | **Rheoli Cyllid Ewropeaidd** | **1,761** | **17** | **1,778** | **2** | **1,780** |
| Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd | | -3,000 | 0 | -3,000 | 0 | -3,000 |
| **Cam Gweithredu:** | **Cyfanswm Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd** | **-3,000** | **0** | **-3,000** | **0** | **-3,000** |
| *ENW NEWYDD LLINELL WARIANT YN Y GYLLIDEB* Trwyddedu Llety Ymwelwyr | | 200 | 0 | 200 | 0 | 200 |
| **Cam Gweithredu:** | Trwyddedu Llety Ymwelwyr | **200** | **0** | **200** | **0** | **200** |
| Ynni Gwyrdd | | 8,457 | 33 | 8,490 | 33 | 8,523 |
| Ynni Cymru | | 2,470 | 0 | 2,470 | 0 | 2,470 |
| **Cam Gweithredu:** | **Effeithlonrwydd Ynni** | **10,927** | **33** | **10,960** | **33** | **10,993** |
| Partneriaethau Cymdeithasol | | 900 | 8 | 908 | 11 | 919 |
| **Cam Gweithredu:** | **Partneriaeth Gymdeithasol** | **900** | **8** | **908** | **11** | **919** |
| Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru | | 4,968 | 86 | 5,054 | 92 | 5,146 |
| Gwariant Cynllunio a Rheoleiddio | | 3,846 | 14 | 3,860 | 13 | 3,873 |
| **Cam Gweithredu:** | **Cynllunio a Rheoleiddio** | **8,814** | **100** | **8,914** | **105** | **9,019** |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | | 33,314 | 153 | 33,467 | 55 | 33,522 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Celfyddydau Cymru – Nad yw’n arian parod | | 119 | 0 | 119 | 0 | 119 |
| Amgueddfa Cymru | | 27,222 | 756 | 27,978 | 526 | 28,504 |
| Amgueddfa Cymru – Nad yw'n arian parod | | 3,300 | 0 | 3,300 | 0 | 3,300 |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru | | 11,862 | 240 | 12,102 | 262 | 12,364 |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru – Nad yw’n arian parod | | 2,368 | 0 | 2,368 | 0 | 2,368 |
| Cymorth i Ddiwylliant a Chwaraeon Lleol | | 8,135 | 1,777 | 9,912 | 24 | 9,936 |
| **Cam Gweithredu:** | **Cymorth i Ddiwylliant a’r Celfyddydau** | **86,320** | **2,926** | **89,246** | **867** | **90,113** |
| Cadw | | 9,501 | 7,633 | 17,134 | 348 | 17,482 |
| Cadw – Nad yw'n arian parod | | 5,480 | 0 | 5,480 | 0 | 5,480 |
| Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru | | 587 | 0 | 587 | 0 | 587 |
| Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru | | 1,773 | 42 | 1,815 | 43 | 1,858 |
| Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru - Nad yw'n arian parod | | 134 | 0 | 134 | 0 | 134 |
| **Cam Gweithredu:** | **Cymorth i’r Amgylchedd Hanesyddol** | **17,475** | **7,675** | **25,150** | **391** | **25,541** |
| Chwaraeon Cymru | | 23,065 | 123 | 23,188 | 51 | 23,239 |
| Chwaraeon Cymru – Nad yw'n arian parod | | 779 | 0 | 779 | 0 | 779 |
| **Cam Gweithredu:** | **Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol** | **23,844** | **123** | **23,967** | **51** | **24,018** |
| **MEG:** | **YR ECONOMI, YNNI A CHYNLLUNIO** | **498,250** | **14,712** | **512,962** | **9,830** | **522,792** |

| Llinell Wariant yn y Gyllideb (Cyfalaf) | | Cynlluniau yn unol â 2025-26 Cyllideb Derfynol Wedi ailddatgan Chwefror 2025 | Addasiadau i'r Llinell Sylfaen ar gyfer 2026-27 | 2026-27 Llinell Sylfaen Ddiwygiedig | Newidiadau | 2026-27 Cyllideb Ddrafft Hydref 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Datblygiad Economaidd Rhanbarthol a Busnes | | 56,650 | -30,000 | 26,650 | 30,400 | 57,050 |
| Datblygiad Economaidd Rhanbarthol a Busnes – Ad-daliad | | -1,157 | 1,157 | 0 | -1,236 | -1,236 |
| Y Cymoedd Technoleg | | 5,000 | 0 | 5,000 | 0 | 5,000 |
| **Cam Gweithredu:** | **Busnes Cymru / Entrepreneuriaeth ac Economi Ranbarthol** | **60,493** | **-28,843** | **31,650** | **29,164** | **60,814** |
| Cronfeydd Cyllid Busnes | | 9,500 | -9,500 | 0 | 9,690 | 9,690 |
| Cronfeydd Cyllid Busnes – Ad-daliad | | -11,000 | 11,000 | 0 | 0 | 0 |
| **Cam Gweithredu:** | **Banc Datblygu Cymru** | **-1,500** | **1,500** | **0** | **9,690** | **9,690** |
| Seilwaith Eiddo | | 33,379 | 0 | 33,379 | 1,450 | 34,829 |
| Seilwaith Eiddo – Ad-daliad | | -365 | 365 | 0 | -370 | -370 |
| Gweithrediadau Seilwaith TGCh | | 20,000 | 0 | 20,000 | 0 | 20,000 |
| **Cam Gweithredu:** | **Datblygu Seilwaith Economaidd** | **53,014** | **365** | **53,379** | **1,080** | **54,459** |
| Cyflogadwyedd – Gan gynnwys y Warant i Bobl Ifanc | | 2,000 | 0 | 2,000 | 0 | 2,000 |
| **Cam Gweithredu:** | **Cyflogadwyedd – Gan gynnwys y Warant i Bobl Ifanc** | **2,000** | **0** | **2,000** | **0** | **2,000** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Arloesi ym myd Busnes | | 10,000 | 0 | 10,000 | 0 | 10,000 |
| **Cam Gweithredu:** | **Arloesi** | **10,000** | **0** | **10,000** | **0** | **10,000** |
| Gwyddoniaeth | | 5,000 | 0 | 5,000 | 0 | 5,000 |
| **Cam Gweithredu:** | **Gwyddoniaeth** | **5,000** | **0** | **5,000** | **0** | **5,000** |
| Twristiaeth | | 6,500 | -500 | 6,000 | 500 | 6,500 |
| Creadigol | | 7,000 | 0 | 7,000 | 500 | 7,500 |
| **Cam Gweithredu:** | **Hyrwyddo a Diogelu Lle Cymru yn y Byd** | **13,500** | **-500** | **13,000** | **1,000** | **14,000** |
| Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd | | 1,783 | 0 | 1,783 | 0 | 1,783 |
| **Cam Gweithredu:** | **Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd** | **1,783** | **0** | **1,783** | **0** | **1,783** |
| Trwyddedu Llety Ymwelwyr | | 700 | 0 | 700 | 0 | 700 |
| **Cam Gweithredu:** | Trwyddedu Llety Ymwelwyr | **700** | **0** | **700** | **0** | **700** |
| Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf | | 110,477 | -88,477 | 22,000 | 76,375 | 98,375 |
| **Cam Gweithredu:** | **Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf** | **110,477** | **-88,477** | **22,000** | **76,375** | **98,375** |
| Ynni Gwyrdd | | 12,400 | 0 | 12,400 | 0 | 12,400 |
| Ynni Cymru | | 10,000 | 0 | 10,000 | 0 | 10,000 |
| **Cam Gweithredu:** | **Effeithlonrwydd Ynni** | **22,400** | **0** | **22,400** | **0** | **22,400** |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | | 400 | 0 | 400 | 500 | 900 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Amgueddfa Cymru | | 5,000 | 0 | 5,000 | 500 | 5,500 |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru | | 2,000 | 0 | 2,000 | 250 | 2,250 |
| Cymorth i Ddiwylliant a Chwaraeon Lleol | | 32,800 | 0 | 32,800 | 0 | 32,800 |
| **Cam Gweithredu:** | **Cymorth i Ddiwylliant a’r Celfyddydau** | **40,200** | **0** | **40,200** | **1,250** | **41,450** |
| Cadw | | 16,321 | -7,352 | 8,969 | 227 | 9,196 |
| Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru | | 200 | 0 | 200 | 0 | 200 |
| Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru | | 50 | 0 | 50 | 0 | 50 |
| **Cam Gweithredu:** | **Cymorth i’r Amgylchedd Hanesyddol** | **16,571** | **-7,352** | **9,219** | **227** | **9,446** |
| Chwaraeon Cymru | | 10,016 | 0 | 10,016 | 500 | 10,516 |
| Cynllun Benthyciadau Cyfalaf Chwaraeon | | -500 | 500 | 0 | -1000 | -1000 |
| **Cam Gweithredu:** | **Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol** | **9,516** | **500** | **10,016** | **-500** | **9,516** |
| **MEG:** | **YR ECONOMI, YNNI A CHYNLLUNIO** | **344,154** | **-122,807** | **221,347** | **118,286** | **339,633** |

## Atodiad B – Sylwadau ar Gamau Gweithredu – MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio[1]

### **Adnoddau**

***Cam Gweithredu Busnes Cymru / Entrepreneuriaeth ac Economi Ranbarthol***

Cyfanswm y cyllid ar gyfer y Cam Gweithredu ar gyfer 2026-27 yw £34.263m. Bu addasiad cadarnhaol i'r llinell sylfaen o £0.069m sy'n ymwneud â dyfarniad cyflog y sector cyhoeddus yn 2025-26 a chynnydd mewn cyfraniadau yswiriant gwladol. Mae cynnydd pellach o £0.049m wedi'i ddarparu yn 2026-27 fel cymorth ychwanegol i adlewyrchu rhagolwg twf cyflog y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o 2.2% ac i gynorthwyo â'r cynnydd yng nghostau cyfraniadau yswiriant gwladol.

BEL Busnes a Datblygiad Economaidd Rhanbarthol

- Mae'r cyllid yn y BEL hwn yn cefnogi partneriaethau, gwaith ymgysylltu a mentrau i ddatblygu uchelgeisiau'r Genhadaeth Economaidd, Y Genhadaeth, a chyflogadwyedd ar gyfer twf cynhwysol ac adeiladu'r economi i fod yn gynaliadwy yn y tymor hir.

BEL Busnes Cymru

- Mae'r gyllideb yn cefnogi entrepreneuriaeth ieuenctid a'r warant i bobl ifanc, busnesau newydd, microfusnesau, busnesau bach a chanolig, hyrwyddwyr anabledd, mentrau cymdeithasol ac arferion busnes cyfrifol. Mae'r gwasanaethau'n cefnogi'r rheini sydd â rhwystrau cudd a bydd cymorth wedi'i dargedu yn parhau i gael ei ddarparu i gefnogi'r unigolion hynny, fel entrepreneuriaid benywaidd ac ifanc a grwpiau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol.
- Mae'r gyllideb hefyd yn cynnwys darparu £1m ar gyfer yr economi sylfaenol, gan alluogi swyddi wrth galon cymunedau lleol ar draws sectorau fel gofal a gwasanaethau iechyd; bwyd; tai; ynni; twristiaeth; adeiladu a manwerthu.

BEL Y Cymoedd Technoleg

- Mae'r Cymoedd Technoleg yn ymrwymiad gan y Rhaglen Lywodraethu dros ddeng mlynedd (hyd at 2028) i greu 1,500 o swyddi cynaliadwy, cynyddu cyflogau wythnosol cyfartalog a gwerth ychwanegol gros sy'n canolbwyntio ar

1 Camau gweithredu: Mae Cyflogaeth a Sgiliau, Prentisiaethau, Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd, Effeithlonrwydd Ynni, Partneriaeth Gymdeithasol, Cymorth i'r Diwylliant a'r Celfyddydau, Cymorth i'r Amgylchedd Hanesyddol, Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol i gyd yn cael sylw o dan bapurau tystiolaeth eraill a ddarperir i Bwyllgorau perthnasol.

Flaenau Gwent, drwy fanteisio ar gyfleoedd sy’n deillio o’r pedwerydd chwyldro diwydiannol, annog mabwysiadu technolegau digidol, a datblygu technolegau datblygedig gwerth uchel sy’n cefnogi diwydiannau arloesol fel 5G, technoleg batris, ac ymchwil i gerbydau modurol. Mae effaith y buddsoddiad hwn yn cyrraedd holl ardaloedd Cymoedd y De.

BEL Tasglu'r Cymoedd

- Mae’r cyllid yn cynnal cyllideb refeniw flynyddol o £0.1m i helpu’r rhaglen gyfalaf i gyflawni rhaglen Ein Cymoedd, Ein Dyfodol.

BEL Allforio, Masnach a Mewnfuddsoddi

- Mae’n galluogi cyflawni Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Allforio, i sicrhau twf tymor hir yn allforion Cymru; a, gweithgareddau i gefnogi hybu Cymru fel lleoliad ar gyfer mewnfuddsoddi.

***Cam Gweithredu Banc Datblygu Cymru***

BEL Cronfeydd Cyllid Busnes

- Dyrannwyd cyllid ychwanegol o £0.051m o'i gymharu â llinell sylfaen ddiwygiedig 2026-27 yn y gyllideb hon i gynorthwyo â’r cynnydd mewn costau cyfraniadau Yswiriant Gwladol. Bu addasiad sylfaenol hefyd ar gyfer 2026-27 o £0.312m i gynorthwyo â chostau cyfraniadau Yswiriant Gwladol 2025-26.

BEL Cronfeydd Cyllid Busnes - nad yw'n arian parod

- Mae’r BEL nad yw’n arian parod yn aros ar £1.5m yn 2026-27 ar gyfer costau dibrisiant ac amorteiddiad (£1m) a £0.5m arall ar gyfer dibrisiant asedau ar brydles ar gyfer lesoedd y rhoddir cyfrif amdanynt o dan IFRS16.

***Cam Gweithredu Datblygu Seilwaith Economaidd***

Bu cynnydd bach iawn o £0.001m yn y Cam Gweithredu o’i gymharu â llinell sylfaen ddiwygiedig 2026-27. Mae’r cynnydd o ganlyniad i gymorth pellach i dalu am y cynnydd yng nghostau cyfraniadau Yswiriant Gwladol. Yn ogystal, bu addasiad sylfaenol o £0.011m oherwydd y gwahaniaeth yng nghodiad cyflog y sector cyhoeddus 2025-26 a chynnydd mewn cyfraniadau yswiriant gwladol.

BEL Seilwaith Eiddo

- Mae'r cyllid yn y BEL hwn yn cefnogi'r gwaith o gyflenwi safleoedd ac adeiladau cyflogaeth er mwyn diwallu anghenion busnesau a sicrhau mantais gystadleuol o ran denu, cadw a datblygu busnesau yng Nghymru. Mae'r gyllideb refeniw yn sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn cyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol a statudol fel landlordiaid a pherchnogion tir wrth reoli'r portffolio eiddo datblygu economaidd, gan gynnwys rheoli Sain Tathan. Ategir y gyllideb gan incwm arall, yn bennaf derbyniadau rhent ac elw o waredu tir ac adeiladau.

BEL Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus

- Mae'r cyllid yn y BEL hwn ar gyfer Contract Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus sy'n sail i'r gwasanaeth cysylltedd digidol a ddefnyddir gan dros 120 o sefydliadau yn y sector cyhoeddus ar draws Cymru. Mae gan y gwasanaeth rhwydwaith Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus, sy'n hollbwysig i fusnesau, dros 5,000 o gysylltiadau ac fe'i sefydlwyd yn 2007.

BEL Gweithrediadau Seilwaith TGCh

- Mae'r cyllid yn y BEL hwn yn cefnogi'r gwaith o ddarparu Seilwaith Digidol ar draws Cymru.  Mae'r gyllideb refeniw hefyd yn sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn gallu adolygu a monitro penderfyniadau polisi Digidol a wneir gan Lywodraeth y DU, i sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu diogelu.

BEL Gweithrediadau Seilwaith TGCh - Nad yw'n arian parod

- Mae'r cyllid yn y BEL hwn ar gyfer taliadau dibrisiant rhwydwaith Fibrespeed sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru yng Ngogledd Cymru.

***Cyflawni'r Strategaeth Weithredu Ddigidol***

Mae nifer o addasiadau sylfaenol wedi cael eu gwneud i'r Cam Gweithredu hwn fel rhan o gyllideb 2026-27. Bu cynnydd o £0.056m i gefnogi dyfarniad cyflog y sector cyhoeddus ar gyfer 2025-26 a chynnydd yng nghostau cyfraniadau yswiriant gwladol. Ar ben hynny, bu cynnydd o £2.5m i gefnogi ein hymrwymiad i ddeallusrwydd artiffisial. Dyrannwyd £0.083m ychwanegol yn 2026-27 o'i gymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig i adlewyrchu rhagolwg twf cyflogau'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o 2.2% ar gyfer 2026-27

BEL Strategaeth Ddigidol i Gymru

- Mae'r cyllid yn y BEL hon yn ymwneud â chyflawni gweithgarwch i gefnogi Cenhadaeth 1 y Strategaeth Ddigidol i Gymru, gan gynnwys – hyd at 2025-26 – y gyllideb ar gyfer gweithgareddau sy'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd gan y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol. Mae hyn yn cynnwys gwella gallu digidol ar draws y sector cyhoeddus, darparu safonau ac arweiniad a gweithio gyda sefydliadau eraill i gyflawni trawsnewid digidol.
- Cefnogi swyddogaethau trosglwyddo'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol i Lywodraeth Cymru gyda'r nod o hyn ddod i rym erbyn 1 Ebrill 2026. Bydd y gweithgarwch uchod yn parhau o fewn Llywodraeth Cymru.
- Mae £2.5m o'r BEL hon yn ymwneud â buddsoddiad newydd mewn arweinyddiaeth deallusrwydd artiffisial ar gyfer y sector cyhoeddus, gan gynnwys y Swyddfa Deallusrwydd Artiffisial newydd a chronfa gyflawni i gynorthwyo'r sector cyhoeddus i ddefnyddio deallusrwydd artiffisial.

***Cam Gweithredu Rhaglenni Corfforaethol***

Bu addasiad bach yn y llinell sylfaen o £0.001m i'r Cam Gweithredu hwn yn 2026-27 i gynorthwyo â'r dyfarniad cyflog ar gyfer 2025-26. Ar ben hynny, mae cynnydd pellach o £0.001m wedi cael ei ychwanegu o'i gymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig i gynorthwyo â chynnydd o 2.2% a ragwelir yng nghyflogau'r sector cyhoeddus. Mae cyfanswm y cyllid ar gyfer y Cam Gweithredu yn parhau ar £0.680m ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27.

BEL Cymru Iach ar Waith

- Mae cyllideb Cymru Iach ar Waith yn darparu'r rhaglen genedlaethol sy'n cefnogi cyflogwyr i greu gweithleoedd a gwaith iachach er budd eu gweithwyr a'r gymuned ehangach. Mae Doeth am Iechyd Cymru yn cael ei ariannu ar y cyd gan y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Grŵp Gwariant yr Economi, Ynni a Chynllunio. Mae swyddogion o'r ddwy adran yn gweithio'n agos i fanteisio i'r eithaf ar fanteision iechyd ac economaidd y rhaglen. Mae £0.100m wedi cael ei gynnal yn 2026-27 i gefnogi'r gweithgarwch hwn.

BEL Gwasanaethau a Rhaglenni Corfforaethol

- Mae cyllideb flynyddol Rhaglenni Corfforaethol yn bennaf yn cyllido'r System Cyfrifon Busnes, a oedd yn hanfodol yn ystod y pandemig er mwyn i Lywodraeth Cymru allu prosesu grantiau'r Gronfa Cadernid Economaidd. Mae'r gyllideb hefyd yn cynnwys darpariaeth fach ar gyfer gwerthusiadau. Y gyllideb ar gyfer 2026-27 yw £0.515m, sy'n gynnydd bach o linell sylfaen 2025-26.

BEL Digwyddiadau Busnes Strategol a Chyfathrebu

- Mae'r gyllideb Cyfathrebu o £0.065m bob blwyddyn yn cefnogi digwyddiadau busnes ac ymgysylltu strategol.

***Cam Gweithredu Arloesi***

£0.362m yw'r gyllideb ar gyfer y cam gweithredu yn 2026-27. Bu addasiad o £0.048m i'r llinell sylfaen o'i gymharu â chyllideb derfynol 2025-26 (Chwefror 2025) er mwyn ariannu dyfarniad cyflog y sector cyhoeddus. Cafwyd dyraniad ychwanegol yn y gyllideb hon o £0.005m i gynorthwyo â'r cynnydd yng nghostau cyfraniadau yswiriant gwladol.

BEL Arloesi ar gyfer Busnes

- Mae'r BEL yn ariannu'r cymorth ariannol ar gyfer cynlluniau Ymchwil, Datblygu ac Arloesi, gan gynnwys y cynllun Cymorth Arloesi Hyblyg SMART, cynllun y Fenter Ymchwil Busnesau Bach (SBRI) a'r Rhaglen Cefnogi Arloesedd ac Ymchwil Gydweithredol (CRISP). Dyma ein blaenoriaethau:

  - Defnyddio capasiti ymchwil, datblygu ac arloesi i gefnogi ein Rhaglen Lywodraethu, gan ganolbwyntio ar dwf economaidd,
  - Cefnogi ymdrechion i fynd i'r afael ag effaith newid yn yr hinsawdd, sbarduno adferiad amgylcheddol a datgarboneiddio;
  - Cefnogi arloesi ym maes Iechyd a Gwyddorau Bywyd, ochr yn ochr â chyllidebau Arloesi ym maes Iechyd a Gofal;
  - Twf a datblygu sgiliau yn y sylfaen ymchwil ac arloesi sefydledig - dileu a disodli gyda. Cefnogi cydweithio trawsffiniol a thraws-sector ar draws y sylfaen ymchwil ac arloesi.

***Cam Gweithredu Gwyddoniaeth***

Y cyfanswm ar gyfer y Cam Gweithredu yn 2026-27 yw £0.943m. Bu addasiad o £0.004m i'r llinell sylfaen ar gyfer cyfraniadau yswiriant gwladol a dyfarniad cyflog 2025-26. Mae £0.001m yn ychwanegol wedi'i ddyrannu fel cymorth i adlewyrchu rhagolwg twf cyflogau'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o 2.2% ar gyfer 2026-27.

BEL Gwyddoniaeth

- Mae nifer o raglenni cyfoethogi STEM yn cael eu hystyried. Mae hyn yn cynnwys cefnogi cynllun peilot 3 blynedd i gymell rhieni a gofalwyr plant ysgolion cynradd i wella eu sgiliau mathemateg a rhifedd. Mae hyn yn rhan o fenter ehangach, mewn cydweithrediad â chydweithwyr addysg, i gyflawni'r amcan o ymgysylltu â rhieni a gofalwyr ar Gynllun Mathemateg a Rhifedd

Llywodraeth Cymru. Mae'r gyllideb hon hefyd yn cyfrannu at hyrwyddo Swyddfa Llywodraeth Cymru dros Wyddoniaeth a'i gweithgareddau ymgysylltu, gan gynnwys seminarau ymgysylltu â rhanddeiliaid, arolygon agweddau'r cyhoedd at Wyddoniaeth, Wythnos Gwyddoniaeth Prydain, Gwyddoniaeth yn y Senedd, Gwobrau CREST, Medalau LSW, adolygiadau perfformiad gwyddoniaeth a gomisiynwyd a hyrwyddo amrywiaeth a chydraddoldeb rhwng y rhywiau yn y meysydd Ymchwil ac Arloesi, a Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM).

***Cam Gweithredu Hyrwyddo a Diogelu Lle Cymru yn y Byd***

Y cyllid ar gyfer y Cam Gweithredu hwn yw £24.483m ar gyfer 2026-27. Bu addasiad o £0.025m ychwanegol i'r llinell sylfaen oherwydd y cynnydd yng nghostau cyfraniadau yswiriant gwladol a chyllid ychwanegol ar gyfer dyfarniad cyflog 2025-26. Dyrannwyd £3.1m arall yn y gyllideb hon yn bennaf i gefnogi'r Tour de France ac Ewro 2028 (£1.7m) o fewn BEL Digwyddiadau Cymru ac £1.4m i BEL Cymru Greadigol ar gyfer parhau â chronfa Ardrethi Annomestig Stiwdios Cymru Greadigol gan na fydd yr ailbrisiad wedi'i gwblhau erbyn mis Ebrill 2026 a bydd angen refeniw ychwanegol i gefnogi ar gyfer y drydedd flwyddyn. Mae £0.010m yn ychwanegol wedi'i ddyrannu fel cymorth i adlewyrchu rhagolwg twf cyflogau'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o 2.2% ar gyfer 2026-27.

<u>BEL Twristiaeth</u>

- Mae'r cyllid yn helpu i ddatblygu twristiaeth a buddsoddi sy'n cyd-fynd â'n strategaeth gyffredinol – **Croeso i Gymru-Blaenoriaethau i'r Economi Ymwelwyr 2020-2025** – i gynyddu twristiaeth er budd Cymru, gan sicrhau manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. Bu newid bach iawn i'r gyllideb a ddyrannwyd ar gyfer 2026-27 sy'n ymwneud yn bennaf ag addasiad sylfaenol o £0.019m ar gyfer costau dyfarniad cyflog 2025-26 a chyfraniadau yswiriant gwladol a £0.002m arall fel cymorth ychwanegol ar gyfer y cynnydd mewn costau cyfraniadau yswiriant gwladol.
- Ni fu unrhyw newid i'r buddsoddiad marchnata ar gyfer 26-27 sy'n galluogi hyrwyddo Cymru o dan Frand Cymru Wales. Mae hyn yn cynnwys marchnata Cymru yn rhyngwladol ac yn ddomestig fel cyrchfan i ymwelwyr drwy Croeso Cymru, hyrwyddo Cymru fel lleoliad allforio a mewnfuddsoddi a hyrwyddo'r wlad drwy ein dull gweithredu Tîm Cymru ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi a digwyddiadau mawr gartref a thramor.

BEL Cymru Greadigol

- Y gyllideb ar gyfer 2026-27 ar gyfer y BEL Cymru Greadigol yw £8.409m. Bu addasiad bach iawn i'r llinell sylfaen o £0.001m i gynorthwyo â'r cynnydd yng nghostau cyfraniadau Yswiriant Gwladol. Dyrannwyd £1.4m ychwanegol i raglen Cymru Greadigol ar gyfer parhad Cronfa Ardrethi Annomestig Stiwdios Cymru Greadigol.
- Yn unol â themâu'r Flaenoriaeth **(fel y nodwyd yn 2020)**, mae'r cyllid yn cefnogi'r gweithgareddau datblygu sectorau blaenoriaeth a buddsoddiad mewn marchnata i roi Cymru yn y sefyllfa orau er mwyn i greadigrwydd ffynnu drwy sbarduno twf ar draws y diwydiannau creadigol, adeiladu ar lwyddiant presennol a datblygu talent a sgiliau newydd.
- Bydd Cymru Greadigol yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau, codi safonau, a hyrwyddo amrywiaeth a chydraddoldeb ar draws y sector, gan weithio i chwalu rhwystrau rhag mynediad a chynyddu cyfleoedd i weithio yn y sector, symleiddio mecanweithiau cyllido a chymryd yr awenau o ran marchnata a hyrwyddo'r diwydiannau creadigol yng Nghymru i'r byd.

BEL Cymru Greadigol Nad yw'n arian parod

- Maint y cyllid yn y BEL hwn ar gyfer 2026-27 yw £0.010m, ar gyfer costau dibrisiant asedau sefydlog.

***Cam Gweithredu Rheoli Cyllid Ewropeaidd***

Y cyllid ar gyfer y Cam Gweithredu yw £1.780m. Bu addasiad llinell sylfaen cynnydd o £0.017m i gefnogi dyfarniad cyflog 2025-26 a chyfraniadau Yswiriant Gwladol. Ar ben hynny, mae cynnydd o £0.002m wedi cael ei ddyrannu i gefnogi'r cynnydd yn y cyfraniadau Yswiriant Gwladol ymhellach.

BEL Cymorth i Raglenni

- Mae'r gyllideb flynyddol o £1.780m yn cyflawni gweithrediadau Cymorth Technegol Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a ariennir gan yr UE.

***Cam Gweithredu Trwyddedu Llety Ymwelwyr (Wedi'i ailenwi ar gyfer 2026-27 o'r Cynllun Cofrestru Trwyddedu Statudol)***

Ni fu unrhyw newid i'r Cam Gweithredu o'i gymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig ar gyfer 2025-26. Mae'r cyllid wedi aros ar £0.200m. Mae cyllid a ddyrannwyd yn 2026-

27 i gefnogi datblygiad y system gofrestru, sy’n cael ei harwain gan Awdurdod Cyllid Cymru o dan Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestru ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025.

BEL Trwyddedu Llety Ymwelwyr

- Bydd y gyllideb flynyddol o £0.2m yn cefnogi’r gwaith o ddatblygu’r system gofrestru, sy’n cael ei harwain gan Awdurdod Cyllid Cymru fel rhan o’r Bil Ardoll Ymwelwyr (Cofrestru ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025.

**Cyfalaf**

***Cam Gweithredu Busnes Cymru / Entrepreneuriaeth ac Economi Ranbarthol***

Y cyllid ar gyfer y Cam Gweithredu yn 2026-27 yw £60.814m. Mae’r llinell sylfaen wedi cael ei haddasu ar gyfer 2026-27 i gael gwared ar y cyllid anghylchol ar gyfer prosiect Morglawdd Caergybi (£20m cyfalaf amser llawn a £10m cyfalaf cyffredinol). Mae £1.157m hefyd wedi cael ei addasu o fewn BEL ad-dalu Busnes a Datblygu Economaidd Rhanbarthol ar gyfer trafodion ariannol cyfalaf â chyfyngiad amser. Gwnaed dyraniad anghylchol pellach o £30.4m ar gyfer prosiect Morglawdd Caergybi i’r BEL Busnes ac Economaidd Rhanbarthol ar gyfer 2026-27 a thynnwyd £1.236m ar gyfer y trafodiadau ariannol cyfalaf sy’n ymwneud â chymorth busnes.

BEL Busnes a Datblygiad Economaidd Rhanbarthol

- Mae’r cyllid yn ategu’r cyllid cyfalaf sydd ar gael ar gyfer Cronfa Dyfodol yr Economi a datblygiadau strategol eraill i gynorthwyo busnesau. Mae Banc Datblygu Cymru hefyd yn gwella gallu busnesau yng Nghymru i gael gafael ar gyllid ac mae’n cefnogi’r gwaith o greu a diogelu swyddi gyda Chronfeydd dynodedig sy’n ceisio datgloi potensial yn economi Cymru drwy gynyddu faint o gyllid cynaliadwy ac effeithiol sydd ar gael yn y farchnad.

BEL Busnes a Datblygiad Economaidd Rhanbarthol – Ad-daliad

- Mae Cyllid Ad-daladwy yn ategu’r cyllid cyfalaf sydd ar gael ar gyfer Cronfa Dyfodol yr Economi a datblygiadau strategol eraill i gynorthwyo busnesau.

BEL Y Cymoedd Technoleg

- Mae’r Cymoedd Technoleg yn ymrwymiad gan y Rhaglen Lywodraethu dros ddeng mlynedd (hyd at 2028) i greu 1,500 o swyddi cynaliadwy, cynyddu cyflogau wythnosol cyfartalog a gwerth ychwanegol gros sy’n canolbwyntio ar Flaenau Gwent, drwy fanteisio ar gyfleoedd sy’n deillio o’r pedwerydd

chwyldro diwydiannol, annog mabwysiadu technolegau digidol, a datblygu technolegau datblygedig gwerth uchel sy'n cefnogi diwydiannau arloesol fel 5G, technoleg batris, ac ymchwil i gerbydau modurol. Mae effaith y buddsoddiad hwn yn cyrraedd holl ardaloedd Cymoedd y De.

***Cam Gweithredu Banc Datblygu Cymru***

Bu addasiad net o £1.5m i'r llinell sylfaen ar gyfer 2026-27. Mae'r addasiad yn ymwneud â chael gwared ar y cyllid trafodiadau ariannol cyfalaf a ddyrannwyd i'r BEL Cronfeydd Cyllid Busnes (£9.5m) ac addasiad o £11m i'r BEL Cronfeydd Cyllid Busnes ac Ad-dalu. Dyrannwyd £9.690m arall yn 2026-27 i gefnogi cyllid trafodiadau ariannol. Bydd y cyllid trafodiadau ariannol yn cynorthwyo â'r canlynol:

Bydd £4.590m yn cael ei fuddsoddi mewn Benthyciadau Busnes Gwyrdd i gefnogi busnesau bach a chanolig i annog buddsoddiad mewn gwelliannau effeithlonrwydd ynni a phrosiectau datgarboneiddio.

I barhau i gefnogi microfusnesau sefydledig a busnesau newydd, mentrau bach a chanolig a mentrau cymdeithasol, rydym yn dyrannu £2.040m arall i Gronfa Micro-fenthyciadau Cymru.

Rydym yn dyrannu £3.060m i barhau â'n cefnogaeth i fusnesau Cymru drwy ddarparu ffynhonnell amgen o gyllid amgen drwy angylion buddsoddi. Bydd y cyllid yn annog creu busnes newydd a thwf economaidd yng Nghymru.

<u>BEL Cronfeydd Cyllid Busnes</u>

- Pwrpas y cyllid yn y BEL hwn yw cefnogi Banc Datblygu Cymru, sy'n gwella gallu busnesau yng Nghymru i gael gafael ar gyllid ac yn cefnogi'r gwaith o greu a diogelu swyddi gyda Chronfeydd dynodedig sy'n ceisio datgloi potensial yn economi Cymru drwy gynyddu faint o gyllid cynaliadwy ac effeithiol sydd ar gael yn y farchnad. Mae Banc Datblygu Cymru mewn sefyllfa dda i helpu busnesau Cymru drwy'r pandemig a'r adferiad, ac i gael gafael ar y cyllid sydd ei angen arnynt i ddechrau, i gryfhau ac i ddatblygu. Mae'n gallu darparu benthyciadau o £0.001m hyd at £10m, yn ogystal â chyllid mesanîn ac ecwiti; ac mae'n helpu busnesau i ddod o hyd i'r partner cyllid iawn i gael gafael ar gyllid preifat gyda'i gyllid bwlch ei hun pan fydd angen.

<u>BEL Cronfeydd Cyllid Busnes – Ad-daliad</u>

- Mae'r gyllideb hon wedi cael ei lleihau i sero ar gyfer 2026-27. Mae'r ad-daliadau'n ymwneud â phroffiliau ad-dalu y cytunwyd arnynt mewn perthynas

â benthyciadau a roddwyd mewn blynyddoedd blaenorol ac ni ddisgwylir ad-daliadau yn y gyllideb hon.

***Cam Gweithredu Datblygu Seilwaith Economaidd***

Mae £54.459m ar gael ar gyfer y Cam Gweithredu yn 2026-27. Mae £0.365m wedi cael ei addasu yn llinell sylfaen 2026-27 ar gyfer ad-dalu trafodiadau ariannol cyfalaf yn y BEL Seilwaith Eiddo – Ad-daliad. Dyrannwyd £1.450m yn 2026-27 i'r BEL Seilwaith Eiddo ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â lesoedd y rhoddir cyfrif amdanynt o dan IFRS 16. Cyflwynwyd gostyngiad o £0.370m i'r BEL Seilwaith Eiddo – Ad-daliad oherwydd yr ad-daliadau ar y trafodiadau ariannol cyfalaf.

BEL Seilwaith Eiddo

- Mae'r gyllideb gyfalaf yn cael ei hategu gan dderbyniadau gwerthu tir ac eiddo. Mae hyn yn golygu bod modd darparu safleoedd ac adeiladau modern sy'n gallu bodloni amserlenni deiliadaeth cwmnïau er mwyn rhoi mantais gystadleuol wirioneddol i Gymru dros leoliadau eraill. Bydd yr holl brosiectau masnachol adeiladu uniongyrchol a gyflawnir yn anelu at gyrraedd safon carbon sero net o ran defnydd a bydd Polisi Adeiladau Cynaliadwy Llywodraeth Cymru yn berthnasol i brosiectau a gyflwynir mewn partneriaeth ag eraill.

BEL Seilwaith Eiddo – Ad-daliad

- Dechreuodd ad-daliadau trafodiadau ariannol Seilwaith Eiddo yn 2022-23 a byddant yn parhau tan 2038-39.

BEL Gweithrediadau Seilwaith TGCh

- Mae'r gyllideb cyfalaf yn cefnogi cynlluniau i adeiladu ac i ddarparu seilwaith digidol i gysylltu cartrefi a busnesau ar draws Cymru. Er nad yw'r cyfrifoldeb dros fynd i'r afael â materion telathrebu yng Nghymru wedi'i ddatganoli i Weinidogion Cymru, mae'r cymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn golygu bod cartrefi a busnesau yn gallu cael band eang cyflym a dibynadwy cyn gynted â phosibl.

***Cam Gweithredu Arloesi***

Ni fu unrhyw newid i'r cyllid cyfalaf a ddyrannwyd o fewn y Cam Gweithredu hwn o'i gymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig ar gyfer 2026-27. Cyfanswm y cyllid yw £10m yn 2026-27.

<u>BEL Arloesi ar gyfer Busnes</u>

- Mae'r BEL yn ariannu'r cymorth ariannol ar gyfer cynlluniau Ymchwil, Datblygu ac Arloesi, gan gynnwys y cynllun Cymorth Arloesi Hyblyg SMART, cynllun y Fenter Ymchwil Busnesau Bach (SBRI) a'r Rhaglen Cefnogi Arloesedd ac Ymchwil Gydweithredol (CRISP). Dyma ein blaenoriaethau:
    - Defnyddio capasiti ymchwil, datblygu ac arloesi i gefnogi ein Rhaglen Lywodraethu, gan ganolbwyntio ar dwf economaidd,
    - Cefnogi ymdrechion i fynd i'r afael ag effaith newid yn yr hinsawdd, sbarduno adferiad amgylcheddol a datgarboneiddio.
    - Cefnogi arloesi ym maes Iechyd a Gwyddorau Bywyd, ochr yn ochr â chyllidebau Arloesi ym maes Iechyd a Gofal.
    - Twf a datblygu sgiliau yn y sylfaen ymchwil ac arloesi sefydledig - dileu a disodli gyda. Cefnogi cydweithio trawsffiniol a thraws-sector ar draws y sylfaen ymchwil ac arloesi.

***Cam Gweithredu Gwyddoniaeth***

Nid oes unrhyw newid wedi bod ers llinell sylfaen ddiwygiedig 2026-27. Mae £5m o gyllid wedi'i gadw ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27.

<u>BEL Gwyddoniaeth</u>

- Mae prosiect ARTHUR wedi bod yn asesu dichonoldeb adeiladu a gweithredu cyfleuster cynhyrchu radioisotopau meddygol newydd yng Ngogledd Cymru (Technoleg Radioisotopau Uwch ar gyfer Adweithydd Cyfleustodau Iechyd ARTHUR). Byddai'r cyfleuster yn cynhyrchu radioisotopau meddygol, a ddefnyddir i roi diagnosis a thrin canserau a chlefydau eraill, o'i Adweithydd Ymchwil ei hun a'u cyflenwi i ddarparwyr Gwasanaeth Iechyd (y GIG yn bennaf) ledled y DU ac yn rhyngwladol.

***Cam Gweithredu Hyrwyddo a Diogelu Lle Cymru yn y Byd***

Cyfanswm y cyllid ar gyfer y Cam Gweithredu ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27 yw £14m.
Bu gostyngiad addasiad llinell sylfaen o £0.500m i'r Cam Gweithredu hwn, sef cael gwared ar gyllid cyfnod penodol ar gyfer Cronfa Cyfleusterau Cyhoeddus Canolbarth Cymru. Dyrannwyd £0.500m ychwanegol i'r BEL Twristiaeth i gynorthwyo â'r Tour de France, ac mae £0.500m ychwanegol wedi cael ei ddyrannu i BEL Cymru Greadigol ar gyfer 2026-27 i gefnogi cwmnïau cynhyrchu a datblygu gemau yng Nghymru.

<u>BEL Twristiaeth</u>

- Mae'r BEL Twristiaeth wedi gweld £0.500m yn cael ei dynnu o'r llinell sylfaen ar gyfer Cronfa Hwylustod Cyhoeddus Canolbarth Cymru a chynnydd o £0.500m i gefnogi Tour de France. Bydd y gyllideb hon yn cefnogi prosiectau effaith uchel a pharhad cronfa dwy flynedd Y Pethau Pwysig, sy'n gwella seilwaith hanfodol i ymwelwyr mewn cyrchfannau allweddol ledled Cymru. Mae'r gronfa hon, sy'n cael ei darparu mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, yn sicrhau profiad o ansawdd uchel yn gyson i ymwelwyr, gan atgyfnerthu enw da Cymru fel cyrchfan twristiaeth o'r radd flaenaf.

<u>BEL Cymru Greadigol</u>

- Mae'r BEL wedi cael cynnydd o £0.500m o'i gymharu â llinell sylfaen ddiwygiedig 2026-27. Nod y buddsoddiad cyfalaf blynyddol arfaethedig o £7.5m yw sicrhau bod y prosiectau datblygu sector allweddol hynny a gefnogwyd yn 2026-27 yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus a pharhau i ddarparu cyllid ar gyfer prosiectau newydd gan gynnwys sgrin, digidol, cerddoriaeth, seilwaith stiwdio, sy'n cyflawni blaenoriaethau Cymru Greadigol ac yn cefnogi twf parhaus y diwydiannau creadigol yng Nghymru yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

***Cam Gweithredu Trwyddedu Llety Ymwelwyr***

Nid oes unrhyw newid wedi bod i'r Cam Gweithredu yn y gyllideb hon o'i gymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig. £0.7m yw'r cyllid ar gyfer y Cam Gweithredu hwn ar hyn o bryd.

<u>BEL Trwyddedu Llety Ymwelwyr</u>

- Bydd y gyllideb flynyddol o £0.7m yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r system gofrestru, sy'n cael ei harwain gan Awdurdod Cyllid Cymru fel rhan o'r Bil Ardoll Ymwelwyr (Cofrestru ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025.

***Cam Gweithredu Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf***

Bu addasiad sylfaenol ar gyfer cyllid anghylchol o £88.477m i'r Cam Gweithredu o'i gymharu â Chyllideb Derfynol 2025-26 (Chwefror). Fodd bynnag, derbyniwyd £76.375m ychwanegol gan Drysorlys Ei Fawrhydi yn 2026-27 i gefnogi ein bargeinion dinesig a thwf. Cyfraniad Llywodraeth Cymru yw £22m. Cyfanswm y cyllid ar gyfer y Cam Gweithredu yw £98.375m.

BEL Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf

- Mae pedwar cytundeb twf dinesig a rhanbarthol yng Nghymru, Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Bargen Ddinesig Dinas-Ranbarth Bae Abertawe, Bargen Twf Gogledd Cymru a Bargen Twf Canolbarth Cymru. At ei gilydd, mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i fuddsoddi £791m yn y pedwar cytundeb dros 15 mlynedd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fuddsoddi dros £1bn dros 15-20 mlynedd.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Jack Sargeant AS/MS**
**Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol**
**Minister for Culture, Skills and Social Partnership**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref MA/JS/2554/25

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd - Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

31 Hydref 2025

Annwyl Andrew,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 20 Awst ynghylch y craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27 a bydd yn cael ei gyhoeddi ar 3 Tachwedd.

Mae'r papur amgaeëdig yn rhoi manylion am y cynlluniau ar gyfer yr Economi, Ynni a Chynllunio a nodir yn y Gyllideb Ddrafft a gwybodaeth y mae'r Pwyllgor wedi gofyn amdani ar feysydd penodol.

Edrychaf ymlaen at roi diweddariad i'r Pwyllgor yn ein sesiwn dystiolaeth lafar ar 26 Tachwedd 2025.

Yn gywir

**Jack Sargeant AS/MS**
Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol
Minister for Culture, Skills and Social Partnership

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jack.Sargeant@llyw.cymru
Correspondence.Jack.Sargeant@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

## Papur Tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2026-27 – Prif Grŵp Gwariant (MEG) yr Economi, Ynni a Chynllunio

26/11/2025

Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth am gynigion cyllideb yr Economi, Ynni a Chynllunio, yn benodol y cyllidebau Cyflogadwyedd, Prentisiaethau, Partneriaeth Gymdeithasol a Sgiliau fel yr amlinellir yng Nghyllideb Ddrafft 2026-27 a gyhoeddwyd fel rhan o gam 2 ar 3 Tachwedd. Mae hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am feysydd sydd o ddiddordeb penodol i'r Pwyllgor.

Fel rhan o'r gyllideb hon, rydym wedi buddsoddi yn y rhaglenni hyn sy'n cefnogi ein hymrwymiadau i adeiladu ar lwyddiant Cronfa Ddysgu Undebau Cymru; cefnogi cynigion TUC Cymru i aelodau o undebau fod yn Gynrychiolwyr Gwyrdd yn y gweithle a chryfhau Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Mae'n hwyluso ymateb uniongyrchol i helpu busnesau unigol i dyfu drwy ddatblygu'r gweithlu ac mae'n darparu atebion ehangach, sy'n canolbwyntio ar y sector ac sy'n cael eu harwain gan gyflogwyr, i ymateb i anghenion sgiliau a nodwyd

Mae cyllideb y rhaglenni cyflogadwyedd yn darparu rhaglenni i arfogi pobl â'r sgiliau a'r profiad sydd arnynt eu hangen i ddechrau, cynnal a dychwelyd i gyflogaeth mewn economi ddigidol a sero net. Mae cyflogaeth ddiogel a chynaliadwy sy'n talu'n dda yn gynnig llwybr allan o dlodi a gwarchod rhag tlodi, nid yn unig i'r unigolyn, ond i'w ddibynyddion ac i'r

(TSC+Mwy) a ReAct+ dros 20,000 o unigolion yn rhai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig yn ystod 2024-25.

Wrth i ni symud ymlaen, nod y Rhaglen Cymorth Cyflogadwyedd (ESP) yw cynnig cymorth cyflogadwyedd newydd i Gymru o 2027 ymlaen sy'n sicrhau ein bod yn rhoi'r unigolyn wrth galon y cynnig a'i fod yn ddigon hyblyg mewn marchnad lafur sy'n newid yn gyson. Mae cwmpas y rhaglen yn cynnwys Cymunedau am Waith a Mwy, TSC+Mwy, ReAct+ a datganoli cyllid cymorth cyflogaeth nad yw'n ymwneud â'r Ganolfan Byd Gwaith.

Yn unol â blaenoriaethau'r Prif Weinidog o ran rhoi cyfle i bob teulu, rydym yn parhau i fuddsoddi yn ein cefnogaeth i'n gwasanaeth Gyrfa Cymru. Drwy arweiniad gyrfaoedd a chymorth cyflogadwyedd proffesiynol a diduedd, mae Gyrfa Cymru a'u gwasanaeth Cymru'n Gweithio yn cefnogi ac yn arwain unigolion i ddod yn ymwybodol, i gael eu hysbrydoli, ac i lwyddo o'r ysgol gynradd a thrwy gydol eu hoes fel oedolion, gyda'u llwybrau gyrfa a'u teithiau. Mae Gyrfa Cymru nawr yn cynnig cyfweliad cyfarwyddyd gyrfa i bob person ifanc cyn iddynt adael addysg cyfnod allweddol 4 i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r holl opsiynau fydd ar gael iddynt yn y dyfodol.

CYNNWYS

TRYLOYWDER CYFLWYNIAD Y GYLLIDEB................................................4

**Tryloywder Cyflwyniad y Gyllideb ..................................................................4**

**Sylwadau ar Gamau Gweithredu a Manylion Dyraniadau Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (BEL)...........................................................................5**

**Meysydd Penodol .............................................................................................5**

**Sgiliau a Chyflogadwyedd ...............................................................................5**

**Dysgu Seiliedig ar Waith ................................................................................11**

**Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol/Ymgysylltu â Chyflogwyr.................12**

**Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg.....................................................13**

**Crynodeb ..........................................................................................................14**

**Atodiad A – Sylwadau ar y Lefel Gweithredu ar gyfer unrhyw Linell Wariant yn y Gyllideb sy'n berthnasol i'r Pwyllgor......................................16**

TRYLOYWDER CYFLWYNIAD Y GYLLIDEB

Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o'r cynlluniau dangosol ar gyfer y cynlluniau Prentisiaethau, Cyflogaeth a Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol fel y'u cyhoeddwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2026-27. Mae hyn yn cadarnhau cynnydd o £5.080m mewn adnoddau cyllidol (refeniw) ar gyfer y llinellau cyllideb hyn, o'i gymharu â llinell sylfaen ddiwygiedig 2026-27. Nid yw'r cyllidebau ar gyfer adnoddau anghyllidol (nad yw'n arian parod), Cyfalaf a Gwariant a Reolir yn Flynyddol wedi newid.

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | | **Cynlluniau yn unol â 2025-26 Cyllideb Derfynol Wedi ailddatgan Chwefror 2025** | **Addasiadau i'r Llinell Sylfaen ar gyfer 2026-27** | **2026-27 Llinell Sylfaen Ddiwygiedig** | **Newidiadau** | **2026-27 Cyllideb Ddrafft Hydref 2025** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **£000s** | **£000s** | **£000s** | **£000s** | **£000s** |
| **REFENIW** | | | | | | |
| Prentisiaethau | | 143902 | 4 | 143,906 | 2,386 | 146,292 |
| Cam Gweithredu: | Prentisiaethau | 143902 | 4 | 143,906 | 2,386 | 146,292 |
| Cyflogadwyedd – Gan gynnwys y Warant i Bobl Ifanc | | 109,857 | 800 | 110,657 | 2,683 | 113,340 |
| Cyflogadwyedd Gan gynnwys y Warant i Bobl Ifanc - Nad yw'n arian parod | | 2,330 | 0 | 2,330 | 0 | 2,330 |
| Cam Gweithredu: | Cyflogadwyedd – Gan gynnwys y Warant i Bobl Ifanc | 112,187 | 800 | 112,987 | 2,683 | 115,670 |
| Partneriaethau Cymdeithasol | | 900 | 8 | 908 | 11 | 919 |
| Cam Gweithredu: | Partneriaeth Gymdeithasol | 900 | 8 | 908 | 11 | 919 |
| **Refeniw** | **Cyfanswm** | **256989** | **812** | **257,801** | **5,080** | **262,881** |
| **CYFALAF** | | | | | | |
| Cyflogadwyedd – Gan gynnwys y Warant i Bobl Ifanc | | 2,000 | 0 | 2,000 | 0 | 2,000 |
| Cam Gweithredu: | Cyflogadwyedd – Gan gynnwys y Warant i Bobl Ifanc | 2,000 | 0 | 2,000 | 0 | 2,000 |
| **Cyfalaf** | **Cyfanswm** | **2000** | **0** | **2,000** | **0** | **2,000** |
| **ADNODD AME** | | | | | | |
| Cam Gweithredu: | AME Cyflogadwyedd, gan gynnwys y Warant i Bobl Ifanc | 12,000 | 0 | 0 | 0 | 12,000 |
| **Adnodd AME** | **Cyfanswm** | **12000** | **0** | **0** | **0** | **12,000** |

Y llinell sylfaen a ddefnyddir ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2026-27 yw Cyllideb Derfynol 2025-26 wedi'i hailddatgan (Chwefror 2025) a'i haddasu ar gyfer addasiadau llinell sylfaen rheolaidd ar gyfer 2025-26, a hynny i gefnogi dyfarniad cyflog y sector cyhoeddus yn 2025-26 a chynnydd i ariannu costau cyfraniadau Yswiriant Gwladol. Yna, mae cynnydd chwyddianol wedi cael ei gymhwyso i MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio, ar sail y rhagolygon twf diweddaraf gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Mae'r holl newidiadau wedi'u nodi uchod.

## SYLWADAU AR GAMAU GWEITHREDU A MANYLION DYRANIADAU LLINELLAU GWARIANT YN Y GYLLIDEB (BEL)

Rhoddir dadansoddiad uchod o'r newidiadau i'r cyllidebau sy'n berthnasol i'r Pwyllgor ar gyfer MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio yn ôl maes gwariant, Cam Gweithredu a BEL ar gyfer 2026-27. Darparwyd sylwebaeth sy'n egluro'r newidiadau i bob Cam Gweithredu sy'n berthnasol i'r Pwyllgor hwn yn **Atodiad A.** Darparwyd esboniad naratif tryloyw i egluro'r cynnydd a'r gostyngiadau, lle nad ydynt wedi cael sylw yn y papur tystiolaeth.

## MEYSYDD PENODOL

Mae'r adran hon yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am feysydd penodol, yn unol â chais y Pwyllgor.

## SGILIAU A CHYFLOGADWYEDD

***Cyfanswm y cyllid y bwriedir ei ddefnyddio i gyflwyno'r Warant i Bobl Ifanc yn 2026/27.***

Y Warant i Bobl Ifanc yw'r prif ymrwymiad yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru i ddarparu cymorth i'r rheini rhwng 16 a 24 oed sy'n byw yng Nghymru, i gael lle mewn addysg neu hyfforddiant, i'w helpu i gael gwaith neu gymorth i fynd ar drywydd bod yn hunangyflogedig.

Ers lansio'r Warant ym mis Tachwedd 2021, mae dros 58,000 o bobl ifanc wedi dechrau ar raglenni cyflogadwyedd a sgiliau yn unig. Mae dros 8,500 o bobl ifanc wedi symud ymlaen i gyflogaeth ac mae dros 800 wedi dechrau eu busnesau eu hunain.

Mae Tabl 1 yn dangos y prif raglenni a chynlluniau cyflogadwyedd a sgiliau a nodir o fewn cwmpas y Warant i Bobl Ifanc:

**Tabl 1: Rhaglenni cyflogadwyedd a sgiliau allweddol gydag elfennau o'r Warant i Bobl Ifanc**

| **Gwarant i Bobl Ifanc** | | |
|---|---|---|
| **Rhaglen/prosiect** | **Cyllideb 2026-27** | **Sylwadau** |
| Twf Swyddi Cymru + | £34 miliwn | Rhaglen Flaenllaw y Warant i Bobl Ifanc sy'n |

| | | |
|---|---|---|
| | | cefnogi pobl ifanc 16-19 oed sy'n NEET, neu sydd mewn perygl o fod yn NEET |
| ReAct+ | £7.095m | Cefnogi'r rheini y mae dileu swyddi a rhwystrau i gyflogaeth yn effeithio arnynt. Y gyllideb yn cefnogi pawb dros 20 oed |
| Cymunedau am Waith a Mwy | £16.834m | Cymorth cyflogadwyedd dwys yn y gymuned. Y gyllideb yn cefnogi pawb dros 16 oed |
| Ysbrydoli Rhagoriaeth Sgiliau yng Nghymru | £1.26m | Mae'n cynnwys gweithgarwch craidd yn ogystal â chyllid tuag at gyfranogiad cystadleuwyr Cymru mewn cystadlaethau cenedlaethol a rhyngwladol a ddarperir gan WorldSkills UK. |
| Entrepreneuriaeth Ieuenctid | £1.39m | Rhaglen gyflawni allweddol tuag at yr ymrwymiad yn y Warant i Bobl Ifanc i fod yn hunangyflogedig |
| Gyrfa Cymru/Cymru'n Gweithio | £30.909m | Mae rhan o gynnig Cymru'n Gweithio yn cynnwys porth i'r Warant i Bobl Ifanc sy'n darparu cyngor ac arweiniad diduedd i gefnogi pobl ifanc i wneud y dewis iawn. Defnyddir tua 30% o'r gyllideb Gyrfaoedd gyffredinol i ddarparu Cymru'n Gweithio. |

Mae cyllid i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Warant i Bobl Ifanc yn 2026-27 wedi'i gynnwys yn y MEG Addysg a'r MEG Economi, Ynni a Chynllunio ac mae'n cynnwys y gyllideb sylweddol a ddyrannir i Medr. Dylid nodi hefyd bod rhai rhaglenni'n cael eu harwain gan y galw, eu bod ar gael i bobl o bob oed ac mae rhai'n cael eu hariannu dros flynyddoedd academaidd yn hytrach na blynyddoedd ariannol.

***Lefel y cyllid y bwriedir ei ddefnyddio i gyflwyno Cyfrifon Dysgu Personol yn 2026-27.***

Bellach, mae Medr yn gyfrifol am y dyraniadau cyllideb ar gyfer Cyrsiau Rhan-amser a ddarperir gan Golegau Addysg Bellach, gan gynnwys Cyfrifon Dysgu Personol (PLA). Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch sy'n gyfrifol am bolisi Medr a Chyfrifon Dysgu Personol.

***Manylion unrhyw gyllid sgiliau a chyflogadwyedd penodol sy'n cael ei gynnig i gefnogi'r rheini y mae penderfyniad Tata i atal y gwaith sylfaenol o gynhyrchu dur ym Mhort Talbot yn effeithio arnynt.***

Y gyllideb arfaethedig ar gyfer rhaglen ReAct+ yn 2026-27 yw £7.425m, ac rydym yn bwriadu cael digon o gyllideb i reoli'r gwaith o drosglwyddo'r galw gan y rheini y mae dileu swyddi o Tata Steel UK a'r gadwyn gyflenwi yn effeithio arnynt i 2026-27.

Mae gan Cymunedau am Waith a Mwy, gyllideb arfaethedig o £16.834m ar gyfer 2026-27 ac mae'n darparu cymorth cyflogadwyedd dwys i'r bobl fwyaf difreintiedig yn y farchnad lafur o amrywiaeth o leoliadau cymunedol.

***Manylion unrhyw gyllid penodol ar gyfer sectorau sy'n newid i sero net i uwchsgilio ac ailsgilio gweithwyr, gan gynnwys: manylion cyllid ar gyfer y Rhaglen Sgiliau Hyblyg ac a wneir dyraniadau penodol i raglenni unigol.***

Fel y nodwyd uchod, yn 2026-27, bydd Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid craidd gwerth£145.655m i Medr a fydd yn cwmpasu amrywiaeth o feysydd gwariant. Un o'r rhain yw darparu cyrsiau rhan-amser, sy'n cynnwys ein prif raglen Cyfrif Dysgu Personol i helpu pobl gyflogedig i uwchsgilio ac ailsgilio. Mae rhan o'r rhaglen hon yn cynnwys 'Cyfrif Dysgu Personol Gwyrdd' i lenwi bylchau sgiliau sero net mewn gwasanaethau adeiladu/gwaith adeiladu, ynni, gweithgynhyrchu a pheirianneg ac yn ehangach. Mae'r cap ar gyflogau wedi cael ei ddileu ar gyfer yr elfen hon er mwyn i fwy o bobl allu cael gafael ar y sgiliau a'r cymwysterau sero net gwerthfawr hyn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu Rhaglen Sgiliau Hyblyg ers 2016. Mae'r Rhaglen Sgiliau Hyblyg yn grant hyfforddi, sydd ar gael i bob cyflogwr yng Nghymru, sy'n dymuno prynu cyrsiau hyfforddi i gwrdd ag amcanion uwchsgilio. Bydd Llywodraeth Cymru'n cyfrannu 50% tuag at y costau hyfforddi. Mae'n cynnwys rhaglenni penodol i gefnogi bylchau sgiliau yn y Sector Peirianneg a Gweithgynhyrchu yn ogystal â datblygu sgiliau i helpu i fynd i'r afael â chyfleoedd Sero Net newydd. Ym mis Tachwedd 2024, fe aethom ati i lansio cronfa Sgiliau Coedwigaeth a Phren newydd yn y Rhaglen Sgiliau Hyblyg. Mae'n rhan o'n hymdrechion i ddiogelu gweithlu'r sectorau at y dyfodol a darparu llwybr i yrfa ym maes coedwigaeth. Rydym wedi buddsoddi £7.531m yn y gyllideb hon i gefnogi'r Rhaglen Sgiliau Hyblyg.

Gan weithio gyda'r Alban a Gogledd Iwerddon, mae gennym adolygiad treigl o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol. Wrth gytuno ar ba Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol i'w hadolygu neu eu datblygu bob blwyddyn, mae'r grŵp comisiynu tair gwlad yn rhoi blaenoriaeth uchel i fynd i'r afael â'r agenda di-garbon.

***Mae rhestr gyfunol o'r holl raglenni cyflogadwyedd a ariennir gan y Llinell Wariant yn y Gyllideb Sgiliau, gan gynnwys cleientiaid / buddiolwyr arfaethedig pob rhaglen, a ydyn nhw'n rhan o gynllun 'ymbarél' mwy (h.y. y Warant i Bobl Ifanc); a rhestr yn***

***manylu ar y prif ddarparwyr ar gyfer pob un o'r rhaglenni, gan gynnwys gwerthoedd eu contractau ar gyfer 2026-27.***

Mae **Tabl 1** uchod yn rhoi manylion y rhaglenni cyflogadwyedd o dan ymbarel y Warant i Bobl Ifanc. Mae'r rhaglenni Cyflogadwyedd a ariennir gan y Llinell Wariant yn y Gyllideb Cyflogadwyedd 4464, gan gynnwys y Warant i Bobl Ifanc, yn cynnwys:

*Twf Swyddi Cymru a Mwy (TSC+Mwy): £34m ar gyfer 2026-27*
Lansiwyd Twf Swyddi Cymru a Mwy ym mis Ebrill 2022, ac mae'n rhaglen flaenllaw o dan y Warant i Bobl Ifanc. Mae Twf Swyddi Cymru a Mwy yn darparu pecyn cymorth cyfannol sydd wedi'i deilwra i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) neu sydd mewn perygl o hynny. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar bobl ifanc 16-19 oed nad ydynt yn barod am swydd eto, gan eu helpu i gyrraedd y cam hwnnw, yn ogystal â phobl ifanc sydd angen cymorth ychwanegol i'w helpu i oresgyn rhwystrau rhag cael swydd a hyfforddiant. Mae Twf Swyddi Cymru a Mwy yn cael ei gontractio fesul tendr a bydd y gyllideb ar gyfer 2026 – 27 yn cael ei dyrannu i ddarparwyr fel y nodir isod. Mae'r Contractwyr canlynol wedi cael contractau o dan gytundeb Fframwaith ym mhob Lot Ranbarthol:

| **Rhanbarth** | **Contractiwr** |
|---|---|
| Gogledd Cymru | Consortiwm Grŵp Llandrillo-Menai (GLLM) |
| | Coleg Cambria |
| | ACT Ltd |
| De-orllewin a Chanolbarth Cymru | Coleg Sir Benfro |
| | ITEC Training Solutions |
| | ACT Ltd |
| Canol De Cymru | ACT Ltd |
| | ITEC Training Solutions |
| De-ddwyrain Cymru | ACT Ltd |
| | ITEC Training Solutions |

*ReAct+: £7.095m ar gyfer 2026-27*
Rhaglen sy'n cael ei hariannu gan grant yw ReAct+ a gafodd ei lansio ar 6 Mehefin 2022. Mae'n cynnig cymorth unigol i oedolion 20 oed a hŷn y mae eu swyddi'n cael eu dileu, ac mae'n cefnogi cyn-droseddwyr sy'n bwrw eu dedfrydau yn y gymuned. Mae'r rhaglen yn darparu grantiau hyfforddiant galwedigaethol, cefnogaeth i gyflogwyr sy'n recriwtio person anabl cymwys a chefnogaeth ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â hyfforddiant megis teithio a gofal plant. Nid yw Llywodraeth Cymru'n contractio gydag unrhyw ddarparwyr hyfforddiant. Mae gofyn i gyfranogwyr nodi'r darparwr hyfforddiant mwyaf priodol ar ôl iddynt gael cyngor ac arweiniad diduedd gan gynghorydd Cymru'n Gweithio.

*Cymunedau am Waith a Mwy: £16.834m ar gyfer 2026-27*
Rhaglen Cyflogadwyedd yn y gymuned gan Lywodraeth Cymru yw Cymunedau am Waith a Mwy. Nid yw Llywodraeth Cymru yn contractio unrhyw ddarparwyr hyfforddiant sydd â chyllid yn llifo i Awdurdodau Lleol sy'n darparu'r rhaglen yn unol â'u hanghenion lleol. Ym mis Ionawr 2025, fe wnaethom ostwng yr ystod oedran ar gyfer y rheini sy'n gallu cael mynediad at y rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy er mwyn i awdurdodau lleol allu cefnogi'r bobl ifanc ymhellach.

*Gyrfa Cymru/Cymru'n Gweithio: £30.909m ar gyfer 2026-27*
Mae Cymru'n Gweithio a ddarperir gan Gyrfa Cymru yn borth effeithiol ar gyfer cymorth cyflogadwyedd sy'n ymateb i anghenion unigolyn. Mae oddeutu 30% o gyllideb Gyrfa Cymru yn cael ei dyrannu i Cymru'n Gweithio, sy'n darparu cyngor, arweiniad a hyfforddiant personol, diduedd ar yrfaoedd a chyflogadwyedd i'r rheini sy'n 16 oed a hŷn, gan gynnwys y rheini sydd yn yr ystad carchardai diogel ac sy'n ceisio noddfa. Bydd Cymru'n Gweithio yn atgyfeirio unigolion at raglenni cyflogadwyedd priodol sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys Twf Swyddi Cymru a Mwy, ReAct+ a Cymunedau am Waith a Mwy. Maen nhw hefyd yn cefnogi unigolion i gael gwaith, hunangyflogaeth a phrentisiaethau.

***Manylion dyraniadau i gefnogi pobl economaidd anweithgar a phobl anabl i gael gwaith.***

*Cynllun Arloesol Anweithgarwch Economaidd:*
Mae Llywodraeth y DU wedi darparu hyd at £10m yn 2025-26 ar gyfer darparu'r Cynllun Arloesol, gyda £10m arall wedi'i glustnodi ar gyfer 2026-27. Yn 2025-26 rhoddwyd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar waith rhwng Llywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer defnyddio'r cyllid hwn. Bydd unrhyw gyllid a dderbynnir yn 2026-27 yn cael ei ystyried ar gyfer ei ddyrannu fel rhan o broses arferol y gyllideb atodol yn ystod y flwyddyn yn 2026-27.

Mae ein cynlluniau arloesol peilot ar gyfer anweithgarwch economaidd, sy'n gweithredu ym Mlaenau Gwent, Castell-nedd Port Talbot a Sir Ddinbych, yn cefnogi unigolion economaidd anweithgar sydd â chyflyrau iechyd hirdymor, y rheini sy'n anabl a/neu'r rheini sydd â chyfrifoldebau gofalu.

*Cymunedau am Waith a Mwy: £16.834m ar gyfer 2026-27*
Mae mentoriaid Cymunedau am Waith a Mwy wedi'u lleoli mewn lleoliadau cymunedol ledled Cymru, gan ddarparu cyngor ac arweiniad dwys i helpu cyfranogwyr di-waith ac economaidd anweithgar i oresgyn rhwystrau i gyflogaeth.

*ReAct+: £7.095m ar gyfer 2026-27*
Cefnogi cyflogwyr sy'n recriwtio person anabl cymwys

*TSC+ Mwy: £34m ar gyfer 2026-27*
Rydym yn parhau i wneud yn siŵr bod anghenion pobl ifanc anabl yn cael eu diwallu drwy ddarparu cyllid i'n contractwyr sy'n eu galluogi i roi amrywiaeth o gymorth ychwanegol ar waith i ddysgwyr drwy ein cronfa ganolog Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae contractwyr

yn defnyddio'r gronfa hon i fynd i'r afael ag anghenion a nodwyd yn ogystal ag ar gyfer Hyfforddwyr Swydd Cyflogaeth Gefnogol. Mae'r rhain yn darparu cymorth un i un ochr yn ochr â'r brif raglen.

Cynyddodd cyfran y dysgwyr TSC+Mwy a ddywedodd eu bod yn anabl a/neu fod ganddynt anhawster dysgu yn 2024-2025 o 23.9% i 25.6% yn 2023-2024. Mae'r gyfradd canlyniadau cadarnhaol wedi cynyddu ar gyfer dysgwyr anabl a/neu ddysgwyr ag anhawster dysgu rhwng 2023-2024 a 2024-2025 o 57.9% i 62.3%. Ar gyfer dysgwyr heb anabledd a/neu anhawster dysgu, cynyddodd y gyfradd o 61.0% i 68.2%.

***Manylion y cyllid a ddyrannwyd i gystadleuaeth WorldSkills UK, gan gynnwys rhagolygon o'r cyllid sy'n weddill i'w wario yn 2025.***

_Ysbrydoli Rhagoriaeth Sgiliau yng Nghymru: £1.26 miliwn, 2026-27._
Mae'r gyllideb hon yn cefnogi **pobl ifanc** i ddatblygu **sgiliau o'r radd flaenaf** drwy**gystadlaethau sgiliau** a datblygiad proffesiynol. Mae tua 1,400 o bobl ifanc yn cymryd rhan mewn Cystadlaethau Sgiliau yng Nghymru bob blwyddyn. Ym mis Tachwedd 2025, bydd Cymru'n cynnal Rowndiau Terfynol Cenedlaethol y DU am y tro cyntaf. Bydd y rowndiau terfynol ar gyfer 2026 hefyd yn cael eu cynnal yng Nghymru. Mae tua 20% o ddyraniad cyllideb gyffredinol Ysbrydoli Rhagoriaeth Sgiliau yng Nghymru yn cael ei ddyrannu'n benodol ar gyfer cyfranogiad cystadleuwyr Cymru mewn cystadlaethau cenedlaethol a rhyngwladol a ddarperir gan WorldSkills UK ac mae'r gwariant a ragwelir ar gyfer 2025-26 yn tua £0.25m, gyda chyllideb debyg yn cael ei chynllunio ar gyfer 2026-27 hefyd.

***Gwir gyllid 2024-25 a rhagolwg 2025-26 ar gyfer Cronfa Sgiliau Cymru Greadigol a sut y bwriedir ei ddefnyddio***

Yn 2024-25, cofnodwyd cyfanswm o £1,117m o dan gyllid y Rhaglen Sgiliau. Y rhagolwg ar gyfer eleni yw £1.549m ac fe'i rhennir fel a ganlyn

| | |
|---|---:|
| Cronfa Sgiliau Creadigol (Blwyddyn 2) | 0.947 |
| Sefydliad Ffilmiau Prydain, Sgil Cymru | 0.150 |
| Prosiect Gweithwyr Llawrydd | 0.075 |
| Watch Africa | 0.085 |
| Cynllun Carlam Ffeithiol y BBC | 0.060 |
| Ysgol Ffilm a Theledu Genedlaethol Cymru | 0.150 |
| Sefydliad Ffilmiau Prydain, Gorwelion Rhyngwladol (TCR) | 0.034 |
| Pact – Cymru'r Dyfodol | 0.033 |
| Pro7ect | 0.015 |
| | |

| | |
|---|---:|
| ***Cyfanswm*** | **1.549** |

## DYSGU SEILIEDIG AR WAITH

***Y gwir alldro 2024-25 a rhagolwg 2025-26 ar gyfer y rhaglen brentisiaethau a sut mae hyn yn berthnasol i gyflawni targed Llywodraeth Cymru.***

Alldro gwirioneddol 2024-25 ar gyfer y rhaglen Prentisiaethau oedd £139.376m. Y rhagolwg disgwyliedig i'r rhaglen hon yn 2025-26 yw £143.906m.

***Manylion unrhyw drosglwyddiadau o Gam Gweithredu Dysgu Seiliedig ar Waith 2026-27 i ariannu Prentisiaethau Gradd.***

Nid oes unrhyw drosglwyddiadau'n cael eu rhoi ar waith fel rhan o gyllideb ddrafft 2026-27 i gefnogi Gradd-brentisiaethau. Gan fod Medr bellach yn ei le, mae'r cyllid hwn yn cael ei ddarparu'n uniongyrchol i Medr. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd Medr yn parhau i gynnig dyraniad o'r cyllid y mae'n ei dderbyn o'r gyllideb Brentisiaethau i gefnogi prentisiaethau lefel Gradd.

***Manylion unrhyw gyllid a ddefnyddiwyd yn 2025-26 a rhagolwg o'r cyllid a fydd yn cael ei ddefnyddio yn 2026-27 i ddatblygu fframweithiau prentisiaeth newydd ac adolygu'r fframweithiau prentisiaeth presennol.***

Erbyn hyn, mae Medr yn gyfrifol am ddatblygu fframweithiau prentisiaeth newydd a diwygiedig.

I sicrhau bod y ddarpariaeth prentisiaethau'n dal yn gyfredol ac yn berthnasol i anghenion cyflogwyr yng Nghymru, dyrannwyd £0.200m drwy gyllid Medr ar gyfer 2025-26, a hynny o Linell Wariant yn y Gyllideb Medr o fewn y MEG Addysg ar gyfer datblygu ac adolygu'r Fframwaith. Mae Medr wedi cyhoeddi ei gylch adolygu Fframwaith ar gyfer 2024-2027 sy'n rhoi manylion am y fframweithiau penodol a fydd yn cael eu datblygu ar gyfer y flwyddyn ariannol hon.

***Manylion yr holl gyfyngiadau rheoli galw a chamau gweithredu sydd ar waith i reoli'r galw am brentisiaethau, neu a gaiff eu cyflwyno ar gyfer y rhaglen brentisiaeth yn ystod 2026-27.***

Erbyn hyn, mae Medr yn gyfrifol am reoli'r galw o ran darpariaeth gan ddarparwyr. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cwrdd â chydweithwyr yn Medr bob mis i adolygu proffiliau gwariant. Mae Medr yn datblygu ei bolisi dyrannu ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf er mwyn bodloni Datganiad Polisi Prentisiaethau Llywodraeth Cymru.  Bydd Medr yn rhoi blaenoriaeth i greu prentisiaethau cynhwysol o fewn sectorau blaenoriaeth Llywodraeth Cymru, yn edrych ar gyfleoedd i bobl ifanc 16-24 oed a grwpiau difreintiedig ymgymryd â phrentisiaeth ac yn sicrhau bod prentisiaethau'n darparu digon o gynnydd i wella canlyniadau'r farchnad lafur. Mae Medr wedi datblygu rhaglen waith i adolygu'r holl

fframweithiau prentisiaeth i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion yr economi ac anghenion dysgwyr. Yn ddiweddar, mae Medr wedi trosglwyddo £4m i'r gyllideb brentisiaethau i gefnogi cyfleoedd prentisiaeth ychwanegol yn 2025-26.

***Manylion unrhyw newidiadau i gyllid prentisiaethau mewn ymateb i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar brentisiaethau.***

Rydym wedi ystyried adroddiad y Pwyllgor yn llawn ac wedi darparu ymateb manwl. Ni ystyriwyd bod angen unrhyw newidiadau o ran cyllid wrth ymateb i adroddiad y Pwyllgor.

***Manylion unrhyw ddibenion penodol o ran y cyllid a ddarperir i Medr yn eu rôl o ddyrannu cyllid ar gyfer prentisiaethau.***

Mae Medr yn cael un gyllideb i'w galluogi i gyflawni eu rôl o ddyrannu cyllid ar gyfer prentisiaethau. Nid yw'r gyllideb hon wedi'i neilltuo at ddibenion penodol, er y disgwylir y bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Prentisiaethau, gan gynnwys ariannu'r canlynol:

- Dyrannu contractau ar gyfer darparwyr hyfforddiant prentisiaethau
- Cynlluniau rhannu prentisiaethau a rhannu prentisiaethau â chymorth
- Cynllun Cymhellion i Gyflogwyr
- Adolygiadau fframwaith
- Anghenion Dysgu Ychwanegol

## PARTNERIAETHAU SGILIAU RHANBARTHOL/YMGYSYLLTU Â CHYFLOGWYR

***Manylion y cyllid sydd i'w ddarparu i bob Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol ac at ba ddiben.***

Rydym yn parhau i weithio gyda'r pedair Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol i nodi blaenoriaethau sgiliau rhanbarthol ac is-ranbarthol. Mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn elfen ganolog o'r dirwedd sgiliau ranbarthol, gan ddarparu gwybodaeth am y farchnad lafur i Lywodraeth Cymru. Maen nhw'n gweithio'n agos gyda chyflogwyr i nodi blaenoriaethau cyflogaeth a sgiliau.

Mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn canolbwyntio ar sgiliau gwyrdd yn ystod 2025-26, i gyd-fynd â blaenoriaeth y Cabinet, sef 'Swyddi a Thwf Gwyrdd'. Mae hyn yn cynnwys gweithio'n agos gyda'u rhwydweithiau cyflogwyr i nodi anghenion sgiliau gwyrdd rhanbarthol a chenedlaethol ac ehangu cyfleoedd ar gyfer sgiliau sero net, ar sail gwybodaeth am y farchnad lafur. Maen nhw'n rhoi cipolwg i gynghorwyr Gyrfa Cymru a darparwyr ôl-16 i wella gwybodaeth a dealltwriaeth sero net. Mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Medr i osod sgiliau gwyrdd a blaenoriaethau sector eraill ar gyfer darparu prentisiaethau ac addysg bellach. Mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn cynnal 'Ymarfer Tueddiadau Galwedigaethol' i sbarduno buddsoddiad mewn cyfresi newydd, wedi'u hadnewyddu o Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol i adlewyrchu anghenion sgiliau sero net.

Ar ben hynny, mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn gweithio ar adolygiad Cymru o ddeallusrwydd artiffisial, gan gefnogi'r gweithgor sgiliau deallusrwydd artiffisial.

Yn 2026-27 rydym yn cynnal ein buddsoddiad mewn Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, a byddwn yn parhau i fuddsoddi £0.290m fesul Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol y flwyddyn, cyfanswm o £1.16m y flwyddyn.

***Manylion dyraniadau Llywodraeth Cymru i Gyrfa Cymru a sut mae hyn wedi'i anelu at gyflawni'r canlyniadau a ddymunir ar gyfer sgiliau.***

Rydym wedi buddsoddi £30.909m yng nghyllideb ddrafft 2026-27 i gefnogi Gyrfa Cymru/Cymru'n Gweithio. Gyrfa Cymru yw ein gwasanaeth proffesiynol sy’n cynnig gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaoedd diduedd i bobl o bob oed yng Nghymru. Drwy gynnig arweiniad gyrfaoedd proffesiynol rydym yn parhau i helpu pobl ifanc ac oedolion i ddeall y sgiliau sydd eu hangen yn ein marchnad lafur nawr ac yn y dyfodol,. a'u helpu i ennill a chynnal y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer heddiw ac yn y dyfodol i fodloni gofynion cyflogwyr.

Mae Gyrfa Cymru yn gweithio gyda phob ysgol uwchradd, ysgolion arbennig, unedau atgyfeirio disgyblion a cholegau i gefnogi pobl ifanc i fod yn fwy effeithiol wrth gynllunio a rheoli eu gyrfaoedd mewn marchnad swyddi gymhleth sy’n newid yn gyson. Maen nhw'n darparu cyfweliadau cyfarwyddyd gyrfa un i un a sesiynau grŵp i helpu dysgwyr i ddysgu mwy am eu dewisiadau gyrfa, deall sut gall eu dewisiadau effeithio ar eu gyrfa yn y dyfodol a sut i gymryd eu camau nesaf. Maen nhw’n gweithio gyda miloedd o fusnesau ledled Cymru i hwyluso'r broses o ddod ag ysgolion a chyflogwyr at ei gilydd gyda'r nod o hysbysu, ysbrydoli a chymell pobl ifanc am eu cyfleoedd gyrfa. Mae hyn yn cynnwys cynnig nifer o leoliadau profiad gwaith wedi'u teilwra i bobl ifanc sydd mewn perygl mawr o ymddieithrio oddi wrth addysg. Maen nhw hefyd yn cefnogi ysgolion i gyflwyno elfen addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith y cwricwlwm newydd.

Mae eu gwasanaeth Cymru’n Gweithio yn darparu cyngor, arweiniad a hyfforddiant personol diduedd ar yrfaoedd a chyflogadwyedd i’r rheini sy’n 16 oed a hŷn sy’n byw yng Nghymru, gan gynnwys y rheini sydd yn yr ystâd carchardai diogel ac sy’n ceisio noddfa. Bydd Cymru'n Gweithio yn atgyfeirio unigolion at raglenni cyflogadwyedd cenedlaethol a lleol presennol gan gynnwys Twf Swyddi Cymru a Mwy, ReAct+, Cymunedau am Waith a Mwy a Hyfforddeiaethau fel y bo'n briodol. Bydd hefyd yn cefnogi unigolion i gael gwaith, hunangyflogaeth a phrentisiaethau, a chynnig cymorth iddynt i ddod yn ymwybodol o'u hopsiynau a'u helpu i wneud dewis gwybodus sy’n addas i’w llwybr o’u dewis nhw.

## PARTNERIAETH GYMDEITHASOL A GWAITH TEG

Manylion dyraniadau sy’n ymwneud â gweithredu’r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru), ac a yw’r rhain wedi newid o’r hyn a ragwelwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gyhoeddwyd i lywio’r gwaith o graffu ar y Bil.

Rydym wedi dyrannu £0. 919m yng nghyllideb ddrafft 2026-27 yn Llinell Wariant yn y Gyllideb Partneriaeth Gymdeithasol i gefnogi amrywiaeth eang o fentrau i hyrwyddo a

gwreiddio partneriaeth gymdeithasol, gwaith teg a chaffael cymdeithasol gyfrifol. Rydym yn darparu cymorth i gyrff cyhoeddus a phartneriaid cymdeithasol eraill ar y dyletswyddau newydd a nodir yn y Ddeddf, yn ogystal â chefnogi costau staffio yn Llywodraeth Cymru, gan gynnwys secondiadau i gryfhau ein trefniadau partneriaeth gymdeithasol ein hunain,

Mae'r rhan fwyaf o'r costau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn deillio o amser staff mewn Cyrff Cyhoeddus yng Nghymru i gefnogi strwythurau'r bartneriaeth gymdeithasol a chyflwyno'r dyletswyddau newydd, ac mae'n rhan o rolau'r staff hynny.

Rydym wedi parhau i flaenoriaethu cyllid ar gyfer gweithgareddau a fydd yn sicrhau bod Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) yn cael ei rhoi ar waith yn effeithiol, gan gynnwys datblygu canllawiau a chyngor ar y dyletswyddau caffael; cymorth i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, cyflwyno sesiynau hyfforddi ac ymgysylltu ar bartneriaethau cymdeithasol a datblygu astudiaethau achos, offer ac adnoddau, er mwyn i'r ddeddfwriaeth allu dechrau gwneud gwahaniaeth go iawn.

Nid yw'r darpariaethau yn rhan 3 o'r Ddeddf sy'n ymwneud â chaffael cymdeithasol gyfrifol wedi dod i rym eto. Rydym yn disgwyl i Awdurdodau Contractio yng Nghymru, yn gyffredinol, ddarparu ar gyfer unrhyw ofynion gweinyddol ychwanegol a phwysau cost cysylltiedig o fewn eu cyllidebau a'u hadnoddau penodedig. Fodd bynnag, roedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Ddeddf yn nodi costau ychwanegol a fyddai'n cael eu rhoi ar lawer o Awdurdodau Contractio mewn perthynas â'r dyletswyddau rheoli contractau manylach ar gyfer contractau adeiladu mawr. Gall Awdurdodau Contractio geisio talu'r costau ychwanegol hyn yn eu trafodaethau gyda'u hadrannau cyllido.

***Manylion ynghylch sut bydd y dyraniadau yn y gyllideb ddrafft yn cefnogi mentrau gwaith teg ac yn cefnogi mwy i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol.***

Dyrannwyd £0.060m o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb Partneriaeth Gymdeithasol ym mlwyddyn ariannol 2025-26 i ariannu grant Cynnal Cymru fel partner achrededig y Cyflog Byw Gwirioneddol yng Nghymru. Bydd y cyllid hwn yn cael ei gynnal yn 2026-27. Mae'r cyllid hwn yn rhoi hwb i'r hyn y gallan nhw gyflawni ac yn cefnogi eu gallu i ymgysylltu â chyflogwyr, cynyddu nifer y cyflogwyr achrededig yng Nghymru a hyrwyddo manteision cyffredinol y Cyflog Byw Gwirioneddol

***Manylion unrhyw ddyraniadau a wnaed i gefnogi'r gwaith o roi'r strategaeth Gweithio o Bell ar waith.***

Nid oes dyraniad penodol yng nghyllideb ddrafft 2026-27 i gefnogi'r strategaeth gweithio o bell. Rydym wedi sefydlu rhwydwaith o ganolfannau gweithio o bell, wedi cyhoeddi canllawiau gweithio o bell ac astudiaethau achos, ac rydym yn monitro'r targed o 30%.

## CRYNODEB

Cyflwynir dyraniadau'r Gyllideb Ddrafft Cyflogadwyedd, Prentisiaethau, Partneriaeth Gymdeithasol a Sgiliau ar gyfer 2026-27 i'r Pwyllgor eu hystyried.

## ATODIAD A – SYLWADAU AR Y LEFEL GWEITHREDU AR GYFER UNRHYW LINELL WARIANT YN Y GYLLIDEB SY'N BERTHNASOL I'R PWYLLGOR.

<u>**Adnoddau**</u>

**Cam Gweithredu Prentisiaethau**

Bu cynnydd o £2.4m yn y gyllideb ddrafft hon o'i gymharu â llinell sylfaen ddiwygiedig 2026-27 i gyllideb y cam gweithredu Prentisiaethau. £146.3m yw'r gyllideb ar gyfer 2026-27. Mae'r cynnydd yn ymwneud yn bennaf â chyllid ychwanegol i gefnogi'r pwysau sy'n cael ei greu drwy ariannu'r gyfran uwch o ddysgwyr sy'n dechrau yn 2025-26.

**Llinell Wariant yn y Gyllideb Prentisiaethau**

Mae'r gyllideb refeniw yn cefnogi'r gwaith o ddarparu'r rhaglen prentisiaethau. Mae prentisiaethau yn rhaglen statws cyflogedig sy'n darparu hyfforddiant uwchsgilio, trosglwyddadwy drwy rwydwaith o ddarparwyr Addysg Bellach a hyfforddiant preifat. Mae prentisiaethau yn Rhaglen i bobl o bob oed sy'n rhoi blaenoriaeth i ddysgwyr rhwng 16 a 24 oed, pobl sy'n newydd i fyd gwaith, a darpariaeth yn y sectorau hynny sy'n dod â'r budd mwyaf i economi Cymru, fel STEM, iechyd a gofal cymdeithasol, ac sy'n cefnogi ein huchelgais sero net.

**Cam Gweithredu Cyflogaeth a Sgiliau**

Bu cynnydd net o £2.683m yn y cam gweithredu ar gyfer 2026-27, gan roi cyllid gwerth cyfanswm o £115.7m ar gyfer y cam gweithredu, o'i gymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig ar gyfer 2026-27. Mae'r cynnydd hwn yn ymwneud â £2m ychwanegol i gefnogi'r galw ychwanegol yn rhaglen Twf Swyddi Cymru a Mwy, £0.590m a £0.093m i gefnogi rownd nesaf dyfarniadau cyflog y sector cyhoeddus a chostau Yswiriant Gwladol ar gyfer staff rhaglen Gyrfa Cymru a Llywodraeth Cymru, yn y drefn honno.

**BEL Cyflogadwyedd, gan gynnwys y Warant i Bobl Ifanc**

Mae cyllideb y rhaglenni Cyflogadwyedd yn darparu rhaglenni i roi'r hyn sydd ei angen ar bobl i ddechrau, cynnal a dychwelyd i gyflogaeth mewn marchnad lafur sy'n newid drwy'r amser. Bydd yn sicrhau bod cymorth cyflogadwyedd ar gael er mwyn i bobl allu ffynnu a gwireddu eu potensial mewn economi ddigidol a sero net. Mae'r rhaglenni'n darparu'r Warant i Bobl Ifanc – un o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu i roi cymorth i bobl 16-24 oed gael mynediad at waith, addysg, hyfforddiant neu hunangyflogaeth ac sy'n cyflawni yn erbyn blaenoriaethau'r Prif Weinidog ar gyfer Swyddi a thwf Gwyrdd a rhoi cyfle i bob teulu. Mae cyflogaeth ddiogel a chynaliadwy sy'n talu'n dda yn gynnig llwybr allan o dlodi a gwarchod rhag tlodi, nid yn unig i'r unigolyn, ond i'w ddibynyddion ac i'r gymuned drwyddi draw. Mae hefyd yn cyflawni ymrwymiadau'r Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau a'r diweddariad diweddar i Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

Mae'r gyllideb hefyd yn cefnogi'r ymrwymiadau i adeiladu ar lwyddiant Cronfa Ddysgu Undebau Cymru; cefnogi cynigion TUC Cymru i aelodau o undebau fod yn Gynrychiolwyr

Gwyrdd yn y gweithle a chryfhau Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Mae'n hwyluso ymateb uniongyrchol i helpu busnesau unigol i dyfu drwy ddatblygu'r gweithlu ac mae'n darparu atebion ehangach, sy'n canolbwyntio ar y sector ac yn cael eu harwain gan gyflogwyr, i ymateb i anghenion sgiliau a nodwyd ym meysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru, fel sero net a thechnoleg ddigidol, sy'n bwysig i economi Cymru.

Mae'r BEL hefyd yn rhoi cyllid i Gyrfa Cymru sy'n darparu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaoedd a chyflogadwyedd cenedlaethol, diduedd a dwyieithog i bobl o bob oed yng Nghymru. Mae Gyrfa Cymru yn is-gwmni o dan berchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru. Mae'r cwmni'n cyflawni swyddogaethau Gweinidogion Cymru drwy ddarparu gwasanaeth gyrfaoedd, addysg a chyfarwyddyd cynhwysfawr i unigolion a sefydliadau, gan gysylltu addysg a busnes. Maen nhw'n gweithio gyda phob ysgol uwchradd, ysgolion arbennig, unedau atgyfeirio disgyblion a cholegau i gefnogi pobl ifanc i fod yn fwy effeithiol wrth gynllunio a rheoli eu gyrfaoedd mewn marchnad swyddi gymhleth sy'n newid yn gyson. Mae ein gwasanaeth Cymru'n Gweithio, sy'n cael ei ddarparu gan Gyrfa Cymru, yn darparu cyngor, arweiniad a hyfforddiant personol diduedd ar yrfaoedd a chyflogadwyedd i'r rheini sy'n 16 oed a hŷn, gan gynnwys y rheini sydd yn yr ystâd carchardai diogel ac sy'n ceisio noddfa. Mae Cymru'n Gweithio yn fodel hyblyg cenedlaethol sy'n gallu addasu i anghenion cwsmeriaid a heriau economaidd, ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Hefyd, dyma'r unig gymorth gyrfaoedd a chyflogadwyedd sydd ar gael i'r rheini sydd mewn cyflogaeth ledled Cymru, gan gynnwys contractau dim oriau.

Mae'r BEL hefyd yn darparu cyllid ar gyfer Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol sy'n cefnogi ymrwymiadau cyflogadwyedd a sgiliau trawsbynciol y Rhaglen Lywodraethu drwy sicrhau bod y ddarpariaeth sgiliau'n adlewyrchu anghenion cyflogwyr. Y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yw sail fframweithiau prentisiaethau a chymwysterau galwedigaethol yng Nghymru. Mae'r Strategaeth Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn cefnogi'r cysyniad o ddysgu gydol oes a symudedd parhaus y gweithlu ar draws sectorau, rhanbarthau a chenhedloedd. Mae'r Safonau'n cefnogi'r blaenoriaethau a nodir yn y Genhadaeth Economaidd. Mae'r Safonau'n ymateb i newidiadau galwedigaethol a chymdeithasol; drwy ddadansoddi Gwybodaeth am y Farchnad Lafur mae'r system Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn nodi galwedigaethau sy'n dod i'r amlwg, rhai sydd â galw amdanynt a rhai sy'n dirywio, a newidiadau galwedigaethol sy'n digwydd oherwydd arferion gweithio, technolegau a deddfwriaeth newydd.

**BEL Cyflogadwyedd gan gynnwys y Warant i Bobl Ifanc – Nad yw'n arian parod**

Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb hon yn cefnogi'r gyllideb dibrisiant flynyddol nad yw'n arian parod ar gyfer Gyrfa Cymru, a gynhelir yn £2.3 ar gyfer y gyllideb hon.

**Cam Gweithredu Partneriaeth Gymdeithasol**

Bu cynnydd bach o £0.011m o'i gymharu â chyllideb sylfaenol ddiwygiedig 2026-27 fel rhan o'r gyllideb ddrafft. Mae'r cynnydd yn ymwneud â chyllid ychwanegol ar gyfer y dyfarniad cyflog yn ystod y flwyddyn a chostau cyfraniadau Yswiriant Gwladol.

**BEL Partneriaethau Cymdeithasol**

Mae'r BEL Partneriaeth Gymdeithasol yn ariannu amryw o fentrau sy'n hyrwyddo ac yn gwreiddio'r ffordd o weithio mewn partneriaeth gymdeithasol, yn cefnogi uchelgeisiau

Gweinidogion Cymru i wneud Cymru'n wlad o waith teg, a helpu Llywodraeth Cymru i chwarae ei rhan wrth fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern.  Mae'r Llinell Gwarint yn y Gyllideb hon hefyd yn cael ei defnyddio i wella capasiti ar draws Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg, drwy roi cyllid rhaglen ar gyfer rhai swyddi a secondiadau sy'n cael eu recriwtio gan bartneriaid cymdeithasol.

**<u>Cyfalaf</u>**

**Cam Gweithredu Cyflogadwyedd gan gynnwys y Warant i Bobl Ifanc**

Nid oes unrhyw newid wedi bod ers cyllideb sylfaenol ddiwygiedig 2026-27 . Mae'r buddsoddiad cyfalaf blynyddol o £2m yn cefnogi gweithgarwch Gyrfa Cymru i'r strategaeth TG ac ystadau gyd-fynd â Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040. Bydd datblygiad amgylcheddol strategol a chynaliadwyedd yn cael eu cynnwys yn y strategaeth ofodol newydd gan ganolbwyntio ar y meysydd twf cenedlaethol a rhanbarthol drwy fabwysiadu'r dull gweithredu 'Canol trefi yn gyntaf'.

**<u>Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)</u>**

Nid yw cyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol o £12m wedi newid ac mae'n darparu yswiriant ar gyfer ffioedd sydd y tu hwnt i reolaeth y portffolio. Nod y £12m a ddyrannwyd yw cefnogi amrywiadau prisio pensiynau ar gyfer Gyrfa Cymru. Cytunir ar y gyllideb hon gyda'r Trysorlys bob blwyddyn ac fe'i cyllidir yn llawn. Mae ffigurau'r Gyllideb Ddrafft Gwariant a Reolir yn Flynyddol yn adlewyrchu'r rhagolygon a gyflwynwyd i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Ionawr 2025.

**Mark Drakeford AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

18 Tachwedd 2025

Annwyl Andrew,

**Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)**

Yn dilyn y sesiwn ar 5 Tachwedd, lle rhoddais dystiolaeth fel rhan o'ch craffu ar y Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety i Ymwelwyr (Cymru), roeddwn am ysgrifennu i ddarparu rhagor o wybodaeth am lond llaw o'r pwyntiau a drafodwyd. Mae hyn yn atodol i'r Datganiad o Fwriad Polisi a rannwyd gyda chi ar yr un dyddiad, ac yn yr un modd, mae'n bwriadu helpu dealltwriaeth o bolisi a chraffu ar y Bil.

**Y trefniadau pontio**

Mae pwerau yn y Bil sy'n caniatáu i drefniadau trosiannol gael eu rhoi ar waith i alluogi gweithredu mor llyfn â phosibl.

Rydym yn bwriadu defnyddio'r pwerau hyn i ganiatáu i ddarparwyr presennol barhau i weithredu nes bod eu cais yn cael ei benderfynu, cyn belled â'u bod wedi gwneud cais am drwydded erbyn y dyddiad cau penodedig wrth i'r cynllun gael ei gyflwyno. Mae'r pwerau yn y Bil yn caniatáu hyn a gellir eu defnyddio i osgoi sefyllfa lle mae darparwr yn cael ei atal rhag gweithredu yn ystod y cyfnod gweithredu hwnnw dim ond oherwydd bod angen mwy o amser ar yr awdurdod trwyddedu i brosesu'r cais nag a fyddai fel arfer yn ystod cyflwr sefydlog y cynllun.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Trwyddedau Dros Dro ac Adnewyddu Trwyddedau**

Mae'r rhain yn weithdrefnau a fydd yn parhau i fod ar waith yn ystod cyflwr sefydlog y cynllun, ac felly maent yn wahanol i'r trefniadau trosiannol a amlinellir uchod.

Mewn perthynas â **cheisiadau adnewyddu,** mae'r pŵer ar wyneb y Bil yn adran 25(2), yn caniatáu yn benodol i ddarpariaeth gael ei wneud i alluogi trwydded i barhau i gael effaith nes bod cais adnewyddu wedi'i benderfynu. Y bwriad yw osgoi darparwr sydd wedi gwneud cais am adnewyddu rhag gweithredu dim ond oherwydd nad yw eu cais wedi'i benderfynu.

Fel yr esboniais yn ystod y sesiwn dystiolaeth ar 5 Tachwedd, bydd y pŵer hwn hefyd yn caniatáu inni sicrhau bod darparwyr llety yn elwa o'r hyblygrwydd i beidio â gorfod ailgyflwyno tystiolaeth sydd gennym eisoes ar y pwynt adnewyddu, fel y gall y broses fod mor syml a di-drafferth iddynt ag y gallwn ei gwneud.

**Bwriad trwyddedau dros dro** yw darparu ar gyfer amgylchiadau lle na ellir bodloni gofyniad cymeradwyo trwydded eto, er enghraifft, pan fo darparwr yn adeiladu llety newydd i ymwelwyr. Byddai trwydded dros dro yn caniatáu i ddarparwyr ddechrau hysbysebu a chymryd archebion ymlaen llaw, wrth iddynt weithio tuag at drwydded lawn. Fodd bynnag, hyd nes y byddant yn gallu bodloni'r holl ofynion ar gyfer trwydded lawn, a bod y drwydded honno yn cael ei rhoi, ni fyddent yn cael derbyn gwesteion i aros (h.y. i "*ddarparu*" y llety).

Bwriad y trefniant hwn yw sicrhau nad yw darparwyr newydd neu bresennol yn cael eu hatal rhag ehangu eu busnesau neu fynd ar drywydd cyfleoedd newydd oherwydd cyfyngiadau yn y cynllun trwyddedu. Ar yr un pryd, mae'n sicrhau bod y darparwyr hyn yn ymwybodol o'r gofynion y bydd angen iddynt eu bodloni. Bwriedir hefyd helpu i gynnal effeithiolrwydd y Cyfeiriadur llety ymwelwyr wrth roi sicrwydd i ymwelwyr, er nad yw'r llety yn bodloni'r gofynion ar hyn o bryd, y bydd angen iddynt gael eu bodloni cyn i ymwelydd gael eu caniatáu i aros.

Mae natur weithredol a gweithdrefnol y materion hynny yn rhan o'r rheswm dros eu gadael i reoliadau yn hytrach na chael eu nodi ar wyneb y Bil. Y rheswm arall yw sicrhau digon o hyblygrwydd yn y cynllun i gefnogi parhad busnes mewn sector sy'n esblygu'n barhaus, tra'n cynnal tryloywder ac uniondeb y cynllun.

**Diwygio Trwyddedau**

Ar gyfer diwygiadau trwyddedau, rydym yn disgwyl i'r rhan fwyaf o'r rhain ddod yn dilyn ceisiadau gan ddarparwyr, er enghraifft, lle mae eu llety wedi newid mewn rhyw ffordd. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd diwygio trwydded yn un o'r opsiynau sydd ar gael ar gyfer cydymffurfio a gorfodi, fel cam ychwanegol cyn dirymu. Bydd hyn yn ffafrio deiliaid trwydded, gan y bydd, er enghraifft, yn caniatáu i rannau o'r llety mewn mangre gael eu tynnu o'r hyn sydd wedi'i drwyddedu, lle mae mater a nodwyd wedi'i leoli neu ei gynnwys, ac nad yw'n effeithio ar lety arall mewn mangre. Byddai hyn yn caniatáu i'r darparwr barhau i weithredu unrhyw lety sy'n weddill yn y fangre, ar yr amod ei fod yn cydymffurfio, yn hytrach na dirymu'r drwydded gyfan. Yn y math hwn o senario gellir diwygio trwydded heb gais gan y darparwr. Bydd hyn, wrth gwrs, yn gysylltiedig â'r prosesau adfer a dirymu, yn ogystal ag apeliadau, fel bod llif clir trwy'r broses gydymffurfio a gorfodi, gyda chyfleoedd i

ddarparwyr unioni problemau, ynghyd â'r hyblygrwydd iddynt reoli eu trwyddedau eu hunain yn ôl yr angen.

**Apeliadau**

Fel y soniais yn fy nhystiolaeth ar 5 Tachwedd, bydd y broses apelio fel y mae'n arferol ar draws llawer o gynlluniau, gan gynnwys o dan Ddeddf Llety i Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc.(Cymru) 2025 (“y Deddf VARL”) diweddar, lle bydd gan ddarparwr yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf ar wahanol benderfyniadau a wneir o dan y cynllun, fel y darperir ar ei gyfer o dan adran 28. Fodd bynnag, fel y gwelwch hefyd o'r hyn yr wyf wedi'i nodi uchod, yr wybodaeth a gynhwysir yn y DoFP, ac fel y trafodwyd yn fy nhystiolaeth lafar, mae yna lawer o gamau a chyfnodau i gefnogi cydymffurfiaeth â gofynion y Bil. Mae'r prosesau hyn wedi'u cynnwys i sicrhau dull cymesur o gydymffurfio a gorfodi ar draws ystod eang o senarios. Yn yr un modd, os yw'r awdurdod trwyddedu yn cael penderfyniad yn anghywir neu nad yw'n trin pob darparwr yn deg, mae'r broses apelio yno fel diogelwch.

**Awdurdod Trwyddedu a rôl Awdurdod Refeniw Cymru**

Roeddwn hefyd eisiau nodi gwybodaeth am swyddogaethau rheoli'r cynllun trwyddedu a rôl Awdurdod Refeniw Cymru (WRA). Nid yw'r Bil yn sefydlu 'awdurdod trwyddedu' trwy enw na thrwy ddyluniad. Rydym wedi defnyddio'r term hwnnw er rhwyddineb ac i fod yn gryno, i ddisgrifio swyddogaethau'r cynllun trwyddedu, sy'n gyfrifoldeb Gweinidogion Cymru, yn wahanol i'w swyddogaethau ehangach.

O dan y Bil, bydd swyddogaethau craidd y cynllun yn aros gyda Gweinidogion Cymru. Serch hynny, gyda'r pwerau a roddir o dan adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, er enghraifft, gallwn ymrwymo i drefniadau asiantaeth gyda chyrff cyhoeddus eraill mewn perthynas ag arfer y swyddogaethau hynny. Gan ddefnyddio pwerau fel y rhain byddwn yn edrych ar gyrff cyhoeddus eraill am rai elfennau o weithrediad y cynllun, lle mae'n gwneud mwy o synnwyr i'r tasgau hynny gael eu gweinyddu gan rhywun arall.

Rydym wedi bod yn glir trwy gydol taith y Bil hwn ers ei sefydlu, gan gynnwys yn ystod craffu ar Ddeddf VARL, y byddem yn sicrhau lle bynnag y bo modd i'r systemau a'r prosesau ar gyfer darparwyr fod mor syml â phosibl, ac y byddwn yn osgoi dyblygu ymdrech lle bynnag y gallwn. Er mwyn cyflawni hynny, ein nod o hyd yw un pwynt mynediad o ran y systemau y bydd angen i ddarparwyr eu defnyddio ar gyfer cofrestru, trwyddedu a'r ardoll ymwelwyr, ac i osgoi y ffaith bod angen i rai darparwyr fewngofnodi dair gwaith mewn ffordd wahanol neu fewnbynnu'r un wybodaeth dair gwaith.

Yn y cyd-destun hwn y trafodais rôl y WRA yn fy sesiwn dystiolaeth ddiwethaf. Mae'r WRA eisoes yn datblygu'r system TG ar gyfer cofrestru; ac o ystyried bod y cynllun cofrestru yn creu'r sylfaen ar gyfer trwyddedu a'r ardoll ymwelwyr, rwyf am i'r system drwyddedu fanteisio ar synergeddau â chofrestru a'r ardoll yn llawn. Er nad oes unrhyw benderfyniad wedi'i wneud ynghylch pwy fydd yn adeiladu a gweithredu'r system TG i gefnogi'r cynllun trwyddedu, fy marn i yw y dylid ei datblygu fel y cam nesaf i'r system gofrestru honno.

I'r perwyl hwnnw, er nad yw'r Senedd eto i gytuno ar y Bil hwn, o ystyried cam presennol y datblygiad ar gyfer cofrestru, a'r amser y gall ei gymryd i ddatblygu systemau fel y rhain,

mae fy swyddogion yn gweithio gyda'r WRA i ystyried sut y gallai hyn weithio, a pha dechnoleg allai fod ar gael i gynorthwyo a lleihau rhai costau gweithredol. Er enghraifft, ar gyfer ceisiadau trwydded neu dystiolaeth, defnyddio AI ac ymarferoldeb digidol arall i gynnal gwiriadau cychwynnol o ddogfennaeth, cyn i'r awdurdod trwyddedu ystyried a phenderfynu a ellir neu y dylid ei gymeradwyo. Efallai y bydd arbedion graddfa hefyd ar gyfer rhai swyddogaethau rheoli cysylltiadau â chwsmeriaid (CRM) gweithredol eraill, fel llinellau cymorth a chymorth TG, a byddwn yn manteisio ar y rheini lle bynnag y mae'n briodol gwneud hynny.  Rydym wedi darparu cyllid eleni i WRA i ymgymryd â'r gwaith hwn, a bydd hynny'n llywio penderfyniadau yn y dyfodol ar rôl y WRA mewn trwyddedu.

Fodd bynnag, rwyf am wneud yn glir bod agweddau sylweddol ar y system drwyddedu nad wyf yn disgwyl i'r WRA eu cyflawni ar ein rhan. Nid wyf yn rhagweld y byddant yn penderfynu a ddylai cais darparwr gael ei gymeradwyo lle na ellir ei wneud yn awtomatig, ac nid wyf yn rhagweld iddynt ysgrifennu canllawiau ar ffitrwydd i fod yn llety ymwelwyr, penderfynu pryd mae cam gweithredu cydymffurfio a gorfodi yn angenrheidiol, neu gynnal arolygiadau pan fydd yn angenrheidiol. Rwy'n disgwyl i'w rôl yn y system drwyddedu ganolbwyntio ar reoli'r system TG ac integreiddio â chofrestru a'r ardoll, yn y blaen i greu un platfform i ddarparwyr ac o bosibl yng nghefn y swyddfa i reoli'r ddwy system yn effeithiol. Fel y nodais yn y Pwyllgor, byddwn yn edrych ar Croeso Cymru, awdurdodau lleol a chyrff eraill yn darparu rhai o'r elfennau eraill hyn, ond bydd yr awdurdod trwyddedu ei hun yn parhau i fod yn gyfrifoldeb Llywodraeth Cymru er mwyn cynnal cynllun cenedlaethol a darparu goruchwyliaeth strategol ar lefel genedlaethol.

**Cod Ymarfer a Chanllawiau Statudol**

Yn olaf, gan droi at y Cod Ymarfer a'r Canllawiau Statudol. Mae'r Bil yn nodi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddarparu canllawiau ar y cynllun trwyddedu, a phŵer i gyhoeddi Cod Ymarfer ehangach. Y bwriad yma yw i'r canllawiau statudol ddarparu gwybodaeth y gallai fod ei hangen ar ddarparwyr llety ymwelwyr rheoleiddiedig, ochr yn ochr â'r hyfforddiant, er mwyn cydymffurfio â gofynion y cynllun, a byddant yno i gyfeirio atynt pryd bynnag y bo angen. Bydd y canllawiau hynny yn y pen draw ochr yn ochr â'r Cod Ymarfer, i greu un gyfres o wybodaeth ar gyfer y sector twristiaeth cyfan; gyda'r Cod yn darparu canllawiau arfer gorau ar wahanol faterion, nid yn unig mewn perthynas â thrwyddedu, i helpu i gefnogi darparwyr presennol a darpar ddarparwyr yn y sector i barhau i yrru safonau a chynnal economi twristiaeth gynaliadwy ledled Cymru.

Rwyf yn edrych ymlaen at eich gweld yn ein cyfarfod nesaf ar 20 Tachwedd.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgorau Cyllid a Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad er gwybodaeth.

Yn gywir,



**Mark Drakeford AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

—

**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Bethan Jones
Rheolwr Gweithredol
Rhentu Doeth Cymru

18 Tachwedd 2025

Annwyl Bethan,

**Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) – cwestiynau pellach yn dilyn y sesiwn dystiolaeth**

Diolch i chi am roi tystiolaeth fel rhan o'n gwaith craffu Cyfnod 1 ar Fil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru).

Yn dilyn y sesiwn, cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu at Rhentu Doeth Cymru i ofyn am ragor o wybodaeth am sut mae'r broses orfodi'n gweithio'n ymarferol.

Byddwn yn ddiolchgar, felly, pe gallech nodi'r camau yn eich gweithdrefnau gorfodi, gan gynnwys pa actorion sy'n gysylltiedig â phob cam. Yn ystod y sesiwn, gwnaethoch nodi bod gan awdurdodau lleol bob un o'r pwerau gorfodi ag sydd gan Rhentu Doeth Cymru, a'u bod yn gallu dewis pa un a ydynt am ymgymryd â'r gorfodi i sicrhau cydymffurfiaeth ai peidio. A allech chi gadarnhau pa mor aml y caiff y pwerau gorfodi hyn eu defnyddio?

Mewn achosion lle mae'r awdurdod lleol yn dewis peidio â chynnal y gorfodi eu hunain, byddem yn arbennig o awyddus i ddeall y canlynol:

- sut maen nhw'n cefnogi Rhentu Doeth Cymru i ddwyn y gorfodi ymlaen yn eu hardal, a
- sut maen nhw'n cael eu had-dalu am wneud hynny.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu'r wybodaeth hon erbyn 28 Tachwedd, os yn bosibl.

Yn gywir,



Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: HID/ARTDavies/PO/594/2025

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

18 Tachwedd 2025

Annwyl Andrew,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 20 Hydref, yn dilyn fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor ar 24 Medi mewn ymateb i'ch Ymchwiliad i Brosesu Bwyd yng Nghymru. Wrth fynd i'r afael â'ch cwestiynau pellach, nodir yr ymatebion isod:

**Caffael Cyhoeddus o Fwyd a Diod Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â'r gwaith o weithredu Rhan 3 o Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023. Mae hyn yn cyflwyno dyletswyddau caffael cyfrifol cymdeithasol newydd ar awdurdodau contractio i fynd ar drywydd lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol wrth ymgymryd â'r holl gaffael.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar y Canllawiau Statudol drafft sy'n ofynnol i gefnogi gweithredu'r Ddeddf ac mae'n bwriadu eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn ddiweddarach yn yr hydref. Bydd y Canllawiau Statudol yn cefnogi cyrff cyhoeddus sy'n cael eu cwmpasu gan y Ddeddf i gyflawni eu dyletswyddau caffael cyfrifol cymdeithasol newydd. Bydd yn darparu arweiniad ymarferol ar gyflawni canlyniadau llesiant drwy'r broses gaffael. Byddwn yn gweithio gyda chyrff cyhoeddus, partneriaid cymdeithasol, gweithwyr proffesiynol caffael ac eraill i gefnogi ei weithredu a'i gyflawni'n effeithiol.

Mae'r **Strategaeth Bwyd Cymunedol** yn hyrwyddo cynhyrchu bwyd lleol a gwytnwch cymunedol, trwy gryfhau cadwyni cyflenwi byrrach. Mae'n ymrwymo i gyflawni'r amcanion a amlinellwyd ac i gynyddu'r cyfleoedd ar gyfer caffael bwyd lleol. Cefnogir hyn gan becyn cyllid traws-bortffolio o dros £2 filiwn ar gyfer Partneriaethau Bwyd Lleol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025-2026. Mae'r Partneriaethau Bwyd Lleol hyn bellach wedi'u sefydlu ym mhob Awdurdod Lleol yng Nghymru a byddant yn darparu cydlyniad strategol mawr ei angen ar brosiectau bwyd lleol ‘ar lawr gwlad’. Byddant yn creu cyfleoedd cyflenwi newydd trwy gysylltu rhanddeiliaid bwyd lleol – gan gynnwys cynhyrchwyr, busnesau, cyfanwerthwyr a gwasanaethau sector cyhoeddus. Trwy uno ffermwyr â sefydliadau ehangach ar hyd y gadwyn gyflenwi, bydd hyn hefyd yn ategu amcanion y **Cynllun Ffermio Cynaliadwy**.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Bwyd o Gymru ar Fwydlenni Ysgolion.**

Yn ogystal â'r mentrau yn Ynys Môn a Chaerffili y cyfeirir atynt yn ein papur tystiolaeth, mae Llywodraeth Cymru yn cynyddu faint o fwyd o Gymru sydd ar fwydlenni ysgolion, drwy **Gymuned Ymarfer Bwyd yr Economi Sylfaenol (CoP).**

Sefydlwyd y dull cydgysylltiedig hwn i gefnogi cydweithredu ac arloesi ar draws prosiectau bwyd yr Economi Sylfaenol. Mae bellach wedi ehangu i gynnwys prynwyr bwyd ac arlwywyr o gynghorau, byrddau iechyd, a'r byd academaidd.

Mae'n braf gweld bod llawer o brosiectau'r Economi Sylfaenol wedi ehangu i rannau eraill o Gymru. Ymysg y mentrau allweddol mae:

- Y prosiect **'Llysiau o Gymru mewn Ysgolion'** . Mae ei lwyddiant bellach yn cael ei ehangu i Ogledd Cymru i gynnwys tyfwyr/cyfanwerthwyr ychwanegol, ac Awdurdodau Lleol. Ar hyn o bryd mae'n cael ei weithredu trwy dri ar ddeg o Awdurdodau Lleol, pymtheg tyfwr a phedwar cyfanwerthwr. Mae'r prosiect eisoes wedi cyfrannu at gynnydd o 20% yn y tir a ddefnyddir i dyfu llysiau yng Nghymru, tra bod gweddill y DU wedi gweld dirywiad. Bydd cyllid pellach yn cefnogi'r uchelgais i ddod o hyd i chwe deg tunnell o lysiau o Gymru i gynhyrchu miliwn o ddognau o lysiau ar gyfer prydau ysgol yng Nghymru. Yr amcan cyffredinol yw sicrhau bod 25% o'r holl lysiau yn ysgolion Cymru yn lleol ac yn organig erbyn 2030.

- **Mae Larder Cymru** wedi llwyddo i gefnogi wyth Awdurdod Lleol ledled Cymru, gan ragori ar ei darged gwreiddiol, i ddatblygu bwydlenni ysgol newydd, sy'n cydymffurfio â'r tymhorau, sy'n cynnwys cynnyrch o Gymru yn ei hanfod. Datblygwyd pecyn cymorth personol wedi'i deilwra ar gyfer pob Awdurdod Lleol, gan ystyried eu heriau penodol ac i alinio ag amcanion lleol. Ymhlith y llwyddiannau allweddol roedd bwydlenni diwygiedig a gynyddodd y defnydd o gynhwysion lleol, cryfhau cadwyni cyflenwi lleol, a chynyddu'r defnydd o brydau ysgol am ddim. Arweiniodd bwydlen ddiwygiedig yng Nghaerffili at yr Awdurdod Lleol bron yn dyblu eu gwariant ar fwyd o Gymru. Yn Wrecsam, symudodd cyrchu cynnyrch i Harlech Foodservice i wella'r cynnig cyrchu lleol.

- Yn ogystal â'r bwydlenni diwygiedig, **mae Larder Cymru** yn treialu bariau salad ar thema bwyd stryd mewn ysgolion uwchradd mewn tri Awdurdod Lleol, gan ddefnyddio llysiau tymhorol a dyfir yn lleol. Mae hyn yn cefnogi cadwyni cyflenwi bwyd gyda'r Rheoliadau Bwyta'n Iach newydd i nodi cyfleoedd ar gyfer ail-ffurfio a datblygu cynnyrch newydd.

- Yn Sir Fynwy, cafodd yr ymgyrch '**Give Chickpeas a Chance'** ei chynllunio gan blant ysgol gynradd ac fe'i cynhaliwyd gan gyngor Sir Fynwy. Llwyddodd plant ysgol gynradd **'Cookalong Clwb'** i weithredu newid gyda'u rysáit Chickpea Korma ac maent wedi'u hychwanegu at bob bwydlen ysgol yn Sir Fynwy. Mae'r fenter arloesol hon bellach wedi'i chyflwyno ymhellach yng Nghymru, gan weithio tuag at yr un nod. Yn Crosshands, mae plant ysgol gynradd wedi creu rysáit brownie gan ddefnyddio aquafaba (dŵr ffacbys) ac wedi mynd â'u rysáit i Castell Howell i'w ddatblygu.

- Mae '**Bwydlen Ysgol Cenedlaethau'r Dyfodol'** yn fenter arloesol sydd â'r nod o drawsnewid prydau ysgol i adlewyrchu gwerthoedd **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn well. Yn Sir Gaerfyrddin, roedd bwydlen ddiwygiedig yr ysgol yn cynnwys cynnyrch Cymreig ffres, tymhorol. Mae'r prosiect bellach yn ehangu i wasanaethu pob ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin, gyda chynlluniau i ddarparu 2.1 miliwn o brydau bwyd bob blwyddyn. Cyflwynodd fodel 'Tir Cyhoeddus i

Blât Cyhoeddus' cyntaf y DU, gan weini bwyd o'r fferm sirol i ysgolion lleol, cyflogi staff garddwriaethol yn uniongyrchol, a chydweithio â sefydliadau gan gynnwys Synnwyr Bwyd Cymru a Cyswllt Ffermio.

- Yn dilyn bwydlen ysgol newydd Cenedlaethau'r Dyfodol, mae **'Hyfforddiant Cynaliadwyedd Bwyd'** wedi'i gyflwyno ar gyfer staff arlwyo a rheolwyr, o fewn Cyngor Sir Caerfyrddin. Y canlyniadau allweddol a newid diwylliannol mewn meddylfryd gyda staff arlwyo, yr Awdurdod Lleol, sy'n rhannu pwrpas a chenhadaeth ar y cyd ar gyfer datblygu pellach. Mae'r prosiect yn cael ei ystyried yn fodel graddadwy ar gyfer Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru.

**Bwyta Cig**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod cyflenwad sefydlog a digonol o dda byw yn hanfodol i hyfywedd y sectorau prosesu cig coch a llaeth yng Nghymru. Datgelodd Arolwg Amaethyddol a Garddwriaethol Cymru ym mis Mehefin 2024 newidiadau nodedig i niferoedd da byw, gyda gostyngiad mewn gwartheg, defaid a moch, ond cynnydd mewn dofednod. Mae'r tueddiadau hyn yn arwyddocaol yng nghyd-destun nodau y newid hinsawdd a rhagolygon poblogaethau da byw yn y dyfodol.

Yn ei gyngor diweddaraf i Lywodraeth Cymru, mae Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU (UKCCC), Corff Statudol Annibynnol, yn argymell gostyngiad o 19% yn nifer y da byw cnoi cil (yn enwedig gwartheg a defaid) erbyn 2033. Mae hyn er mwyn lleihau allyriadau methan, sy'n gyfrannwr mawr at y rhestr nwyon tŷ gwydr amaethyddol.

Mae'r gostyngiadau a awgrymir gan UKCCC yn rhan o **Lwybr Cytbwys** ar gyfer yr economi gyfan. Yn eu barn hwy, mae hon yn ffordd gost-effeithiol sy'n cydbwyso'r angen i ddatgarboneiddio ym mhob sector o'n heconomi i raddau gwahanol. Mae'r UKCCC yn sylwi bod y gostyngiad yn niferoedd da byw yn cael ei yrru gan rymoedd y farchnad i raddau helaeth.

Mae ystadegau diweddaraf Arolwg Mehefin ar gyfer 2024 yn cadarnhau bod niferoedd da byw yng Nghymru eisoes yn is nag amcangyfrif UKCCC ar gyfer 2025. Mae'r gostyngiad yn niferoedd da byw yn duedd ledled y DU, a bydd fy swyddogion yn parhau i fonitro iteriad nesaf Arolwg Amaethyddol a Garddwriaethol Cymru ac yn cysylltu â'r llywodraethau eraill ledled y DU drwy Grŵp Monitro Marchnad y DU.

Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) wedi'i gynllunio i ysgogi cynhyrchu cyfrifol, sydd yn ei dro yn cefnogi'r gadwyn gyflenwi i fodloni safonau cynaliadwyedd. Mae hyn yn cynnwys cynhyrchu da byw a bydd yn ceisio ychwanegu gwerth at gynhyrchu cig coch a'i statws Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig (PGI).

Unwaith eto, diolch am ysgrifennu ataf ar y mater pwysig hwn ac rwyf yn gobeithio bod yr ymateb hwn wedi bod o gymorth.

Yn gywir,

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

18 Tachwedd 2025

Annwyl Mike,

Yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol, rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod ichi am ddegfed cyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol, a gynhelir ar 20 Tachwedd 2025.

Byddaf yn cadeirio y cyfarfod hwn, a fydd yn cael ei gynnal ar-lein. Disgwylir i'r drafodaeth ganolbwyntio ar Faterion Rhyngwladol, Cydlyniant Cymunedol, a materion cyfredol gan gynnwys Cyllideb nesaf y DU, y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar Gonfensiwn Sewel a Deddfwriaeth.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgorau canlynol: Cyllid; Economi, Masnach a Materion Gwledig; Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol; Iechyd a Gofal Cymdeithasol, aCydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar ôl y cyfarfod, yn unol â'r trefniadau sefydledig.

Yn gywir,

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: MA/HIDCC/1629/25

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

19 Tachwedd 2025

Annwyl Andrew,

Ysgrifennaf i roi gwybod i chi fod fy nghydsyniad wedi'i roi ar gyfer Rheoliadau Cynhyrchu Organig (Diwygio) 2025, a osodwyd yn Senedd y DU ar 22 Hydref. Mae'r Offeryn Statudol hwn yn ymestyn rhanddirymiadau mewn cynhyrchu organig ar gyfer defnyddio cywennod anorganig a fagwyd ar gyfer dodwy, gwm gellan anorganig ac ar gyfer cynnwys hyd at 5% o fwyd anifeiliaid protein anorganig ar gyfer moch a dofednod.

Mae fy nghydsyniad ar gyfer yr OS hwn yn seiliedig ar yr Ysgrifennydd Gwladol yn defnyddio pwerau a roddwyd gan Erthygl 22(3) o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 834/2007 ar gynhyrchu organig a labelu cynhyrchion organig. Mae Erthygl 38a(3)(a) o'r rheoliad hwn yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau ar gyfer Cymru yn y maes hwn, ar yr amod y rhoddir cydsyniad Gweinidogion Cymru.

Rhoddais wybod i Aelodau'r Senedd am osod y Rheoliadau hyn drwy Ddatganiad Ysgrifenedig a osodwyd ar 23 Hydref - Datganiad Ysgrifenedig: Rheoliadau Cynhyrchu Organig (Diwygio) 2025 (24 Hydref 2025) | LLYW. CYMRU

Yn gywir,

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.